



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

2012/13

Adroddiad a Datganiadau Ariannol
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013



Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol

Cynnwys

Adroddiad Blynyddol:

- Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr 3
 - Datganiad Llywodraethu Blynyddol 6
- Adroddiad amgylcheddol 41
- Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol 45
- Datganiad cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu 47

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Cyngor 48

Datganiadau ariannol:

- Datganiad gweithgareddau ariannol 50
- Mantolen 51
- Datganiad llif arian 52
- Nodiadau sy'n rhan o'r datganiadau ariannol 53

Atodiad i'r Adroddiad Blynyddol (nad ydynt yn rhan o'r datganiadau ariannol):

- Grantiau a gynigiwyd 75

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.





Ruby Hughes (Ella) yn *In the Locked Room* gan Huw Watkins – Theatr Gerdd Cymru (llun: Clive Barda)

Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013
Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Manylion cyfeiriol a gweinyddol

Ymddiriedolwyr

Aelodau o'r Cyngor a wasanaethodd ers 1 Ebrill 2012:

		Mynychu cyfarfodydd yn 2012/13			
		Y Cyngor	Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Cyfalaf	Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
		Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd:			
		6	5	4	1
Yr Athro Dai Smith, Cadeirydd	(c)	6			Cadeirydd pwyllgor 1
Dr Kate Woodward, Is-gadeirydd	(d)	3			
Emma Evans	(a)	2	Cadeirydd pwyllgor 4		
Dr John Geraint	(c)	4			1
Michael Griffiths OBE		6			
Melanie Hawthorne		6			
Dr Lesley Hodgson		5			
Margaret Jervis MBE DL	(c) (v)	5			1
Marian Wyn Jones	(i) (iii)	5			
Andrew Miller		5			
Osi Rhys Osmond	(d)	5			
Richard Turner	(ii) (iv)	5			
Alan Watkin	(a)	5	5		
Yr Athro Gerwyn Williams	(b)	5		Cadeirydd pwyllgor 4	
John C Williams	(a) (b)	6	3	4	

Mynychu cyfarfodydd yn 2012/13					
Y Cyngor	Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Cyfalaf	Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol		
Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd:					
6	5	4	1		
<i>Mynychu aelodau annibynnol o'r pwyllgorau:</i>					
Gareth Jones	(a)		3		
Phillip Westwood	(a)		5		
Jonathan Adams	(b)			3	
Mark Davies (a benodwyd Mawrth 2013)	(b)			1/1	
Roland Wyn Evans (a benodwyd Mawrth 2013)	(b)			0/1	
Janet Roberts	(b)			1	
Bethan Guilfoyle CBE	(c)				1

- (a) Aelod o'r Pwyllgor Archwilio
- (b) Aelod o'r Pwyllgor Cyfalaf
- (c) Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
- (d) Aelod o Bwyllgor Cymru yn Fenis

Am ran o leiaf o gyfnod yr adroddiad hwn hefyd, gwasanaethai aelodau o'r Cyngor (gyda rhifau mewn cromfachau ar ôl eu henwau yn y rhestr uchod) yn aelodau neu'n uwch weithwyr o'r cyrff cyhoeddus canlynol:

- (i) Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- (ii) Cyngor Sir Fynwy
- (iii) S4C
- (iv) Prifysgol Cymru
- (v) Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Prif Weithredwr

Nicholas Capaldi

Swyddfeydd

*Rhanbarth y Canolbarth
a'r Gorllewin:*

4-6 Gardd Llydaw
Lôn Jackson
Caerfyrddin
SA31 1QD

Rhanbarth y Gogledd:

Parc y Tywysog II
Rhodfa'r Tywysog
Bae Colwyn
LL29 8PL

*Rhanbarth y De a'r
swyddfa cenedlaethol:*

Plas Bute
Caerdydd
LL29 8PL
CF10 5AL

Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Archwilwyr mewnol

Partneriaeth Atebolrwydd
Cyfyngedig Deloitte
5 Sgwâr Callaghan
Caerdydd
CF10 5BT

Cyfreithwyr

Partneriaeth Atebolrwydd
Cyfyngedig Geldards
Tŷ Dumfries
Plas Dumfries
Caerdydd
CF10 3ZF

Bancwyr

Y Banc Cydweithredol
16-17 Stryd Fawr
Caerdydd
CF10 1AX

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

A finnau'n Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru, mae'r datganiad llywodraethu hwn yn gyfrifoldeb personol imi, Nicholas Capaldi. Disgrifia drefniadau llywodraethu'r Cyngor a sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau i sicrhau y rheola'r Cyngor ei fusnes, o ran gweithgareddau'r trysorlys a'r Loteri, yn unol â'r gyfraith, ac y glyna at safonau cywir ac y sefydla'r amddiffynfeydd angenrheidiol i warchod y defnydd o arian cyhoeddus. Esboniaf hefyd sut y cyfrifyddir yn iawn am yr arian hwn a'i ddefnyddio'n gynnil, effeithlon ac effeithiol i ddarparu cynlluniau a blaenoriaethau'r Cyngor.

Atebolrwydd:

Amcan y Cyngor yw cefnogi a datblygu celfyddydau Cymru er budd holl boblogaeth Cymru a chefnogi'n celfyddydau'n rhyngwladol. Sefydlwyd y Cyngor gan Siarter Frenhinol ar 30 Mawrth 1994 ac mae'n elusen gofrestredig (rhif 1034245), corff a noddir gan Lywodraeth Cymru a Dosbarthwr y Loteri Genedlaethol.

Noda'n Siarter Frenhinol ein hamcanion: datblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer y celfyddydau; gwneud y celfyddydau'n fwy hygyrch i'r cyhoedd; gweithio drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Cydweithiwn â chyrrff cyhoeddus eraill Cymru a Chynghorau Celfyddydau eraill Prydain, i gyflawni'r amcanion hyn. Mae copi o'n Siarter Frenhinol ar ein gwefan.

Am y rhan fwyaf o 2012/13 roedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn atebol i'r Gweinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth Llywodraeth Cymru. Gweithredwn mewn fframwaith eang a noda'r telerau a'r amodau y glyna Gweinidogion Cymru atynt wrth roi inni ein harian grant mewn cymorth ac sy'n nodi sut y gallwn ei ddefnyddio. A ninnau'n gorff cyhoeddus, rhaid inni hefyd weithredu yn ôl y canllawiau yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

A ninnau'n ddsbarthwr arian y Loteri, dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd), rydym yn atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cawn ein cyfarwyddiadau ariannol gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'n cyfarwyddiadau polisi gan Weinidogion Cymru. Noda'r rhain sut y bydd yn rhaid inni weithredu. Mae gennym drefniadau ar waith i sicrhau y cyfrifyddwn ar wahân ar gyfer ein gweithgareddau cyffredinol a rhai dosbarthu'r Loteri. Archwilir y ddwy set yn allanol ac ar wahân.

A ninnau'n elusen, gweithredwn dan Ddeddfau'r Elusennau 1960, 2006 a 2011 a chanllawiau a gyflwynir gan y Comisiwn Elusennau. Rydym hefyd yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Credyd Defnyddwyr a chanllawiau a gyflwynir gan y Swyddfa Masnachu Teg; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Ddeddf Diogelu Data 1998.

Mae systemau a phrosesau rheoli ein sefydliad a'n gweithgareddau yn ymateb i'r gwahanol fathau o atebolrwydd. Yn y fframweithiau hyn gwna Cyngor Celfyddydau Cymru benderfyniadau annibynnol o ran cyfeiriad strategol y sefydliad, ariannu grant a phenderfyniadau ariannol eraill.

Gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd Gweinyddol y Senedd archwilio materion y Cyngor.

Llywodraethu:

Llywodraethir y Cyngor gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr – y Cyngor – sy'n cynnwys Cadeirydd a 14 aelod a phenodir un ohonynt yn Is-gadeirydd. Ddnt ag arbenigedd a gwybodaeth i'r broses o arolygu a datblygu ein gweithgareddau.

Yn y gorffennol penodwyd y Cadeirydd a'r aelodau gan y Gweinidog dros Dai, Adfywio a


Threftadaeth Llywodraeth Cymru, a hynny fel arfer am dair blynedd y gellid ei adnewyddu unwaith. Yn y dyfodol, penodir y rhain gan y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon.

Telir Cadeirydd y Cyngor. Rhydd pob aelod arall eu hamser a'u harbenigedd yn wirfoddol ond cânt eu talu am dreuliau parod a geir ar fusnes y Cyngor. Mae crynodeb yn nodyn 9b o'r datganiadau ariannol hyn.

Ac yntau'n brif gorff penderfynu'r sefydliad, mae'r Cyngor yn gyfrifol am gyfeiriad strategol a rheolaeth y sefydliad a sicrhau y gweithreda'r sefydliad, drwy'r Prif Weithredwr, yn y fframwaith polisi a sefydla Llywodraeth Cymru.

Penderfyna aelodau o'r Cyngor ar bolisi corfforaethol a llunio ein cynlluniau corfforaethol a gweithredol. Pennant y gyllideb flynyddol, dyrannu grantiau blynyddol i sefydliadau refeniw a chymeradwyo grantiau o dros £50,000, neu dros £250,000 yn achos prosiectau Cyfalaf gydag arian y Loteri. Mae aelodau'n gyfrifol am unrhyw newidiadau sylweddol i delerau ac amodau gwasanaeth y staff.

I gefnogi ei waith, penododd y Cyngor dri phwyllgor i ddarparu cyngor arbenigol, sef y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Cyfalaf a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Hefyd sefydlodd bwyllgorau ymgynghorol ad hoc a grwpiau monitro mewnol i'w gynorthwyo yn ei waith.



Prif reolwr gweithredol y sefydliad yw'r Prif Weithredwr a gefnogir gan yr Uwch Tîm Rheoli o bum Cyfarwyddwr y mae gan bob un gyfrifoldeb am agwedd benodol ar y gwaith.

Sefydlwyd rhestr o Ymgynghorwyr Cenedlaethol a benodwyd gan staff gweithredol y Cyngor i ddarparu cyngor arbenigol.

Gweithreda pob pwyllgor dan gylch gorchwyl penodol. Darperir cofnodion o bob cyfarfod pwyllgor i gyfarfod y Cyngor a ddaw wedyn.

Ymhob pwyllgor mae aelodau o'r Cyngor, gydag un yn Gadeirydd arno, ac unigolion a gyfetholwyd. Penodir aelodau annibynnol oherwydd eu sgiliau a'u profiad arbenigol, drwy broses ddethol agored. Â pob aelod newydd o'r Cyngor neu'r pwyllgorau drwy broses ymsefydlu sy'n briodol i'w swyddogaeth.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n gyfrifol am ddarparu sicrwydd i'r Cyngor ar effeithiolrwydd ein llywodraethu, ein rheoli perygl a'n trefniadau rheoli mewnol. Llunia Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor sy'n crynhoi ei waith a thynnu sylw at faterion pwysig yn ôl y galw.

Roedd tair thema allweddol i waith y Pwyllgor yn y flwyddyn. Yn gyntaf, monitro cynnydd yn rheolaidd o ran gweithredu pob argymhelliad o eiddo'r archwilyr; yn gyffredinol roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y cynnydd a wnaed. Yn ail, o gofio lefel ein buddsoddiad ynddynt, monitro sefydliadau refeniw gyda ffocws ar y rhai uwch eu perygl. Yn drydydd, archwiliodd y Pwyllgor drefniadau'r ymarfer gorau o ran llywodraethu drwy broses barhaus o adolygu systemau a gweithdrefnau. Ni chodwyd unrhyw faterion pwysig yn 2012/13.

Mae'r Pwyllgor Cyfalaf yn gyfrifol am gynghori'r Cyngor ar ddatblygu polisi am bob agwedd ar ddatblygu Cyfalaf, gan gynnwys blaenoriaethau ariannu a chynlluniau. Mae ganddo awdurdod dirprwyedig i benderfynu'n ariannol ar grantiau

Cyfalaf y Loteri o £50,001 hyd at £250,000. Gyda grantiau Cyfalaf mwy, rhydd argymhellion i'r Cyngor.

Adolyga'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol berfformiad y Prif Weithredwr yn ôl amcanion a gytunwyd a gosod targedau i'r flwyddyn a ddaw. Cytuna hefyd ar lefel dâl y Cadeirydd yn y terfynau a osododd Gweinidogion Cymru.

Ceir manylion aelodaeth y Cyngor a'r tri phwyllgor hyn a manylion am fynychu'r aelodau yn adran *Manylion cyfeiriol a gweinyddol* ar ddechrau Adroddiad Blynyddol yr ymddiriedolwyr. Y llynedd roedd gennym hefyd Bwyllgor Ymgynghorol Fenis i borthi ac arolygu trefnu ein presenoldeb ym Miennale Fenis 2013. Hefyd roedd gennym ddau grŵp monitro mewnol sef Grŵp Monitro Cydraddoldebau a Grŵp Monitro'r Gymraeg.

Mae'r Uwch Tîm Rheoli dan arweiniad y Prif Weithredwr a chefnogir ef gan Dimau Datblygu'r Celfyddydau a Gwasanaethau Corfforaethol. Seilir Tîm Datblygu'r Celfyddydau o amgylch tair cyfarwyddiaeth – y Celfyddydau; Ymgysylltu ac Ymgysylltu; a Menter ac Adfywio; a Thîm Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cynnwys dwy gyfarwyddiaeth – Cyllid ac Adnoddau; a Buddsoddi ac Ariannu. Mae gan bob Cyfarwyddwr gyfrifoldeb am agwedd benodol ar y sefydliad. Mae rhagor o fanylion yn nodyn 9 a'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol.

Dirprwyodd y Cyngor rym i'r staff benderfynu am roi grantiau hyd at £50,000.

Hyrwyddo gwerthoedd llywodraethu da:

Cefnoga'r Cyngor saith egwyddor yr Arglwydd Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus ac ymdrecha i sicrhau bod pob gweithiwr, Ymddiriedolwr, aelod o'r Pwyllgorau ac Ymgynghorydd Cenedlaethol yn cymhwyso'r egwyddorion a glynu wrthynt. Mae gennym god o'r ymarfer gorau ac mae copi ar ein gwefan. Diffinia'n glir

swyddogaethau a chyfrifoldebau'r aelodau a'r swyddogion gan gynnwys y safonau priodoldeb disgwylidig y dylent llynu wrthynt.

Rhaid i bob aelod o'r Cyngor a'r Pwyllgorau lenwi'n flynyddol ddatganiad o fudd a chadarnhau'r rhain ymhob cyfarfod a sicrhau y rhoddant wybod am newidiadau'n brydlon.

Mae cofrestr fudd aelodau o'r Cyngor a'i Bwyllgorau a'i Ymgynghorwyr Cenedlaethol ar gael i'r cyhoedd ei gweld, o wneud apwyntiad, ymhob un o'n swyddfeydd yn ystod oriau gwaith arferol.

Mae gan bob un o gyfarfodydd ein Cyngor ei agenda a chylchredir adroddiadau ysgrifenedig ymlaen llaw i aelodau. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y derbynnir eitemau a gyflwynir ac adroddiadau ar lafar. Cyhoeddir agenda a chofnodion pob cyfarfod o'n Cyngor ar ein gwefan.

Nid yw cod Llywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi yn uniongyrchol gymwys i'r Cyngor. Ond, a finnu'n Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n fodlon yr adlewyrchu'r trefniadau cyfredol ymarfer da ac y cydymffurfia'r Cyngor â'r egwyddorion o atebolrwydd, effeithiolrwydd ac arweinyddiaeth sydd yng Nghod y Trysorlys i'r graddau y maent yn berthnasol i gyrff a noddur gan Lywodraeth Cymru a Dosbarthwyr y Loteri. Cymeradwya'r Cyngor y farn hon.

Penderfynu'n wybodus:

Porthir penderfyniadau'r Cyngor a'i Bwyllgorau gan gyngor a ddarparwyd gan staff y Cyngor. Lle bo'n briodol, ategir hyn gan gyngor arbenigol ein Hymgyngorwyr Cenedlaethol.

Disgwylir i ddogfennau ac adroddiadau a gyflwynir gan swyddogion i'r Pwyllgorau a'r Cyngor ddangos yn glir pob gwybodaeth berthnasol angenrheidiol er mwyn i'r Cyngor

benderfynu'n wybodus. Lle bo'n briodol, ceir cyngor arbenigol a barn gyfreithiol hefyd a'u hadrodd wrth y Cyngor a'r pwyllgorau.

Ymgynghorir ar gynigion polisi allweddol ymhlith y cyhoedd. Porthir trafodaethau'r Cyngor gan yr ymatebion a'r adborth cyn terfynu'r polisiâu.

Materion a ystyria'r Cyngor:

Ymgylfarfu'r Cyngor chwe gwaith yn 2012/13 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd y 15 aelod gyfanswm o 73 gwaith allan o 90 gwaith bosibl. Ymhob achos cafwyd esboniadau boddhaol am absenoldeb.

Ystyriodd y Cyngor adroddiadau ar ystod o faterion, gan gynnwys: strategaeth; pennu cynlluniau a chyllidebau; a monitro perfformiad yn ôl targedau gweithredol ac ariannol. Cafodd hefyd adroddiadau gan bob cyfarfod o'r is-bwyllgorau.

Adolygodd y Cyngor y trefniadau llywodraethu, gan gynnwys swyddogaeth y pwyllgorau. Penderfynodd estyn cylch gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol i gynnwys ymwneud â phenodiadau uwch. Yn y dyfodol gelwir ef yn Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Phenodiadau.

Yn sgil gwaith paratoi'r llynedd, gweithredwyd strwythur Sefydliadol newydd ym Mai 2012. Cafodd y Cyngor ddiweddariadau rheolaidd am weithredu'r strwythur newydd a'r rhaglenni gwaith drwy gydol y prosiect. Gwnaeth ein harchwilwyr mewnol ddau adolygiad annibynnol o'r broses a rhoesant hwy i'r Cyngor.

Yn rhan o'i adolygu o'r strwythur, penderfynodd y Cyngor i beidio â pharhau â'r Pwyllgorau Rhanbarthol ymgynghorol. Yn lle'r rhain, ymroes i gynnal cyfres barhaus o gyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru. Diben y cyfarfodydd

yw cael gwybod y farn gyhoeddus am faterion perthnasol i'r Cyngor.

Ystyriwyd hefyd nifer o faterion eraill o bwys strategol. Ymhlith y rhai mwyaf arwyddocaol oedd adroddiadau ar WOMEX 2013, ffair gerddorol y byd, a gyflwynir gan Gerdd Cymru: Music Wales y mae gan y Cyngor fudd o 50% ynddi. Mae hon yn flaenoriaeth strategol allweddol i'r Cyngor yn 2013/14.

Trafododd aelodau hefyd ddatblygu adolygiad o strategaethau celfyddydol y Cyngor a datblygu Cynllun Corfforaethol 2013-18.

Ymgwymerodd y Cyngor ag adolygiad hunanasesu o'i berfformiad ei hun y llynedd. Ar y cyfan ei gasgliad oedd ei fod yn fodlon y gweithiai'n effeithiol yn ôl y 13 categori yn ei Fframwaith Asesu Bwrdd. Ond, yn rhan o'r broses o wella'n barhaus, cyflwynir rhai gwelliannau pellach y flwyddyn nesaf, gan gynnwys adolygu effeithiolrwydd ein cylch cynllunio strategol; cryfhau prosesau'r Cyngor o sicrwydd a hunanasesiad; a chreu rhagor o gyfleoedd i aelodau o'r Cyngor gyfarfod â'r staff i sicrhau bod trafodaeth fyw, agored a gwybodus rhwng y Cyngor a'r ochr weithredol. Pery'r Cyngor i fonitro ei berfformiad yn ôl y Fframwaith Asesu.

Roedd y Cyngor yn fodlon gyda'r data a'r wybodaeth a gaiff a bod y wybodaeth a gaiff am grantiau'n ddibynadwy. Adolygir yn flynyddol y systemau a ddefnyddir i ddarparu'r wybodaeth yn rhan o'r rhaglen archwilio fewnol. Yn yr achosion prin pan nad yw'r wybodaeth a ddarperir yn cwrdd â'r safonau angenrheidiol, gwrthodir derbyn y ddogfen gan gomisiynu un yn ei lle. Digwyddodd hyn unwaith y llynedd.

Ariannu Trydydd Parti:

A ninnau'n ddsbarthwr mawr o arian i sector celfyddydau Cymru - oddi wrth Lywodraeth

Cymru, y Loteri Genedlaethol a ffynonellau eraill, gan gynnwys arian Ewrop - cymerwn ein cyfrifoldebau o ddifrif a datblygasom systemau a gweithdrefnau i gefnogi'r rhan allweddol hon o'n gweithgarwch.

Cyhoeddir yn flynyddol ganllawiau clir i bob un o'n rhaglenni grant Loteri ac mae manylion ar ein gwefan.

Mae gennym brosesau ymgeisio agored a thryloyw i'n rhaglenni grant a phrosesau asesu, penderfynu a monitro cadarn i bob arian a roddwn i artistiaid a sefydliadau celfyddydol. Adolygir y rhain yn rheolaidd.

Ystyriwn berygl pan aseswn geisiadau a monitro grantiau a roddir. Defnyddir gwybodaeth a gesglir oddi wrth y rhai a gaiff grantiau yn ein gweithdrefnau monitro i sicrhau y cyflawnwyd yn y diwedd ganlyniadau datganedig ein harian.

Penderfyna'r Cyngor a ddylid rhoi statws Sefydliad Refeniw i sefydliad, yn seiliedig ar gyngor swyddogion ac asesiadau trylwyr.

Mae rhestr lawn o'r holl grantiau Gweithgareddau Cyffredinol a gynigiwyd yn y flwyddyn ariannol yn yr atodiad i'r Adroddiad Blynyddol hwn. Rhestrir grantiau Loteri a gynigiwyd yn y cyfrifon Dosbarthu'r Loteri a gyhoeddir ar wahân.

Caiff y Cyngor adroddiadau rheolaidd ar yr asesiad perygl am bob un o'n sefydliadau refeniw. Ategir hwn gan Adroddiad Blynyddol sy'n crynhoi canfyddiadau ein harolwg blynyddol o fynychu ac ymgyfranogi ymhlith ein sefydliadau refeniw, a lefel yr arian refeniw yn ôl pob mynychwr/ymgyfranogwr.

Pan fo galw, cymerwn agwedd ragweithiol o ran sefydliadau a gaiff anawsterau a buddsoddi amser ac egni i'w cynorthwyo i ddatrys eu problemau. Y llynedd comisiynasom

adolygiadau annibynnol o un sefydliad refeniw. Darparwyd diweddariadau rheolaidd i'r Cyngor am sefydliad arall a gafodd anawsterau ariannol yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ar sail cyngor swyddogion ac arbenigwyr allanol, cymeradwyodd y Cyngor gyfres o argymhellion â'r nod o sefydlogi'r sefydliadau a'u symud tuag at sefyllfa fwy cynaliadwy yn y tymor canolig.

Cymerwn dwyll, llygredd a chamweinyddu o ddifrif ac mae gennym bolisiâu i atal y rhain a delio â hwy pe codent, gan gynnwys polisiâu chwythu'r chwiban a gwrth-dwyll. Ni ddaeth unrhyw enghreifftiau i'r fei y llynedd.

Adolygir yn flynyddol gan ein harchwilwyr mewnol ein prosesau rhoi grantiau a monitro a chreffir arnynt gan Swyddfa Archwilio Cymru. Gan gymryd i ystyriaeth y materion a ddaeth i law o adolygiad arbennig yn y gorffennol a dymuno cyflwyno mewnwelediad gwahanol, cyflwynasom ymagwedd wahanol i'r adolygiadau archwilio mewnol y llynedd. Golyga hyn ganolbwyntio ar bob swm o arian a gaiff sampl o'n cleientiaid yn hytrach na chraffu ar feysydd ariannu penodol. Adeiladwn ar hyn yn y flwyddyn a ddaw.

Rheoli Perygl:

Datblygasom system o reolaeth fewnol â'r amcan o nodi a blaenoriaethu'r peryglon i gyflawni polisiâu, nodau ac amcanion y Cyngor. Gwerthuso debygolrwydd gwireddu'r peryglon ac ystyried yr effaith pe digwyddent a cheisio eu rheoli'n effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Cydnabyddwn y rheidrwydd i unrhyw strategaeth ddatblygu uchelgeisiol dderbyn y perygl o fethu â chyflawni polisiâu, nodau ac amcanion. Bwriad ein system o reolaeth fewnol yw cyfyngu ar berygl i lefel resymol a phriodol ac felly ni all ddarparu sicrwydd llwyr eithr rhesymol.

Bwriadwn hyrwyddo diwylliant mwy arloesol a llai ofnus o berygl i gefnogi artistiaid,

sefydliadau a phrosiectau i gyflawni ein hamcanion. Golyga'r angen cynyddol i fwyafu manteision ein buddsoddi i'r sector a'r cyhoedd fod yn rhaid inni ar brydiau ymdrin â pheryglon mewn modd priodol a phwyllog a chydabod y gallai methiant ddigwydd o ganlyniad. Ond ni fyddwn yn fyrbwyll na niweidio'n fwiadol ein henw da. A ninnau'n gorff a ariennir yn gyhoeddus, ystyriwn berygl yn ofalus yn unol â'n cyfrifoldebau a'r sector a wasanaethwn.

Mae'r staff wedi'u paratoi i reoli perygl yn briodol o ran eu hawdurdod a'u dyletswyddau drwy gael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o berygl ac arweiniad mewn swydd. Rhaid cynnwys asesiad o berygl ymhob dogfen bwysig a â gerbron y Cyngor.

Cychwynnodd y Pwyllgor Archwilio ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Diben y fframwaith yw cryfhau'r broses rheolaeth a sicrwydd a ddefnyddir i nodi a rheoli peryglon strategol allweddol. Rhydd hyn ragor o hyder i'r Cyngor bod ei benderfyniadau wedi'u seilio ar wybodaeth. Cyflwynwn hyn yn 2013/14.

Cefnogir rheoli perygl gan waith ein harchwilwyr mewnol. Mae rhagor o fanylion isod.

Peryglon allweddol a wyneba'r Cyngor:

Nodwyd, aseswyd ac ystyriwyd peryglon i'n gweithgareddau strategol a gweithredol gan yr Uwch Tîm Rheoli a gweithredwyd i'w lleihau. Adolygir yn gyson y peryglon a'r camau gweithredu a gymerir i'w rheoli. Cefnogir hyn gan ein rhaglen archwilio fewnol sy'n adolygu meysydd allweddol o berygl a lle bo'n briodol gynnig argymhellion i'r rheolwyr i fynd i'r afael â hwy a'u lleihau. Rhoddir diweddariadau gerbron y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio.

Un o'r peryglon allweddol a nodwyd y llynedd oedd gweithredu a chynnal ein Hadolygiad Sefydliadol. Cynhaliwyd ef yn llwyddiannus ac adolygwyd ef gan ein harchwilwyr mewnol.

Nid ystyriwn ef bellach yn berygl allweddol.

Ond yn y dyfodol mae nifer o beryglon allweddol sy'n ein hwynebu yn y flwyddyn a ddaw neu wedyn:

Y perygl mwyaf arwyddocaol yn y dyfodol agos yw effaith y toriadau yn y gwariant cyhoeddus a'r effaith bosibl a gâi ar y sector ehangach. Gwyddom am yr angen i fynd i'r afael yn barhaus â materion a'u monitro lle yr ydym yn brif ariannwr a lle mae gennym ddylanwad uniongyrchol. Ond gallai perygl ac effaith y toriadau gan arianwyr sector cyhoeddus eraill greu goblygiadau i seilwaith y celfyddydau ledled Cymru.

Ailagorasom ein rhaglen Cyfalaf y Loteri y llynedd. Mae pob prosiect ar raddfa fawr, boed yn adeiladau newydd neu adnewyddu hen rai, yn beryglus yn eu hanfod. Adlewyrchir hyn gan ein gweithdrefnau a'n rheolaeth. Ar hyn o bryd mae gennym ddau brosiect mawr a adeiladir; monitrir y ddau'n ofalus gyda chymorth arbenigwyr annibynnol sy'n defnyddio ein gweithdrefnau monitro trylwyr.

O ganlyniad i ragor o werthiant tocynnau, cynnydd yn ein cyfran o'r arian Achosion Da a diwedd ein cyfraniadau at Gemau Olympaidd London 2012, cynyddodd ein hincwm Loteri. Yn y tymor byr mae peryglon o gael balansau mwy yng nghronfa dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ac anallu i ymrwymo'r lefelau newydd o incwm. Monitrir y sefyllfa'n ofalus.

Cynhelir WOMEX 2013, digwyddiad mawr gydag artistiaid a hyrwyddwyr o bedwar ban byd, yng Nghaerdydd yn Hydref 2013. Mae sawl perygl ynghlwm wrth ddigwyddiad mor gymhleth ac mor fawr. Cerdd Cymru: Music Wales: Music Wales sy'n ei chynnal ond mae'n bwysig yn strategol i'r Cyngor a buddsoddw'n adnoddau i sicrhau ei llwyddiant.

Diogelwch data:

Cymerwn ein rhwymedigaethau dan Ddeddf Diogelu Data o ddifrif. Sicrha ein systemau a rheolaethau TGCh fod rheolaeth lem ar y data. Aseswn y trefniadau hyn yn rheolaidd gan gymryd camau i'w gwneud yn fwy cadarn. Parhawn i'w monitro'n ofalus.

Ni chodwyd unrhyw bryderon o'r adolygiad o'r archwiliadau allanol neu fewnol y llynedd. Nid amlygwyd unrhyw faterion gan yr adolygiad lefel uchel a gynhaliodd ein harchwilwyr allanol o'r rheolaethau TG. Y llynedd cynhwysai'r rhaglen archwilio fewnol adolygiadau diogelu data a seilwaith a threfniadau diogelwch ein TGCh. Canlyniad y ddau oedd graddfeydd o sicrwydd sylweddol.

Hyd y gwn ac y credaf, ni chollwyd unrhyw ddata y llynedd.

Cyfarwyddiadau'r Gweinidogion:

A ninnau'n gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn ddarostyngedig i offerynnau anstatudol sy'n cynnwys cyfarwyddiadau priodol. Ni chyflwynwyd unrhyw gyfarwyddiadau inni y llynedd ac ni chawsom unrhyw Gyfarwyddiadau gan y Gweinidogion o ran ein gweithgareddau Loteri.

Materion rheolaeth a nodwyd y llynedd:

Cawn wasanaeth archwilio mewnol gan Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig Deloitte dan arweiniad y Pennaeth Archwilio Mewnol a enwebir sy'n gweithio'n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth hyd at Fawrth 2013 a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus o Ebrill 2013 ymlaen.

Cytuna'r Pwyllgor Archwilio ar raglen o adolygiadau yr ymgymer ein harchwilwyr mewnol â hi yn ystod tymor eu penodiad. Cynnwys pob cynllun blynyddol adolygiadau o weithgareddau busnes allweddol ac archwilio meysydd o berygl posibl inni. Eu nod yw

cynorthwyo rheolwyr wrth adnabod gwelliannau lle bo eu hangen.

Cynhaliwyd deg adolygiad y llynedd. Gydag un eithriad, canlyniad pob adolygiad oedd o leiaf lefel sylweddol o sicrwydd. Yr eithriad oedd am agwedd o'n prosesau recriwtio a esgorodd ar lefel gyfyngedig o sicrwydd. Aed i'r afael (neu eir i'r afael) â phob argymhelliad a gododd yr archwilwyr mewnol.

Dyma farn yr archwilwyr mewnol ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor yn eu hAdroddiad Blynyddol:

"Ar sail ein gwaith dros y flwyddyn, gallwn gasglu bod system reoli fewnol y Cyngor yn gadarn yn y bôn a dylai hyn fod yn sicrwydd sylweddol o ran cyflawni ei amcanion. Nodasom un mater o flaenoriaeth uchel a gafodd gennym raddfa o sicrwydd cyfyngedig ond datryswyd hwn erbyn hyn gan y rheolwyr."

Mae canfyddiadau blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru mewn Adroddiad am Sicrwydd Ychwanegol a Llythyr Rheoli at y Cyngor. Ystyrir hwn hefyd gan y Pwyllgor Archwilio a rhoddir copi ohono i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Aed i'r afael (neu eir i'r afael) â phob argymhelliad a gododd yr archwilwyr allanol.

Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheolaeth fewnol:

Yn fy marn, mae systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol Cyngor Celfyddydau Cymru yn ddigonol i'm galluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau yn Swyddog Cyfrifyddu.



Nicholas Capaldi
Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2013

Cefnogwyd ar ran y Cyngor:



Yr Athro Dai Smith
Cadeirydd
5 Gorffennaf 2013

Strwythur, llywodraethu a rheoli

Cyfnod sefydlu a hyfforddi'r aelodau

Cynhelir rhaglen sefydlu i Aelodau Newydd i'w briffio am eu rhwymedigaethau cyfreithiol dan y Siarter Frenhinol a chyfraith elusen, Cod yr Arfer Gorau, prosesau'r pwyllgorau a phenderfynu, cynlluniau strategol a materion ariannu. Yn ystod y diwrnod cânt gyflwyniadau gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau. Cânt hefyd gyfle i gwrdd â gweithwyr allweddol. Yn ogystal â'r Siarter Frenhinol a'r Cod Arfer Gorau, caiff aelodau gopïau o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon diweddaraf, y Gyllideb Waith bresennol a chyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau, 'The Essential Trustee' a'r 'Independence of Charities from the State'. Trefnir seminarau a hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen i lywio'r broses o lunio strategaethau a pholisïau.

Bydd aelodau o'r Cyngor yn gyfrifol am faterion megis penderfynu ar bolisïau, y cynlluniau corfforaethol a gweithredol, pennu'r gyllideb flynyddol, dyrannu grantiau blynyddol i sefydliadau refeniw a newidiadau mawr i delerau ac amodau gwasanaeth y staff.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyfrifyddu ar wahân am ei weithgareddau cyffredinol a dosbarthu'r Loteri. Dan gyfarwyddiadau cyfrifon ar wahân mae'r driniaeth gyfrifyddu a gaiff grantiau cyffredinol a grantiau'r Loteri yn wahanol iawn. Felly, gan ystyried paragraff 359 o Ddatganiad Arfer a Argymhellir y Comisiwn Elusennau (a ddiwygiwyd 2005), ym marn yr ymddiriedolwyr mae'n amhriodol paratoi cyfrif cyfunol gan na chyfleai ddarlun gwir a theg o'r ffordd y defnyddia'r Cyngor ei adnoddau.

Amcanion, gweithgareddau, cyflawniadau a pherfformiad er budd y cyhoedd

Amcanion siartredig y Cyngor yw:

- (a) datblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer y celfyddydau;
- (b) gwneud y celfyddydau'n fwy hygyrch i'r cyhoedd;
- (c) cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adrannau ein Llywodraeth, awdurdodau lleol, Cynghorau Celfyddydau'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr a chyrrff eraill a chydweithredu â hwy ar unrhyw faterion cysylltiedig, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â'r amcanion blaenorol;
- (d) cyflawni ein hamcanion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Prif ddiben y Cyngor yw cefnogi a datblygu celfyddydau Cymru er budd ei holl bobl ledled y wlad. Y brif ffordd y cais y Cyngor gyflawni'r diben hwn yw drwy lunio strategaethau celfyddydol, ymchwil, a rhoi grantiau rheolaidd ac untro i sefydliadau ac unigolion mewn cydestun strategol a datblygiadol. Cefnogir y prosesau rhoi grantiau gan fonitro ac asesu i sicrhau y defnyddir arian cyhoeddus yn effeithiol at y dibenion a nodwyd. Rheola'r Cyngor hefyd ystod o weithgareddau a gwasanaethau lle nad yw grantiau'n rhan ohonynt, yn aml mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac eraill.

Prif amcanion y flwyddyn

Mae blaenoriaethau strategol y Cyngor ar gyfer 2012/13 yn y tabl isod yn ôl themâu ein cynllun corfforaethol, ochr yn ochr â'r cyflawniadau allweddol, perthnasol yn ôl targed gweithredol y llynedd:

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
<p>Cefnogi creu celfyddyd wych</p> <p>Cefnogwn artistiaid a sefydliadau sy'n arddangos y safonau uchaf o ran dychymyg, gallu ac arbenigedd.</p> <p>Yn gyfnewid, disgwylwn iddynt ymdrechu i greu gwaith o safon sy'n cyrraedd a chynyddu cynulleidfaoedd ac ymgysylltu â hwy.</p> <p>Gallwn wedyn dynnu sylw at ystod o weithgarwch celfyddydol o safon a ysbrydola eraill.</p>		
<p>Erbyn 2013 buddsoddwn mewn portffolio o sefydliadau a ariannwn sydd mewn sefyllfa well i lwyddo'n artistig ac ariannol</p>	<ul style="list-style-type: none"> Llunio strategaeth newydd ar gyfer y celfyddydau (olynydd ein Strategaeth ffurfiau ar gelfyddyd bresennol a'n Strategaeth Ryngwladol ar y cyd â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru). 	<ul style="list-style-type: none"> Ym mis Hydref cymeradwyodd y Cyngor gylch gorchwyl ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau. Pwysleisiodd y Cylch Gorchwyl ymgynghori'n eang â'n rhanddeiliaid, artistiaid a sefydliadau yn rhan o ddatblygu ein Strategaeth Gelfyddydol i 2013/18. Ymgynghorwyd mewn pedair sesiwn Sgwrs Gelfyddydol a gynhaliwyd yn Llandudno, Aberystwyth, Abertyleri a Chaerdydd a chynhyrchwyd dros 70 o drafodaethau drwy gyfrwng Lle Agored. <p>Mae ffrwyth y trafodaethau erbyn hyn ar lein a chynllunnir cyfres arall ohonynt yn Ebrill/Mai 2013.</p> <p>Bwriedir cyhoeddi'r strategaeth newydd, Creadigrwydd a'r Celfyddydau, ym Medi 2013.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu effaith gweithredu'r rhaglenni/strategaethau ariannu newydd (gwyliau, teithio cenedlaethol, datblygu theatrau, celfyddyd gyhoeddus, cronfa datblygu'r diwydiant cerddoriaeth) 	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddwyd ar ein gwefan ddata ein harolwg y llynedd o'n sefydliadau refeniw. Rhydd hyn lawer o'r waelodlin wybodaeth sydd ei hangen i adolygu effaith y rhaglenni ariannu newydd. <p>Ond mae eisiau rhagor o amser i buro'r data ac ymgymryd â'r asesiad o'r effaith. Bwriedir gwneud y gwaith hwn yn gynnar yn 2013/14.</p>

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
	<ul style="list-style-type: none"> Comisiynu arolwg boddhad y cyhoedd ar y celfyddydau a hyrwyddir gan y sefydliadau refeniw 	<ul style="list-style-type: none"> Golygai pwysau gwaith arall – a blaenoriaethau ychwanegol – na chyflwynasom y targed hwn yn 2012/13. <p>Yn y dyfodol, hoffem ailystyried rhesymeg yr arolwg ac archwilio a fyddai'n well cael arolwg boddhad y cyhoedd ehangach ei ddiffiniad yn 2013/14. Mae'n annhebyg yr ystyriwn bortffolio'r sefydliadau refeniw'n unig.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Cydweithio â'n sefydliadau refeniw i'w cefnogi yn eu hymdrechion i gynyddu cynulleidfaoedd, cyfnewid gwybodaeth a rhannu'r ymarfer gorau 	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddwyd yr arolwg o'r sefydliadau refeniw ar ein gwefan yn Ionawr 2013. Darlun cadarnhaol a ddaw o'i ganfyddiadau allweddol gyda chynnydd dros un filiwn mewn mynychuadau ar draws y sefydliadau refeniw a chynnydd incwm a gynhyrchir i sefydliadau lleoliad. <p>Cyhoeddir Adroddiadau Cyfarfod Adolygu Blynyddol y sefydliadau refeniw i 2011/12 ar ein gwefan i bawb ond un ohonynt. Cyhoeddir adroddiadau 2012/13 erbyn Gorffennaf 2013.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Cael rhagor o gydnabyddiaeth ryngwladol i artistiaid a sefydliadau Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Cadw ein prosiectau allweddol cyfredol – Cymru yn Fenis a WOMEX 13 - at yr amserlen a'r cynllun. <p>Cydweithio â'r British Council dan ein cytundeb partneriaeth gan ganolbwyntio ar arddangos yng Nghaeredin (Awst 2013).</p> <p>Pery hefyd rhaglen lawn y gronfa cyfleoedd rhyngwladol. Estynnwyd prosiect Cadwyn yr Awduron yn India i gynnwys cerddorion hefyd.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu partneriaeth darparu prosiectau newydd i Gymru yn Fenis 2013 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawnwyd y cam gweithredu hwn. Sefydlwyd y prosiect partner newydd drwy gydweithio â rhwydwaith Oriolau Gweledol Cymru o orielau a sefydliadau i'r

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
		<p>celfyddyddau gweledol. Dewiswyd y cynnig o gydbartneriaeth Mostyn ac Oriel Davies yn brosiect Cymru i'r Biennale.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau monitro'n genedlaethol ansawdd ein sefydliadau referniw 	<ul style="list-style-type: none"> Effeithiai gweithredu ein hAdolygiad Sefydliadol ac adolygu a recriwtio ein hymgynghorwyr cenedlaethol yn Chwarteri 2 a 3 ar gyflawni'r targed hwn. <p>Addasom y targed iddo fod yn fesur mwy realistig. Ond dengys ffigyrau diwedd y flwyddyn inni gyflawni 168 o Adroddiadau Gwerthuso Ansawdd o'n sefydliadau referniw, yn erbyn targed diwygiedig o 213.</p> <p>Rhaid i'r gwaith dilynol a ddigwydd yn awr yn sgil y Cyfarfodydd Adolygu Blynyddol archwilio'r rhesymau am y tangyflawni hwn.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi mintai gadarn o artistiaid drwy Ddyfarniadau Cymru Greadigol 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawnwyd hyn. Yn gynharach yn y flwyddyn dewiswyd 22 artist drwy Gymru Greadigol, gan gynnwys dau i fod yn Llysgenhadon Cymru Greadigol. <p>Rhodddwyd 20 dyfarniad Cymru Greadigol pellach a 2 o Lysgenhadon Cymru Greadigol - ar 21 Mawrth 2013 yn sgil prynhawn o sgysiau Cymru Greadigol yn Theatr y Grand, Abertawe. Mae manylion am y grantiau ar ein gwefan.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Defnyddio ein cysylltiadau yn y cyfryngau i hyrwyddo celfyddydau Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd sgysiau rheolaidd a chyfarfodydd cynllunio'r dyfodol yn fisol rhwng ein Tîm Cyfathrebu a chysylltiadau allweddol yn y cyfryngau drwy gydol 2012/13. <p>Lluniwyd hefyd gyfundebau drafft gyda'r BBC ac S4C.</p>

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
	<ul style="list-style-type: none"> Cynnal partneriaethau effeithiol â Chadw a'r British Council 	<ul style="list-style-type: none"> Buom yn cydweithio'n agos â'r British Council drwy'r flwyddyn, gan gynnwys adolygu ein cytundeb partneriaeth cyfredol a gwaith prosiect. <p>Yn y gwaith partneriaeth a ddigwydd mae agweddau rhyngwladol ar ŵyl Dylan Thomas 100.</p> <p>Llofnodasom femorandwm cyd-ddealltwriaeth â Chadw. Penodwyd yr artist Lucy Harvey yn Abaty Glyn y Groes i'r breswylfa gychwynnol a bery chwe mis sy'n dechrau yn Chwefror 2013.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu rhestr newydd o Ymgynghorwyr Cenedlaethol 	<ul style="list-style-type: none"> Recriwtiwyd ymgynghorwyr newydd yn 2012/13 a'r canlyniad oedd cael 46 o ymgynghorwyr y mae 18 ohonynt yn newydd. <p>Pennwyd pob un i un neu ragor o'n sefydliadau refeniw a gwahoddwyd pob un i'n Cynhadledd Flynyddol a chyfres o sesiynau sefydlu.</p> <p>Trefnwyd sesiwn lwyddiannus, Eneidiau Hoff Cytûn, yn fodd i sefydlu a thrafod strategol gyda'r ymgynghorwyr.</p> <p>Daethpwyd o hyd i arbenigedd digidol a syrcais i lenwi'r bylchau sgiliau coll.</p>

Thema'r Cynllun Corfforaethol / arged Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
<p>Annog rhagor o bobl i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt</p> <p>Cefnogwn weithgarwch sy'n cynyddu ac ymestyn ymgysylltiad y cyhoedd â'r celfyddydau. Hoffem i bobl fwynhau a phrofi gwaith o safon sy'n ysbrydoledig, difyr a heriol. Hoffem ddarbwylllo rhagor o bobl y dylai mynychu ac ymgyfranogi o ran y celfyddydau fod yn rhan bwysig o'u bywyd beunyddiol.</p>		
<p>Erbyn 2013 byddwn wedi cynyddu lefelau mynychu ac ymgyfranogi celfyddydau Cymru gan 3%</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu ein strategaethau Creawdwyr Ifainc a Thlodi Plant 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawnwyd y targedau a gytunwyd ym mlwyddyn gyntaf ein Cynllun Gweithredu. Cyflawnasom ymarfer mapio ein sefydliadau refeniw a chynhyrchu adroddiad ar weithgarwch celfyddydol ac addysgiadol yn Rhagfyr 2012 ar gyfer adolygiad Tasglu Llywodraeth Cymru am y Celfyddydau ac Addysg. <p>Comisiynasom ymarfer ymgynghori gyda phobl ifainc am ddigwyddiad cenedlaethol i ddathlu creadigrwydd pobl ifainc.</p> <p>Bu cynnydd da o ran darparu Criw Celf a dechreuodd Celfyddydau Ieuencid Cymru ar eu hAdolygiad Sefydliadol.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Codi ymwybyddiaeth a gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddwyd hwn yn Ebrill 2012 a chynllun gweithredu mwy manwl ar ein gwefan ar ddiwedd Hydref 2012. <p>Roedd ystyriaethau i'r canllawiau cydraddoldebau'n rhan o drafodaethau'r Sgyrsiau Celfyddydol a ddigwyddodd yn Chwarter 4. Felly ni chyhoeddir y canllawiau terfynol erbyn hyn tan yn gynnar yn 2013/14.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu effaith gweithredu'r rhaglen Camau Creadigol newydd 	<ul style="list-style-type: none"> Ni chyflawnwyd yr adolygiad o Gamau Creadigol erbyn diwedd y flwyddyn ac ailamserwyd ef i ddigwydd yn gynnar ym mis Ebrill. Erbyn diwedd Chwarter 1 yn 2013/14 llunnir argymhellion am ddatblygiad y rhaglen yn y dyfodol.

Thema'r Cynllun Corfforaethol/ Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda'n sefydliadau refeniw i'w cefnogi yn eu hymdrechion i gynyddu ymgyfranogiad o'r celfyddydau 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwynwyd adroddiad am y sefydliadau refeniw i'r Cyngor yn Rhagfyr a'i gylchredeg ymhlith y sefydliadau refeniw yn Ionawr. Ond mae eisiau rhagor o waith yn erbyn y cam gweithredu hwn am nad oes yn awr fenter benodol ar waith i gefnogi'r sefydliadau refeniw i gynyddu ymgyfranogi.
	<ul style="list-style-type: none"> Peilota dulliau newydd o ymgysylltu â phobl ifainc, anodd eu cyrraedd drwy ddarparu rhaglenni Sblash a Chyrraedd y Nod 	<ul style="list-style-type: none"> Yn 2012/13 rhoddwyd cyfanswm o £77,571 i 18 prosiect Sblash. Rydym wrthi'n llunio adroddiad gwerthuso. <p>Cwblhawyd pob prosiect Cyrraedd y Nod ac rydym wrthi'n cwblhau ein hawliadau olaf. Cafodd 17 prosiect arian dilyniant i barhau â'r gweithgarwch.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Peilota menter newydd i archwilio ffyrdd arloesol o annog rhagor o deuluoedd isel eu hincwm i fynychu'r celfyddydau 	<ul style="list-style-type: none"> Ystyriwn gynnig am raglen wedi'i theilwra i Gymru sy'n gysylltiedig â menter deulugyfeillgar y TMA. <p>Arianasom ddau brosiect drwy'r fenter Ein Lle Ni ac mae'r ddau ar waith.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Darparu elfen Cymru yn Olympiad Diwylliannol 2012 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawnasom raglen Olympiad Diwylliannol Cymru dros yr haf. Derbyniwyd yr adroddiad gwerthuso terfynol a chyflwynwyd hawliadau olaf i LTUK. Mae'r prosiect erbyn hyn ar gau.
	<ul style="list-style-type: none"> Monitro lefelau mynychu ac ymgyfranogi o ran celfyddydau Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhawyd Arolwg Omnibws ac Omnibws y Plant yn 2012/13. <p>Cadarnhaodd yr ystadegau pennawd gynnydd da y sefydliadau refeniw a ymddangosodd yn yr arolwg: mynychu i fyny gan 2% ar y flwyddyn flaenorol ac ymgyfranogi i fyny o 27% yn y flwyddyn flaenorol i 40%. Dyma'r newid mwyaf flwyddyn ar flwyddyn yn hanes yr arolwg.</p>

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
	<ul style="list-style-type: none"> Hybu gweithgarwch teithio o safon mewn cymunedau ledled Cymru drwy ein gwasanaeth Noson Allan 	<ul style="list-style-type: none"> Yn 2012/13 trefnwyd cyfanswm o 572 digwyddiad drwy Noson Allan. Roedd 142 ohonynt mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Roedd nifer y digwyddiadau mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn llai y llynedd oherwydd ad-drefnu rhwydwaith y cymunedau hynny ac ansicrwydd am eu ffiniau. <p>Roedd 28 o brosiectau hyrwyddwyr ifanc.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi rhaglen datblygu artistiaid duon ac ethnig drwy gytundeb gwasanaeth â Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon 	<ul style="list-style-type: none"> Darparwyd y gwasanaethau a gytunwyd. Oherwydd newidiadau a effeithiai ar y Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon penderfynwyd tendro am y gwaith yn 2013/14.
	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi datblygiad y Celfyddydau Gwirfoddol sef rhaglen <i>Rhedeg eich Grŵp yng Nghymru</i> 	<ul style="list-style-type: none"> Lansiwyd y wefan yng Nghymru ac ymgofrestrodd 3,000 o bobl. Cynhaliwyd cyfarfodydd monitro a glynai'r gwaith at yr amserlen. <p>Cytunasom i ariannu blwyddyn bellach i adeiladu Rhedeg eich Grŵp yng Nghymru.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu amrywiaeth aelodau o'r Cyngor a'n staff 	<ul style="list-style-type: none"> Cafwyd gwelliant yn amrywiaeth yr aelodau o'r Cyngor yn sgil recriwtio aelodau newydd yn gynharach yn y flwyddyn. <p>Ond awgryma canfyddiadau ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol a gyflwynwyd i'r Cyngor yn chwarter 3 fod angen rhagor o waith i gynyddu amrywiaeth y staff.</p>

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
<p>Cynyddu economi'r celfyddydau Cynyddwn lefel yr arian a'r adnoddau sydd ar gael i gelfyddydau Cymru. Hoffem feithrin ysbryd mwy entrepreneuriaidd ynom ein hunain a'r celfyddydau a ariannwn. Drwy hynny, hoffem annog llai o ddibyniaeth ar gymorthdaliadau'r llywodraeth.</p>		
<p>Erbyn 2013 byddwn wedi cynyddu ein trosiant gydag o leiaf 10% o'n hincwm yn dod o ffynonellau newydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu Strategaeth Gyfalaf a rhaglen ariannu'r Loteri newydd 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddassom Strategaeth a Chanllawiau Cyfalaf ar ein gwefan. Cyfanswm y symiau a geisiwyd amdanynt yw dros £28 miliwn a rhoddwyd y grant mawr cyntaf dan y cynllun hwn. <p>Erbyn hyn gweithiwn drwy'r cofrestriadau prosiect i gytuno ar y rhai a â ymlaen i'r camau dichonoldeb a chynllunio datblygu.</p>
<p>Hefyd byddwn wedi cynyddu gwerth ac effaith ein buddsoddiadau presennol yn y celfyddydau.</p>		
	<ul style="list-style-type: none"> • Llundio strategaethau ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> ◦ y Diwydiannau Creadigol ◦ y Celfyddydau Digidol ◦ hyfforddi a datblygu'r gweithlu ◦ y Celfyddydau ac Adfywio ◦ arian Ewrop 	<ul style="list-style-type: none"> • Rhan hanfodol o adolygiad strategol y celfyddydau yw'r meysydd hyn ac felly roeddynt yn rhan o'n Sgyrsiau Celfyddydol a byddant yn nogfen Creadigrwydd a'r Celfyddydau pan gaiff ei hysgrifennu. <p>Buom yn cynnal deialog drwy'r flwyddyn a threfnu cydweithio â sefydliadau i borthi ein dealltwriaeth o'r meysydd hyn ac rydym erbyn hyn mewn gwell sefyllfa i ddatblygu strategaethau a phartneriaethau i gyflawni ein hamcanion.</p> <p>E.e. buom yn cydweithio â sefydliadau sydd â hanes sylweddol o lwyddo megis Native HQ a Watershed, canolfan gyfryngol ddigidol ym Mryste, i archwilio cyfleoedd posibl i gydweithio â hwy i gyflwyno prosiect perthnasol i Gymru.</p>

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
		<p>Buom yn cwmpasu'r galw am ddatblygu'r gweithlu gyda chyrff perthnasol eraill megis Sgiliau Creadigol a Chyfle. Datblygasom ddwy interniaeth Gymraeg bellach gyda Chanolfan Mileniwm Cymru. Cydweithiwn hefyd â Sefydliad Clore, MMM a Chelfyddydau a Busnes Cymru am wella datblygu sgiliau ac arweinyddiaeth.</p> <p>Cyfranasom hefyd at adolygiad adfywio Llywodraeth Cymru a sefydlu cysylltiadau â datblygiadau adfywio mawrion yn Abertawe, Caernarfon, y Rhyl a Bae Colwyn.</p> <p>Datblygasom gronfa ymchwil a datblygu digidol mewn partneriaeth â Nesta i ddechrau yn 2013.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Ail-lansio'r Cynllun Casglu i gynyddu nifer a gwerth benthyciadau i brynu celfweithiau 	<ul style="list-style-type: none"> Yn sgil ymarfer tendr diweddar penodasom ymgynghorydd allanol i ymgymryd ag adolygiad o'n Cynllun Casglu cyfredol. Tua diwedd y flwyddyn cawsom ddrafft cyntaf adroddiad yr ymgynghorydd a gweithiwn yn awr ar ddatblygu cynllun gweithredu. <p>Yn 2012/13 prosesasom gyfanswm o 877 cais Cynllun Casglu gwerth £593,417. Dengys y ffigyrau hyn leihad bychan o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan brosesasom 979 o geisiadau gwerth £715,758.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu lefel a chwmpas cyflogaeth ym maes celfyddydau Cymru gan ddefnyddio ymchwil/data presennol 	<ul style="list-style-type: none"> Parhaem i wneud cynnydd gyda hyn drwy'r flwyddyn a chyfrannodd canfyddiadau'r arolwg o'r sefydliadau refeniw hefyd at y gwaith. <p>Datblygwyd offeryn gan Skillset a Sgiliau CC i gasglu data am gyflogaeth.</p>

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
		<p>Rhoes Diwydiannau Creadigol yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y contract am brosiect mapio'r diwydiannau creadigol a chomisiynasant ymchwil.</p> <p>Comisiynasom hefyd brosiect ymchwil a datblygu digidol i 2013/14.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Manteisio ar y cyfle a ddarperir gan WOMEX 2013 i ddatblygu marchnadoedd newydd i ddiwydiant cerdd Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Bu gwaith yn parhau drwy'r flwyddyn, gan gynnwys creu cytundeb cydweithio Cerdd Cymru:Music Wales:Music Wales â phartneriaid y prosiect. Llwyddodd Cerdd Cymru:Music Wales i gael rhagor o arian gan Lywodraeth Cymru. Yn y cyfamser parhasom ei chyfleuster llif arian a chytunasom i gynnal y prosiect yn bellach â £50,000 rhagor yn 2013/14. Llwyddodd y fim i gael y cyngerdd agoriadol a guradurir gan Cerys Matthews.
	<ul style="list-style-type: none"> Darparu ein Symposiwm Marchnata Blynyddol yn llwyddiannus 	<ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd ef ar 18 Ebrill yn Theatr y Grand, Abertawe. Agorwyd cofrestru ar-lein ym Mawrth.
	<ul style="list-style-type: none"> Darparu rhaglen datblygu sefydliadol i sefydliadau refeniw 	<ul style="list-style-type: none"> Digwyddodd y gyfran gyntaf o'r hyfforddiant yn chwarter 3 gan ganolbwyntio ar gynllunio busnes, a'r ail yn chwarter 4 am agwedd ar lywodraethu. Awgrymai'r arwyddion cynnar foddhad mawr am y sesiynau (rhai ohonynt yn Gymraeg) a'r teimlad eu bod yn ddefnyddiol.
	<ul style="list-style-type: none"> Hwyluso cyfarfodydd Fforwm Celfyddydau Ewropeaidd Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Yn ogystal â diweddariadau rheolaidd drwy e-bost, cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Fforwm dros y flwyddyn gan gynnwys hyfforddiant i sefydliadau sydd am ymgeisio am arian o Raglen Ddiwylliannol Ewrop a rhwydweithio â gweithredwyr diwylliannol ledled Ewrop. <p>Llwyddodd dau o'n cleientiaid a gyflwynodd gynigion yn bartneriaid arwain i gael arian Ewropeaidd (Chapter/Coreo Cymru a Ffotogallery).</p>

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu partneriaeth newydd â Llywodraeth Leol sy'n adlewyrchu canlyniadau adolygiad Simpson Llywodraeth Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Cymeradwywyd ariannu hyfforddiant Ffynnon i bob un o'r 4 rhanbarth i gynorthwyo datblygu cardiau sgorio Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau yn yr Awdurdodau Lleol. <p>Pery cyfarwyddwyr i gael swyddogaeth arwain drosfwaol o ran pob un o'r 4 rhanbarth newydd.</p> <p>Digwyddodd cyfarfodydd unigol yn y flwyddyn, rhaid trefnu cyfarfodydd pellach cyn diwedd y flwyddyn. Cafwyd ychydig o oedi oherwydd ymrwymadau eraill.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu Partneriaethau Gwerth cyhoeddus â BBC Cymru ac S4C 	<ul style="list-style-type: none"> Parhau yr oedd y gwaith ar hyn drwy 2012/13. Mae copïau drafft o ddogfennau'r bartneriaeth gyda phenaethiaid y BBC ac S4C. Yn y cyfamser pery trafodaethau gyda'r ddau i derfynoli cyfres o brosiectau a fydd yn allweddol i'w llwyddiannau.
	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Thîm y Sector Diwydiannau Creadigol yn Llywodraeth Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Golygai gwahaniaethau barn o ran y pwyslais rhyngom a Llywodraeth Cymru na chyflawnwyd y targed.
	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i ddatblygu cydbrosiectau 	<ul style="list-style-type: none"> Buom yn gweithio ar nifer o gydbrosiectau gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn 2012/13 gan gynnwys rheoli ceisiadau am brosiectau Dylan Thomas 100. Cydweithiasom yn agos hefyd ag ymgynghorwyr i gefnogi Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen a chefnogi Gwaith Tasglu Llywodraeth Cymru am y Celfyddydau ac Addysg dan gadeiryddiaeth yr Athro Dai Smith.

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
<p>Gwneud y Cyngor yn sefydliad cyhoeddus effeithiol ac effeithlon</p> <p>Craffwn ar ein defnydd o adnoddau i sicrhau y darparwn wasanaeth cyhoeddus effeithiol sy'n cynnig gwerth am arian.</p> <p>Rydym am greu sefydliad a berchir am ansawdd ei weithgareddau ac a gynnabyddir yn awdurdod arbenigol celfyddydol.</p> <p>Drwy wneud hynny gallwn arddangos y darparwn wasanaeth cyhoeddus hanfodol i bobl Cymru.</p>		
<p>Erbyn 2013 gallem ddangos ein bod yn sefydliad mwy effeithlon ac effeithiol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad ein polisïau adnoddau dynol 	<ul style="list-style-type: none"> • Oherwydd pwysau gweithgareddau eraill, adolygasom 16 o'n 25 polisi adnoddau dynol. Cyflwynwyd pob polisi a adolygwyd hefyd i'r undeb i'w ystyried. <p>Adolygir gweddill y polisïau yn ystod 2013/14.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu ein strategaeth TGCh 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwnaethom gynnydd sylweddol o ran gweithredu hon dros y flwyddyn. <p>Mae Cyfeiriadur y Celfyddydau'n barod ac rydym wrthi'n ei lenwi. Rhoddwyd meddalwedd cynadledda (Eventbrite) ar waith. Darparwyd ceisiadau ar-lein. Cyflawnwyd Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus.</p> <p>Sefydlwyd y gweithlu symudol newydd a ddaeth yn sgil yr Adolygiad Sefydliadol a chyflawnwyd cam cyntaf y fewnwyd newydd i'r staff yn Chwefror 2013.</p> <p>Gohiriwyd y gwaith ar wefan y Cynllun Casglu am y tro gan aros am ganlyniad yr adolygiad ond â datblygiad gwefan Noson Allan a'r Gronfa Data Sengl yn eu blaenau.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu ein Strategaeth Lety 	<ul style="list-style-type: none"> • Symudwyd swyddfa Bae Colwyn yn llwyddiannus yn chwarter 3. Yn y chwarter hwn ail-leolwyd staff i'r ail lawr a'r trydydd yn swyddfa Caerdydd, gan adael y llawr cyntaf yn wag i'w isosod. Mae'r gwaith wedi'i orffen i raddau helaeth ond mae eisiau rhagor o waith i orffen trefnu'r trydydd llawr

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
		<p>a chael tenantiaid i'r cyntaf.</p> <p>Dygwyd ymlaen ystyried swyddfa Caerfyrddin hefyd o 2013/14 i chwarter 4 y flwyddyn a nodwyd lleoliad arall posibl. Parhau y mae'r gwaith.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu ein proses ymgeisio ar-lein 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawnwyd hyn a'i gymhwyso i bob cais am arian prosiect y Loteri o 1 Ebrill 2012 ymlaen.
	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu ein gwasanaeth gwybodaeth newydd 	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlwyd hwn yn sgil ein Hadolygiad Sefydliadol ym Mai 2012. Erbyn hyn bwriedir cynnal gwaith i sicrhau cyflawni effeithlonrwydd gweithredu.
	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu mesurau lleihau costau i gyflawni targedau ein Hadolygiad Sefydliadol 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawnwyd y targed lleihau ar gyfer 2012/13.
	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddi Adroddiad Blyneddol ar berfformiad ariannol a sefydliadol y sefydliadau refeniw 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawnwyd y cam gweithredu hwn. Cynhaliwyd arolwg o'n sefydliadau refeniw yn 2012/13 a chyhoeddwyd copi o'r adroddiad terfynol ar ein gwefan yn Ionawr 2013.
	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawni targedau cyhoeddedig i brosesu ceisiadau grant 	<ul style="list-style-type: none"> Yn 2012/13 cawsom 833 cais am arian - 710 i'n cynlluniau ariannu, 16 cais Cyfalaf a 107 cais i'n Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol – a phroseswyd pob un yn yr amserlen a gytunwyd.
	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawni targedau cyhoeddedig i brosesu taliadau 	<ul style="list-style-type: none"> Dengys ffigyrau diwedd 2012/13 y talwyd 93.87% o anfonebau cyflenwyr yn y telerau a gytunwyd a 72.16% ohonynt mewn 10 diwrnod gwaith.

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflawni lefel uchel o foddhad cyhoeddus â'n Gwasanaeth Gwybodaeth 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweler y sylwadau blaenorol (uchod) am adolygiad ehangach o'n heffeithlonrwydd gweithredu. Erbyn hyn yn 2013/14 y cynhelir arolwg o foddhad y cyhoedd.
	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella ansawdd ein hymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynhaliwyd y cymorthfeydd rhanbarthol cyntaf yn chwarter 3. Cynhaliwyd pump i drafod arian y Loteri mewn gwahanol leoedd ledled Cymru a mynychodd 47 ymgeisydd posibl a phedair arall i geisiadau Cymru Greadigol ledled Cymru a daeth 41 ymgeisydd posibl. <p>Hefyd cynhaliwyd pedair Sgwrs Gelfyddydol yn Llandudno, Aberystwyth, Abertyleri a Chaerdydd a chynhyrchwyd dros 70 o drafodaethau drwy gyfrwng Lle Agored.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu gwybodaeth gliriach am ein trefniadau llywodraethu 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflawnwyd y cam gweithredu hwn. Cynhwyswyd ein datganiad am lywodraethu yn ein hAdroddiad Blynyddol a'n cyfrifon ar gyfer 2011/12; a chymeradwywyd y datganiad gan ein harchwiliad allanol.
	<ul style="list-style-type: none"> • Ymdrin yn effeithiol â chwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth 	<ul style="list-style-type: none"> • Cawsom gyfanswm o 22 cais Rhyddid Gwybodaeth ac un gŵyn ffurfiol yn 2012/13. Ymatebwyd i bob cwyn a chais Rhyddid Gwybodaeth yn llawn yn yr amserlenni a bennwyd.

Monitir yn fanwl berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad ac adrodd yn ôl yn chwarterol i'r Uwch Tîm Rheoli, y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

Polisiau rhoi grantiau

Gwahodda'r Cyngor geisiadau am grantiau rheolaidd ac untro gan sefydliadau ac unigolion a monitra'r defnydd priodol ac effeithiol o'r grantiau hynny. Yn ogystal â bodloni amcanion strategol y Cyngor, rhaid i geisiadau ddangos budd i bobl Cymru ledled y sectorau rhanbarthol, diwylliannol ac economaidd. Ariennir grantiau rheolaidd drwy grant mewn cymorth yn unig ond gellir ariannu grantiau untro drwy grant mewn cymorth neu incwm y Loteri.

Rhoddir grantiau rheolaidd (neu refeniw blynyddol) i bortffolio o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau artistig o safon. Dibynna ystyried unrhyw sefydliad ar gyfer y fath statws ar argaeledd arian, cynaliadwyedd y sefydliad, a'i gydweddu'n gryf â blaenoriaethau strategol y Cyngor. Ar hyn o bryd, mae pob sefydliad refeniw yn cydsynio â chytundeb arian refeniw am gyfnod rhwng un a thair blynedd sy'n nodi'r lefel o ariannu a ragwelir, y rhaglen o weithgareddau i'w chyflwyno, gofynion monitro ac adolygiad blynyddol, amodau safonol grant, ac unrhyw amodau ychwanegol. Hwysydd wrth wraidd strategaeth y Cyngor yn y dyfodol i ddatblygu celfyddydau Cymru.

Mae grantiau untro ar gael i ariannu prosiectau artistig o safon sy'n gyfyngedig o ran amser ac sy'n cyflawni blaenoriaethau ariannu'r Cyngor orau.

Tynnir ein sylw at unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherygl penodol gan ein monitro parhaus. Arweinia'r peryglon a nodir at gynnydd yn lefel y monitro, ac os bydd angen, gall olygu cadw taliad yn ôl a/neu ei ohirio.

Cyhoeddwn ganllawiau cyffredinol ar ariannu i sefydliadau ac unigolion a gynnwys fanylion llawn am flaenoriaethau ariannu a meini prawf cymhwysedd. Mae'r rhain ar gael gan unrhyw un o'n swyddfeydd ac o'n gwefan: www.cyngorcelfyddydau.cymru.org.uk.

Adolygiad ariannol

Mae gan y Cyngor ddwy brif ffynhonnell ariannu: grant mewn cymorth oddi wrth Lywodraeth Cymru; a chyfran o'r arian a godir gan y Loteri Genedlaethol, oherwydd ni yw un o'r cyrff a ddsbartha arian i achosion da. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyfrifyddu ar wahân am ei weithgareddau dosbarthu'r Loteri.

Arian wrth gefn

Polisi'r Cyngor ar arian cyfyngedig yw cofnodi ar wahân unrhyw grantiau, rhoddion a ffynonellau eraill o incwm a dderbynnir ar gyfer diben neu brosiect penodol, neu lle y gosodir cyfyngiadau sy'n llymach nag amcanion cyffredinol y Cyngor. Defnyddiwyd yr holl adnoddau a ddeuai i mewn hyn yn y flwyddyn at y diben a nodwyd.

Neilltuir y rhan fwyaf o arian anghyfyngedig y Cyngor yn ystod y flwyddyn, yn unol ag amodau'r grant mewn cymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru. Caiff unrhyw arian dros ben ei gario ymlaen a'i ddefnyddio i hyrwyddo amcanion siarter y Cyngor yn y flwyddyn ddilynol. Nid oedd unrhyw arian dynodedig ar 31 Mawrth 2013 (2012: £Dim).

Cyfyngir ar ein gallu i ddal arian wrth gefn gan gyfarwyddiadau hyblygrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer diwedd y mis a'r flwyddyn. Yn y paramedrau hyn, ein polisi yw rheoli llif arian drwy dynnu i lawr arian bob mis i gwrdd â gwariant wedi'i gynllunio gyda lwfans bach ar gyfer gofynion arian tymor byr nas rhagwelwyd. Adolygwn y polisi a'n sefyllfa o ran arian wrth gefn bob blwyddyn.

Buddsoddi

Rheolir pwerau i fuddsoddi gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000 a'r Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Polisi'r Cyngor yw cael yr elw mwyaf posibl yn y telerau hyn. Cawn log ar gyfradd a negodwyd ar sail gyfradd sylfaenol y banc ar bob balans credyd yng nghyfrifon cyfredol y Cyngor. O bryd i'w gilydd, gallai cyfraddau uwch fod ar gael ar gyfer arian cyfyngedig ar adnau hir dymor. Rhoddwn bob llog a enillir ar arian a balansau banc sy'n codi o ganlyniad o'r arian a gawn gan Lywodraeth Cymru i Drysorlys Ei Mawrhydi drwy Gronfa Gyfunol Cymru.

Canlyniadau ariannol

Dengys y cyfrifon, heblaw am weithgareddau dosbarthu'r Loteri, gyfanswm yr adnoddau sy'n dod i mewn am y flwyddyn o £37,114,000 (2011/12: £36,561,000), adnoddau net sy'n dod i mewn o £332,000 (2011/12: £395,000) asedau net cyfredol o £2,925,000 (2012: £2,616,000) a chyfanswm balansau arian ar 31 Mawrth 2013 o £3,235,000 (2012: £2,903,000).

Ar 31 Mawrth 2013 cynigiodd y Cyngor yn ffurfiol grantiau ymlaen ar gyfer 2013/14 o £28,129,000 (2012/13: £28,302,000).

Dengys cyfrif dosbarthu'r Loteri mai £19,355,000 oedd cyfran 2012/13 y Cyngor o enillion y Loteri Genedlaethol (2011/12: £15,083,000). Ar gyfer 2012/13 £56,599,000 oedd cyfanswm cyfunol yr adnoddau a ddeuai i mewn o ran gweithgareddau cyffredinol a'r Loteri (2011/12: £51,793,000).

Codir grantiau cyffredinol ar y Datganiad Gweithgareddau Ariannol cyn gynted ag y cânt eu cynnig, heblaw am ymrwymadau ymlaen y disgrifir yn nodyn 1f yn y polisi cyfrifyddu. Codir grantiau'r Loteri dim ond pan fydd y cynnig

ffurfiol wedi'i dderbyn gan y sawl a gaiff y grant. Er nad yw pob un yn cael ei godi'n wariant yn Natganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, yn 2012/13 cymeradwyodd y Cyngor grantiau'r Loteri o £11,958,000 (2011/12: £9,334,000). Ar y sail hon, ar gyfer 2012/13, cyfanswm cyfunol y gwariant elusennol uniongyrchol ar y celfyddydau i weithgareddau cyffredinol a'r Loteri oedd £50,055,000 (2011/12: £46,816,000).

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae ein blaenoriaethau'n seiliedig ar dargedau ansoddol a meintiol.

O ran adrodd cyson ar sail tystiolaeth mae sawl her ddiddorol inni felly. Ni all yr un offer sy'n cyfrif (e.e. nifer y bobl sy'n mynychu'r digwyddiadau) asesu ansawdd y digwyddiadau hynny. Er enghraifft, sut y gallwn brofi ein bod "yn cefnogi creu'r gorau o ran celf wych"?

Hoffem fonitro'n ansoddol a meintiol ein cynnydd ar draws rhychwant ein gweithgareddau.

Felly dechreuwa pob un o'n pedair blaenoriaeth â datganiad o uchelgais, disgrifiad o sut olwg a fyddai ar lwyddiant. Wedyn amlinellwn ein targedau manwl yn ôl un o'r chwe categori a ganlyn:

- **Polisi** – ymrwymiad i gyflwyno, adolygu neu ddiweddarau ein polisi neu'n strategaeth
- **Prosiectau** – mentrau neu weithgareddau ar wahân yw'r rhain sy'n benodol ac yn gyfyngedig o ran amser. Fel arfer ymwna'r targed â chyflawni'r prosiect a monitrir cynnydd yn erbyn cyfres o ddigwyddiadau cerrig milltir
- **Gwasanaethau** – mae llawer o'n gwaith yn anghyfyngedig o ran amser. Yn aml dibynna

ar y galw a bydd yn ailgodi dro ar ôl tro. E.e. ymholiadau i'n gwasanaethau gwybodaeth, neu sut y proseswn drafodion ariannol. Bob blwyddyn pennwn gyfres o safonau gwasanaeth. Cyhoeddwn y safon a'n llwyddiant i'w chyflawni

- **Partneriaethau** – daw elfen bwysig o'n gwaith o'r perthnasau a gychwynnwn ac a feithrinwn â sefydliadau eraill. Diffinnir y berthynas hon fel arfer mewn Cytundeb Partneriaeth neu Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth Penodol. E.e. y partneriaethau a ddatblygwn â sefydliadau amrywiol megis y British Council, Cadw a'r BBC. Adroddwn ddiwedd y flwyddyn ar gryfder ein partneriaethau a'u llwyddiannau
- **Llywodraethu** – penna ein Cyngor safonau perfformiad manwl iddo ei hun, ei bwyllgorau, ei staff gweithredol a'i ymgynghorwyr. E.e. cofnodion mynychu aelodau'r Cyngor, neu i ba raddau y

defnyddiwn ein Hymgyngorwyr Cenedlaethol. Penna'r Cyngor safonau blynyddol ac edrydd yn eu herbyn

- **Cydymffurfio** – ymwna rhai agweddau ar ein perfformiad â'n llwyddiant i gyrraedd gofynion cyfreithiol gorfodol neu safonau amodol o ran ymarfer da. E.e. yn erbyn yr ymrwymadau yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, nifer y cwynion neu'r ceisiadau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a ddaw i law, neu ein cynnydd o ran ein gwneud yn fusnes mwy cynaliadwy yn amgylcheddol. Cyhoeddwn Ddatganiad Perfformiad blynyddol sy'n manylu ar ein cynnydd o ran bodloni ein hymrwymadau.

Mae ein blaenoriaethu ar gyfer 2013/14 yn y tabl canlynol:

Cefnogi'r gorau o ran creu celfyddyd wych

Sut olwg a fydd ar lwyddiant?

Rydym yn llawn angerdd dros y celfyddydau ac yn uchelgeisiol dros eu llwyddiant. Ar ei orau – a'r gorau sy'n mynd â'n bryd - mae gan y celfyddydau'r grym i gyffroi, ysbrydoli, cyffwrdd a herio. Rydym am lunio amgylchedd i'n hartistiaid a'n sefydliadau i greu eu gwaith gorau. Rydym am i bobl Cymru fwynhau a chymryd rhan yn y gorau sydd gennym. Daw'r gorau pan drewir y tant cywir a chysyllta'r celfyddydau â phobl. Dyna'n diffiniad o gelfyddyd wych. Gwneud a rhannu celfyddyd a bod yn rhan ohoni wrth berfformio, ar y tudalen, mewn ystafell, yn ein bywyd yw'r adeg pan lwydda'r celfyddydau i'n hysbrydoli'n unigol ac yn dorfol.

Wrth gwrs, ni allwn warantu y cynhyrcha pob artist a sefydliad a ariannwn gelfyddyd wych bob tro. Ond gallwn greu amgylchedd lle mae gwaith uchelgeisiol, cyffrous ac ysbrydoledig yn debycach o godi.

Gwyddom y gwnawn gynnydd os:

- cynyddu mynychu ac ymgyfranogi flwyddyn ar flwyddyn oherwydd ansawdd y gwaith a gynhyrchir gan y sefydliadau a ariannwn

- tyf y galw am eu gwaith yn genedlaethol a rhyngwladol
- gwthia'r gwaith ein sefydliadau refeniw ffiniau'n gyson o ran arloesedd wedi'i feincnodi yn erbyn y safonau uchaf ym marn ein swyddogion a'n hymgynghorwyr proffesiynol
- yw cynigion Cymru Greadigol o safon a bod y gystadleuaeth yn heriol
- ceir sylw cyfryngol rheolaidd a chadarnhaol i gelfyddydau Cymru a rhagor o drafodaeth feirniadol am eu safon
- gorfoda'r gystadleuaeth am grantiau Loteri benderfyniadau ariannu i ganolbwyntio ar y ceisiadau cryfaf a mwyaf darbwyllog
- cynnig ein partneriaeth â chyrrff eraill gyfleoedd newydd am weithgareddau diddorol a ddatblyga gyfleoedd a chyd-destunau newydd i'r celfyddydau

Blaenoriaethau ar gyfer 2013/14

1. Cynhyrchu strategaeth gorfforaethol newydd i ddatblygu'r celfyddydau (Creadigrwydd a'r Celfyddydau) a gydnebydd ein blaenoriaethau i hybu:
 - a. ymgyfranogi, ymgysylltu a chynhwysiant
 - b. addysg y celfyddydau, plant a phobl ifainc
 - c. y diwydiannau creadigol ac adfywio diwylliannol
 - d. cefnogaeth i'r artist unigol
 - e. gwaith a chyfleoedd rhyngwladol
 - f. lles a chynaliadwyedd
2. Cyflawni prosiect Cymru yn Fenis gyda'r artist Bedwyr Williams
3. Cyfrannu at gynllunio, datblygu a darparu'n llwyddiannus Wyl Dylan Thomas 100 yn 2014
4. Cefnogi datblygu ein Hymgynghorwyr Cenedlaethol a'u hymgysylltiad â'n gwaith
5. Sicrhau monitro'n genedlaethol ansawdd ein sefydliadau refeniw
6. Cyflawni blwyddyn lawn o raglen grantiau i unigolion a sefydliadau
7. Darparu rhaglen o brosiectau a gwasanaethau sy'n helpu artistiaid a sefydliadau i fanteisio ar bosibiliadau rhyngwladol eu gwaith
8. Defnyddio ein cysylltiadau yn y cyfryngau i hyrwyddo celfyddydau Cymru
9. Cynnal presenoldeb effeithiol mewn digwyddiadau allanol gan hyrwyddo a chefnogi celfyddydau Cymru

Annog rhagor o bobl i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt

Sut olwg a fydd ar lwyddiant?

Ar hyn o bryd mae lefelau uchel o fynychu celfyddydau Cymru ac ymgyfranogi ohonynt. Ond wrth i incwm pobl leihau, daw ffigurau mynychu ac ymgyfranogi dan fwy o bwysau. Ond nid yw'n fater yn unig o amddiffyn a chadw'r hyn sy'n bodoli eisoes. Hoffem i'r celfyddydau a ariannwn gyrraedd croestoriad ehangach o bobl Cymru – pobl a gafodd anhawster i fynychu'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Gwyddom y gwnawn gynnydd os:

- dengys tystiolaeth y daw cynulleidfaoedd ac ymgyfranogwyr o groestoriad mwy amrywiol o'r boblogaeth a'i bod yn haws ymwneud â'r celfyddydau gan y rhai a wynebasai rwystrau yn y gorffennol
- gwelwn gynnydd yn nifer y prosiectau ymgyfranogol a ddarperir mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf a chynnydd yn nifer y bobl ifainc o'r fath ardaloedd sy'n mynychu'r celfyddydau
- profa ein cynllun Noson Allan a drefna berfformiadau o safon i gymunedau gynnydd yn nifer y gynulleidfa, yn benodol ymhlith pobl o ardaloedd o amddifadedd mawr, yn drefol a gwledig
- gwelwn gynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifainc sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â gweithgarwch creadigol, artistig
- gwelwn gynnydd yn nifer y prosiectau (i gynulleidfaoedd ac ymgyfranogwyr) sy'n:
 - digwydd mewn ardaloedd o amddifadedd mawr a mynd i'r afael â'r materion sy'n cyfrannu at dlodi plant
 - dymchwel rhwystrau ymgyfranogi
 - cynyddu nifer y plant a'r bobl ifainc sy'n weithredol ymwneud â'r celfyddydau o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf
 - arddangos effaith gadarnhaol ar fywyd pobl ifainc
- gwelwn gynnydd yn nifer yr artistiaid o gefndiroedd amrywiol a ariennir i greu, cyflwyno a hybu gwaith

Blaenoriaethau ar gyfer 2013/14

10. Cydweithio â Llywodraeth Cymru i weithredu canfyddiadau adolygiad y celfyddydau ac addysg

11. Mynd i'r afael ag argymhellion ymgyfranogi o'r celfyddydau gan Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldebau a Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol
12. Gweithredu ein strategaethau i Greawdwyr Ifainc a thlodi plant
13. Gweithredu ein cynllun cydraddoldeb strategol
14. Hybu ein cynllun Cymraeg drwy weithredu'r 15 targed allweddol yn ein cynllun gweithredu Cymraeg ar gyfer 2013/14
15. Gweithio gyda'n portffolio o sefydliadau cyflwyno (lleoliadau ac orielau) i gynyddu ac amrywio eu cynulleidfaoedd
16. Cefnogi dulliau o ymgysylltu â phobl ifainc, anodd eu cyrraedd drwy gyflwyno rhaglenni Sblash a Chyrraedd y Nod
17. Ehangu'r rhaglen gweithgarwch, <i>Datblygu Talent</i>
18. Hyrwyddo gweithgarwch teithio o safon mewn cymunedau ledled Cymru, yn enwedig drwy Noson Allan
19. Cydweithio ag asiantaethau arbenigol (Celfyddydau Gwirfoddol Cymru, Celfyddydau Anabled Cymru, Diverse Cymru, Stonewall Cymru) i ddarparu cefnogaeth i gyflawni ein hamcanion strategol

Cynyddu economi'r celfyddydau

Sut olwg a fydd ar lwyddiant?

Rydym am weld sector celfyddydol ariannol hyfyw nad yw'n llwyr ddibynnol ar gymorthdaliadau cyhoeddus. Gyda lleihau cymhorthdal cyhoeddus, rhwystra dibyniaeth o'r fath arloesedd, datblygu a chynaliadwyedd.

Defnyddiwn ein holl bwerau eiriol i annog yr ystod fwyaf bosibl o asiantaethau sector cyhoeddus a phreifat i fuddsoddi yn y celfyddydau. Ond dibynna llwyddiant ar y ffordd y gall artistiaid a sefydliadau ddatblygu eu cynhwysedd busnes eu hunain a manteisio'n llawn ar eu gwerth artistig.

Rhaid inni hefyd annog cynaliadwyedd yn ogystal â thwff. Rhed ffyrdd o weithio sy'n gwastraffu adnoddau yn lle eu gwella a'u hamddiffyn yn groes i raen ein cyfnod. Rhaid inni fynd i'r afael â galw'r presennol heb niweidio lles economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y dyfodol.

Gwyddom y gwnawn gynnydd os:

- dengys artistiaid a sefydliadau agwedd entrepreneuriaidd at ddatblygu marchnadoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol newydd i'w gwaith
- buddsodda artistiaid a sefydliadau yn eu datblygiad proffesiynol a sefydliadol
- gall ein sefydliadau refeniw leihau lefel y cymhorthdal yn gyfran o'u hincwm cyffredinol
- gwelwn ragor o sefydliadau'n cydweithio i ddatblygu prosiectau creadigol neu rannu costau a gwasanaethau
- deellir a defnyddir y cyfleoedd a gynigir gan dechnolegau digidol newydd yn helaeth ar draws celfyddydau Cymru
- gweithreda celfyddydau Cymru ar sail fwy cynaliadwy gan gynnig atebion ymarferol i broblemau amgylcheddol
- gwerthfawroga llywodraeth leol ledled Cymru werth y celfyddydau a chynnal lefelau ariannu a darparu gwasanaethau
- datblyga prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus Cymru – BBC Cymru, S4C ac ITV Cymru – bartneriaethau newydd â'r celfyddydau
- bydd rhagor o dystiolaeth o'r defnydd o'r celfyddydau mewn partneriaethau cyhoeddus a datblygiadau mawrion, megis ardaloedd adfywio strategol

Blaenoriaethau ar gyfer 2013/14

20. Cytuno ar strategaeth tair blynedd newydd am ein buddsoddi yn y celfyddydau

21. Annog ein sefydliadau refeniw i fod yn fwy gwydn a chynaliadwy (yn ddiwylliannol, sefydliadol ac ariannol) a darparu gwybodaeth ar eu perfformiad

22. Datblygu *Syniadau, Pobl a Lleoedd*, cronfa her i fuddsoddi mewn prosiectau adfywio a arweinir gan y celfyddydau i'w hybu'n gyhoeddus

23. Cyflawni blaenoriaethau Cyfalaf y Loteri

24. Cychwyn rhaglen o weithgarwch a anoga ddatblygu cynhwysedd digidol yn y celfyddydau

25. Ail-lansio'r Cynllun Casglu

26. Darparu WOMEX 2013 yn ddigwyddiad ar lwyfan y byd i gyflawni ei phosibiliadau yn gatalydd i sector cerddorol Cymru
27. Darparu'n llwyddiannus ein digwyddiadau corfforaethol (y Gynhadledd Flynyddol, y Symposiwm Marchnata a'r Sgyrsiau Celfyddydol)
28. Datblygu'r sgiliau arwain entrepreneuriaid i helpu artistiaid a sefydliadau i ddatblygu ymarfer busnes blaengar, cynaliadwy a gwydn
29. Ymgorffori ein partneriaeth newydd â thri maes (cenedlaethol, rhanbarthol ac unigol) gyda llywodraeth leol ledled Cymru
30. Datblygu partneriaeth gwerth cyhoeddus â BBC Cymru ac S4C
31. Meithrin partneriaethau sy'n cefnogi cyflawni ein blaenoriaethau celfyddydol, datblygu cyfleoedd newydd i artistiaid gomisiynu, datblygu a chyflwyno gwaith
32. Cynyddu buddion i'r celfyddydau o Raglen Ewropeaidd 2014-20 gan gynnwys arian strwythurol

Gwneud y Cyngor yn sefydliad cyhoeddus effeithiol ac effeithlon

Sut olwg a fydd ar lwyddiant?

Yn 2012/13 gweithredasom ganlyniadau ein Hadolygiad Sefydliadol. Sefydlwyd strwythur staffio newydd. Ein her yn awr yw creu sefydliad cryf a hyderus i ddarparu gwasanaethau perthnasol a defnyddiol.

Darparwn wasanaethau proffesiynol ar draws ystod o ddisgyblaethau. A gwnawn hyn mewn ffyrdd sy'n lleihau cost a chydabod ein cyfrifoldeb i ddod yn sefydliad mwy cynaliadwy o ran yr amgylchedd.

Gwyddom y gwnawn gynnydd os:

- mynega'r unigolion, y sefydliadau a'r rhanddeiliaid y gweithiwn gyda hwy lefel uchel o foddhad ag ansawdd ein gwasanaethau
- manteisiwn i'r eithaf ar bosibiliadau technoleg newydd
- proseswn geisiadau, taliadau grantiau a thrafodion ariannol yn brydlon
- gwelwn welliant i'n cynaliadwyedd amgylcheddol
- cadwn ein hachrediad Buddsoddwyr mewn Pobl

- Lleihawn ein costau rhedeg

Blaenoriaethau ar gyfer 2013/14

33. Datblygu gallu a sgiliau proffesiynol ein staff a'u lles

34. Gweithredu ein strategaeth TGCh

35. Datblygu cyfres o gyhoeddiadau corfforaethol a fideos sy'n hyrwyddo ein brand a'n gwaith

36. Rheoli ystâd ein swyddfa'n effeithlon, diogel ac am y gwerth gorau

37. Datblygu ein gwasanaeth gwybodaeth

38. Gweithredu mesurau lleihau costau i gyflawni targedau ariannol ein Hadolygiad Sefydliadol

39. Cadw achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl

40. Asesu'n annibynnol effeithiolrwydd ein sefydliad

41. Cyflawni targedau cyhoeddedig i brosesu:

- ceisiadau grant
- taliadau ariannol

42. Adolygu a symlhau ein prosesau rhoi grantiau.

43. Rheoli ein hadnoddau ariannol i'r uchaf safonau o atebolrwydd

44. Datblygu perthynas adeiladol â Llywodraeth Cymru drwy:

- Cyflawni gofynion Llythyr Cylch Gwaith 2013/14 ac adrodd arnynt
- cyfarfodydd chwemisol gyda'r Gweinidog
- Fforwm Diwylliant
- Monitro chwarterol Cyfarfodydd gyda swyddogion

45. Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2012/13

46. Cefnogi rheolaeth gorfforaethol ein busnes drwy:

- rheoli a threfnu'r Cyngor a'i bwyllgorau
- rheoli a threfnu'r Uwch Tîm Rheoli
- rheoli a threfnu'r Bwrdd Rheoli

47. Sicrhau amrywiaeth aelodau o'r Cyngor a'r staff

48. Ymdrin yn effeithiol ag ymholiadau gan Lywodraeth Cymru, cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth
49. Cyflawni ein cyfrifoldebau amgylcheddol yn unol â dyletswydd gynaliadwyedd Llywodraeth Cymru.
50. Gweithredu systemau talu cyflogau newydd

Adnoddau dynol

Cyfle Cyfartal

Rydym yn ymroddedig i bolisi cyfle cyfartal o ran ein harferion cyflogi. Yn benodol, anelwn sicrhau na thrinnir yr un darpar weithiwr nag un gwirioneddol yn fwy neu'n llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws o ran priodas neu fod yn rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Rydym ar y Gofrestr Genedlaethol o Ddefnyddwyr Symbolau Anabledd a adlewyrcha ein hymroddiad i sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael i weithwyr anabl.

Absenoldeb salwch

Yn 2012/13 cyfanswm salwch y staff oedd 364 dydd (2011/12 : 963 dydd). Cynrychiolai hyn 1.97% (2011/12: 4.3%) o'r dyddiau gwaith, gan gynnwys 0.16% (2011/12: 1.77%) o ganlyniad i absenoldeb salwch hir dymor (dros 28 dydd).

Cyfathrebu â'r gweithwyr

Cydnebydd y Cyngor yr undeb llafur, Unite, Uno'r Undeb, ac mae wedi dod i gytundeb gweithdrefnol ag ef; mae rheolwyr a'r undeb yn ymgysylltu yn rheolaidd i drafod materion cyfredol. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd adrannol rheolaidd ac mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr ac

Arweinwyr Tîm roi adroddiad i'w staff ar faterion a drafodir yn y Cyngor ac yng nghyfarfodydd yr Uwch Tîm Rheoli a'r Bwrdd Rheoli.

Cynllun pensiwn

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr yn aelodau o Gynllun Ymddeol 1994 y Cyngor. Mae'r gronfa yn gynllun buddiant diffiniedig. Mae hefyd yn gynllun cyflogwyr lluosog felly ni all y Cyngor nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Yn unol â pholisïau cyfrifyddu'r Cyngor, rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig, yn unol ag FRS17.

Talu credydwyr

Dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, a Chod Arfer Talu Gwell Llywodraeth Prydain, mae'n ofynnol i'r Cyngor dalu anfonebau cyflenwyr lle na cheir anghydfod mewn 30 diwrnod oddi ar gael nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Nod y Cyngor yw talu'r 100% o anfonebau, yn cynnwys anfonebau y cafwyd anghydfod yn eu cylch pan ddatrysir yr anghydfod, yn unol â'r telerau hyn. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013, talodd y Cyngor 94% (2011/12: 96%) o'r holl anfonebau a gadwai at delerau ei bolisi talu. Ers Tachwedd 2008 bwriadwn dalu pob anfoneb mewn 10 diwrnod yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Ar gyfer 2012/13 talwyd 72% (2011/12: 86%) o anfonebau mewn

10 diwrnod. Ni ragwelir y newidia ein polisi yn y blynyddoedd i ddod.

Perygl ariannol a rheoli Cyfalaf

Ceidw'r Cyngor offerynnau ariannol yn bennaf i ariannu ei weithrediadau, er enghraifft, dyledwyr a chredydwyr masnachol a balansau arian sy'n deillio'n uniongyrchol o'i weithrediadau. Gwneir y gwaith o reoli peryglon ariannol sy'n deillio o fasnachu offerynnau ariannol, yn bennaf dyledwyr a chredydwyr masnachol, drwy gyfres o bolisiau a gweithdrefnau. Rheolir y peryglon hyn fel a ganlyn:

Perygl hylifedd - mae'r Cyngor yn fodlon fod ganddo adnoddau hylifedd digonol, ar ffurf arian yn y banc ac arian y cytunwyd arno ar gyfer 2013/14 i fodloni pob ymrwymiad cyfredol a contractiwyd. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau cyffredinol yn agored i unrhyw berygl hylifedd sylweddol.

Perygl cyfraddau llog - cedwir balansau a gawn gan Lywodraeth Cymru i dalu ymrwymadau grant a chostau gweithredu, mewn cyfrifon banc cyfradd amrywiol dim rhybudd a oedd â chyfradd llog ar gyfartaledd o 0.50% (2011/12: 0.50%) yn y flwyddyn. Y balans arian diwedd y flwyddyn anghyfyngedig effeithiol a ddelid gan y Cyngor yn y banc oedd £1,065,000 (2012: £1,739,000, er bod Llywodraeth Cymru wedi anfon atom randaliad cyntaf ein grant mewn cymorth ar gyfer 2012/13 - swm o £5,800,000 - ar 30 Mawrth 2012 ac felly ein gwir falans arian anghyfyngedig diwedd y flwyddyn oedd £7,539,000). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau cyffredinol yn agored i beryglon cyfradd llog sylweddol.

Perygl arian tramor - nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw beryglon cyfnewid arian tramor.

Perygl llif arian - nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw beryglon llif arian sylweddol.

Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â data personol

Mae gan y Cyngor reolaethau a pholisïau ar waith i sicrhau cywirdeb data. Sicrha systemau TGCh fod rheolaeth lem ar ddiogelwch y data. Hyd y gwyddom, ni chollwyd unrhyw ddata yn y cyfnod dan sylw.

Materion cymdeithasol a chymunedol

Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod arian y Cyngor yn hygyrch ac o fudd i holl ddinasyddion Cymru. A ninnau'n gorff a ariennir gan y cyhoedd, mae sicrhau rhagor o hygyrchedd i'r celfyddydau yn flaenoriaeth naturiol. Rydym yn llwyr ymroddedig i ddymchwel y rhwystrau sy'n atal a llesteirio pobl rhag mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Mae gennym o hyd strategaethau sy'n targedu pobl ifainc, y celfyddydau cymunedol ac ehangu ymgysylltiad y cyhoedd â'r celfyddydau. Cefnogasom ŵyl hynod lwyddiannus – Gwanwyn – sy'n dathlu pobl hŷn ac rydym yn ymhel â phrosiect mawr â'r nod o weithio gyda phobl ifainc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

Mae gan ein cynlluniau grant flaenoriaethau troswaol wedi'u hanelu at brosiectau sy'n hybu gwaith artistiaid o grwpiau a dangynrychiolir megis pobl anabl a phobl dduon ac ethnig. Cydnabyddwn ddiwylliant dwyieithog Cymru a rhoddwn flaenoriaeth i geisiadau am brosiectau a ddarperir drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Darparwn hyfforddiant addas i'n staff i newid y ffordd yr ymdriniwn â materion cydraddoldeb hil, amrywiaeth ac anabledd. Ymgymernw hefyd â rhaglen o asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ar bob polisi mewnol i sicrhau yr adlewyrchant y blaenoriaethau hyn.

Cynaliadwyedd

Ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru '*Cymru Gynaliadwy – Dewis Gwell ar gyfer Dyfodol Gwell*' mae gweledigaeth a chynigion i ymgorffori cynaliadwyedd yn brif egwyddor drefniadol gwasanaethau cyhoeddus ehangach yng Nghymru pan â Mesur Datblygiad Cynaliadwy yn ddeddf gwlad. Rydym ymhlith y sefydliadau cyntaf darostyngedig i'r Ddyletswydd Gynaliadwyedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2015.

Felly adlewyrchwn hyn yn natblygiad ein strategaethau newydd ac yn ein Cynllun Corfforaethol a gyhoeddir yn gynnar yn 2013/14. Yn y flwyddyn a ddaw datblygwn ein cynlluniau i gyflawni ein dyletswyddau dan y *Mesur Datblygiad Cynaliadwy* i sicrhau y cyflawnwn ein rhan i'r eithaf wrth wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru.

Archwilio

Yn unol ag erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor, cynnal Archwilydd Cyffredinol Cymru archwiliad allanol y Cyngor yn unol â'r telerau a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru.

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y Cyngor yn ymwybodol ohoni, ac mae wedi cymryd yr holl gamau posibl yn rhinwedd ei swydd i sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod archwilydd y Cyngor yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Adroddiad Amgylcheddol

Credwn fod gennym gyfrifoldeb i weithredu ein busnes mewn modd cynaliadwy a gweithredu arfer amgylcheddol da. Ymrwymwn i leihau ein heffaith amgylcheddol a gwella'n barhaus ein perfformiad. Mae'r rhain yn rhan hanfodol o'n ffordd o wneud busnes a gweithredu.

Cyflwynodd arweiniad diweddar oddi wrth Lywodraeth Cymru, seiliedig ar ganllawiau Trysorlys ei Mawrhydi, lefel de minimis i sefydliadau sy'n gorfod adrodd ar berfformiad amgylcheddol.

O'n gwirfodd penderfynasom adrodd yn llawnach am ein perfformiad yn 2012/13 er bod y lefel de minimis yn gymwys. Credwn fod hyn yn unol ag ysbryd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru – *Cymru Gynaliadwy: Dewis Gwell ar gyfer Dyfodol Gwell*.

Adolygiad o gynnydd:

Ers inni gyflwyno polisi amgylcheddol gwnaethom gynnydd da wrth wella ein perfformiad amgylcheddol. Cyflawnwyd hyn drwy gyfuniad o fuddsoddi ariannol, cyflwyno systemau a dulliau gweithredu gwahanol a thrwy ymrwymiad ein staff.

Gweithiwn ar hyn o bryd o dri lleoliad ledled Cymru a feddai, ar ddechrau'r flwyddyn, ar gyfanswm o 1,464 metr sgwâr o lawr. Adleolodd ein staff yn y Gogledd i swyddfa lai a'n staff yng Nghaerdydd i le llai yn y swyddfa bresennol a oedd yn rhan o'n strategaeth lety. Ar hyn o bryd adolygwn ein gofynion swyddfa yn y Gorllewin. Ein targed yw lleihau ein hystâd gan o leiaf 25% erbyn diwedd Mawrth 2014.

Cyn symud yno bum mlynedd yn ôl, gosodasom ystod o declynnau ac offer arbed ynni yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Ymysg y rhain oedd rhannu ein system awyru'n barthau, goleuo isel ei ynni a synwryddion symudoledd i arbed goleuo. Cawsom declynnau amlswyddogaeth sy'n arbed ynni yn lle hen

beiriannau argraffu, ffotocopiö a ffacsio; cyflwynwyd argraffu ar ddwy ochr pob dalen yn ddiofyn; a chyflawnasom raglen i rithio ein gweinyddion TG i leihau'r ynni i'w hoeri a'u rhedeg. Mae hefyd lawer o nodweddion tebyg yn ein swyddfa newydd yn y Gogledd.

Mae'r ddwy swyddfa ar rwydweithiau cludiant cyhoeddus. Defnyddia rhagor o ymwelwyr gludiant cyhoeddus wrth ymweld â ni erbyn hyn. Gwelsom hefyd gynnydd yn nifer y staff sy'n defnyddio trenau a bysiau i gyrraedd y gwaith. Ar hyn o bryd ystyriwn fentrau eraill megis benthyciadau ar gyfer tocynnau tymor i annog rhagor o leihad yn ein heffaith amgylcheddol.

Gwnaethom gynnydd hefyd wrth newid ein hymddygiad sefydliadol.

Hybwn ac anogwn ddefnyddio ffyrdd amgylcheddol-gyfeillgar o deithio gan gyfyngu ar deithiau i rai angenrheidiol yn unig a sicrhau y gwneir y rhain yn y ffyrdd mwyaf effeithiol o ran yr amgylchedd ac arian. Anogir rhannu ceir ac erbyn hyn dim ond yn un o'n swyddfeydd mae gennym le i barcio. Darparasom reseli beiciau yn ein swyddfa yng Nghaerdydd ac ystyriwn fentrau pellach hefyd.

Hybwn yn weithredol gynadledda drwy'r fideo yn ddewis amgen yn lle teithio. Mae gan bob un o'n tair swyddfa gyfleusterau fideo. Anogwn ddefnyddio fideo yn lle teithio. Uwchraddiwn ac estynnwn ein cynhwysedd fideo i gynnwys gweithio symudol yn 2013/14.

Mae gan dros 50% o'n staff erbyn hyn yr offer priodol, megis gliniaduron a ffonau clyfar, i'w galluogi i weithio'n symudol a leiha eu dibyniaeth ar orfod gweithio o'n swyddfeydd. Bu hyn yn fodd i leihau eu teithiau i'r gwaith a'u hallyriadau carbon deuocsid. Nid ydym mewn sefyllfa i adrodd yn gywir ar hyn ond archwiliwn a fydd modd inni ei wneud mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Ond golygai cyflwyno strwythur staffio newydd a threfniadau gweithio mwy symudol a hyblyg fod rhai o'r staff yn gorfod teithio'n fwy rhwng ein swyddfeydd neu wrth ymweld â'r sefydliadau a ariannwn. Disgwyliwn i effaith gyntaf y tuedd hwn leihau fel yr ymsefydla ein strwythur newydd.

Mae ymwybyddiaeth amgylcheddol yn ein rhaglen sefydlu a darperir hyfforddiant a diweddariadau achlysurol i'r staff fel sy'n briodol.

Hybwn gwtogi gwastraff ymhlith ein staff drwy annog lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu. Hybir hefyd yn weithredol ailgylchu a didoli gwastraff yn fewnol sy'n lleihau'r hyn a anfonir at y safle tirlenwi a defnyddiwn sefydliadau trwyddedig a phriodol i waredu ein gwastraff. Ailgylchwn ein hoffer TG sy'n ddiangen.

Mae gan bob un o'n prif gyflenwyr offer a chyflenwadau swyddfa bolisi amgylcheddol a mecanwaith adrodd ar waith ac wrth ddewis contractwyr a chyflenwyr, ystyriwn berfformiad ac ymwybyddiaeth amgylcheddol yn rhan o'n meini prawf dethol. Defnyddiwn declynnau ac offer arbed ynni i leihau ar y trydan a ddefnyddiwn ac anogir y staff i leihau defnydd lle bynnag bo hynny'n bosibl.

Mae gan ein contractwyr bolisiâu amgylcheddol ar waith i sicrhau y defnyddiant gynhyrchion ac offer ecogyfeillgar; rhaid cytuno â ni unrhyw newid yn y cynhyrchion glanhau.

Prif ganolbwynt ein strategaeth TGCh fu estyn defnydd ein seilwaith technoleg gwybodaeth i ddarparu buddion busnes ac amgylcheddol. Cyflwynasom dechnoleg i sganio gohebiaeth ac anfonebau a ddeuai atom sy'n lleihau ein gofynion storio a galluogi ein staff i gael hygyrchedd atynt o bell. E.e., mae ein systemau cyllid erbyn hyn yn llwyr drydanol o dderbyn yr archeb hyd at dalu a sganir dogfennau ategol

fel eu bod yn drydanol hygyrch. Aeth ein system ymgeisio ar-lein yn fyw y llynedd; leiha hyn hefyd faint y papur a dderbyniwn, a drafodwn, a storiwn ac a ailgylchwn.

Yn y blynyddoedd diweddar lleihasom yn sylweddol nifer y copïau o'n cyhoeddiadau corfforaethol a chyhoeddwn gopïau trydanol lle bynnag bo hynny'n bosibl. Bu hyn yn fodd i leihau ein defnydd o bapur, y nifer o gopïau papur a gawn a gorfod ei storio.

Hefyd buddsoddasom mewn gwefan well i godi lefel ein gwasanaeth a darparwn ystod eang o wybodaeth i ymgeiswyr, artistiaid, sefydliadau celfyddydol a'r cyhoedd heb yr angen i argraffu ac anfon copïau caled.

Safonasom ein papur gohebu a defnyddiwn papur wedi'i ailgylchu ar gyfer o leiaf 90% o'n hanghenion copïo a mewdol. Caiff rheolwyr adroddiadau misol sy'n dadansoddi gweithgarwch argraffu a chopïo i annog defnydd is yn gyffredinol.

Awn ar ôl achrediad y Ddraig Werdd a gosodasom darged o gael achrediad lefel 3 erbyn diwedd Mawrth 2015.

Ein perfformiad:

Gwellasom ein systemau adrodd mewdol i allu dal a mesur manylion ein defnydd o ddefnyddiau traul, gwastraff, ynni, dŵr a theithio'r staff sef ein hallyriadau carbon deuocsid. Ond mae nifer o ddangosyddion na allwn eu hadrodd yn gywir.

Rhannwn lety ein dwy swyddfa fwyaf a chynhwysir rhai costau yn y tâl gwasanaeth yn arbennig costau gwastraff a defnydd dŵr. Archwiliwn gyda'n landlordiaid ffordd ymarferol o sefydlu system i wahanu costau dŵr ar gyfer 2013/14. Ar hyn o bryd ni allwn nodi'n gywir gost ein gwastraff. Felly cynwysasom bwysau ein gwastraff yn y tabl isod:

	2012/13	2011/12
Gwastraff:		
Anariannol (tunelli metrig)		
Safle tirlenwi - <i>amcangyfrif</i>	2.2	2.5
Ailddefnyddio/ailgylchu - <i>amcangyfrif</i>	7.45	9.8
Allyriadau nwy tŷ gwydr (carbon deuocsid)		
Allyriadau yn eu crynswth, cwmpas 1 (anuniongyrchol)	8,800	9,271
Defnyddio ynni (cilowat-awr)		
Trydan (anadnewyddadwy)	126,708	133,496
Trydan (adnewyddadwy)		
Nwy	Amherthnasol	Amherthnasol
Dangosyddion ariannol (£)		
Gwariant - ynni	18,900	20,800
Costau cyflenwi dŵr (ystâd swyddfa) – ar hyn o bryd ni ellir eu hasesu, maent yn gynwysedig yn y tâl gwasanaeth	Amherthnasol	Amherthnasol
Allyriadau teithio (carbon deuocsid)		
Trên	2,202	1,463
Awyren	6,927	5,496
Ceir/faniau	6,370	6,555
Cost teithio (£)		
Trên	33,194	32,993
Awyren	19,981	18,266
Ceir/faniau	39,440	40,760
Teithio (milltiroedd)		
Trên	154,806	104,977
Awyren	540,671	391,525
Ceir/faniau	86,789	90,757

Ein targed yw lleihau ein hallyriadau carbon deuocsid yn gyffredinol gan o leiaf 5% yn 2013/14.

Ein gallu i ddyllanwadu:

Ni yw'r dosbarthwr mwyaf o grantiau yn sector celfyddydol Cymru, rydym mewn lle ardderchog

i ddyllanwadu ar ymddygiad a pherfformiad ymhlith yr unigolion a'r sefydliadau a ariannwn.

Y llynedd arianasom y rhaglen, Eginiaid, a ganolbwyntiai ar ddatblygu seilwaith celfyddydol isel ei garbon; a datblygu swyddogaeth y celfyddydau yn bair i syniadau

a gweledigaethau ar gyfer Cenedl Un Blaned isel ei charbon yng Nghymru. Buom yn gymorth wrth ariannu a datblygu uwchgynhadledd Eginiaid, digwyddiad mawr am y celfyddydau a chynaliadwyedd a gyflwynwyd gan Volcano a Chanolfan y Dechnoleg Amgen ym Machynlleth ym Medi 2012. Cefnogasom eto gomisiynau a gwaith ffilm artistiaid yn rhan o'r digwyddiad a ddangoswyd wedyn ar fenter y BBC/Cyngor Celfyddydau Lloegr, **The Space**. Wedyn dechreuasom brosiect artist preswyl yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen a chynnig cefnogaeth bellach i Eginiaid i gwmpasu prosiect dogfennu ar y we.

Hefyd anogwn safonau amgylcheddol uchel yn y prosiectau Cyfalaf a ariannwn. Adeiledir o'r newydd y prosiect mawr, Pontio, ym Mangor i safon ardderchog Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau Ardderchog a chyrraedd prosiect Glynn Vivian, Abertawe safon dda iawn yn ôl yr un fesur oherwydd ei fod yn adeilad hanesyddol.

At y dyfodol:

Rydym hefyd yn awyddus i gefnogi'r sefydliadau a ariannwn i leihau eu heffaith hwy ar yr amgylchedd. Bwriadwn weithredu nifer o fesurau yn y flwyddyn a ddaw i leihau'n bellach allyriadau carbon deuocsid.

Gweithiwn mewn partneriaeth â'n portffolio o sefydliadau refeniw i ddatblygu mesurau gan gynnwys rhannu'r ymarfer gorau, ariannu gwelliannau technegol a chyflwyno canllawiau ar faterion datblygu cynaliadwy. Cawn gymorth yn y broses hon gan y gwaith cyfredol a wna Creu Cymru.

Ailagorasom ein rhaglen Cyfalaf Loteri a bwysleisia o hyd yr angen i'r adeiladau a ariannwn gyrraedd safonau amgylcheddol uchel.

Mae perfformiad amgylcheddol dim ond yn rhan o'r agenda cynaliadwy er ei fod yn rhan bwysig. Felly archwiliwn nifer o fentrau eraill a'n caniatâ i wneud ein siâr o ran lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac effaith y sefydliadau a ariannwn gan ein galluogi i helpu cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru gynaliadwy.



Nicholas Capaldi
Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2013



Yr Athro Dai Smith
Cadeirydd
5 Gorffennaf 2013

Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol

Tâl y Cyngor bob aelod o'i staff, ac eithrio'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, yn unol â system cyflog a graddio y cytunwyd arni ac a gynhelir gan yr Adran Adnoddau Dynol. Mae polisi gwerthuso swyddi ar waith a gall y staff apelio graddio eu swyddi yn unol â hwnnw. Cytunir â Llywodraeth Cymru ar delerau penodi'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Mewn ymgynghoriad â'r undeb llafur cydnabyddedig llunnir cylch gwaith cyflog a chyflwynir ef i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Mae'r pecyn cyflog ac amodau canlynol yn gyfrwymol ar y Cyngor cyfan tan y cylch negodi nesaf. Dibynna cynnydd dan y cylch gwaith cyflog ar berfformiad a sefydlwyd gan system y Cyngor o adolygiadau datblygiad personol.

Gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau caiff y Cadeirydd gydnabyddiaeth ariannol ar gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru sy'n adlewyrchu ymroddiad amser lleiafysmiol i fusnes y Cyngor. Rhydd Llywodraeth Cymru hefyd gyngor ar y cynnydd blynyddol yng nghyflog y Cadeirydd ond ni chaiff daliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn.

Yng nghydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr mae cyflog sylfaenol a bonws blynyddol. Argymhella'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol fonysau blynyddol i'r Cyngor ar ôl ystyried perfformiad y Prif Weithredwr yn erbyn nifer o amcanion a bennwyd ymlaen llaw. Cyfunir canran o'r cynnydd, fel y cynghorir gan Lywodraeth Cymru, â chyflog y Prif Weithredwr a thelir y gweddill fel dyfarniad heb ei gyfuno. Oherwydd arweiniad cyfredol Lywodraeth Cymru, ni thelir codiadau sylfaenol wedi'u cyfuno a cheid anogaeth gref i beidio â thalu taliadau heb eu cyfuno. Canlyniad hyn oedd i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol gytuno â thristwch na ellid cynyddu tâl i'r Prif Weithredwr yn y flwyddyn ac ildiodd y Prif Weithredwr ei hawl i gael dyfarniad anghyfunol.

Ceir manylion pellach am gydnabyddiaeth ariannol a buddiannau pensiwn y Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac uwch cyfarwyddwyr eraill yn nodyn 9b i'r datganiadau ariannol. Archwilir y wybodaeth hon.

Penodir aelodau'r Cyngor gan Weinidogion Cymru am gyfnod o dair blynedd a gellir eu hailbenodi am gyfnod pellach o dair blynedd. Penodwyd y Cadeirydd presennol, yr Athro Dai Smith, yn aelod o'r Cyngor ar 1 Ebrill 2004, ond daeth yn Gadeirydd ar 1 Ebrill 2006. Wedyn penododd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yr Athro Dai Smith am dymor o dair blynedd (1 Ebrill 2007-31 Mawrth 2010), adnewyddodd y Gweinidog dros Dreftadaeth ei benodiad am dair blynedd arall (hyd at 31 Mawrth 2013) a chyhoeddodd y Gweinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth y pery'r Athro yn ei swydd tan 31 Mawrth 2016. Cyflogir y Prif Weithredwr ac uwch cyfarwyddwyr ar gontractau parhaol yn unol â thelerau ac amodau safonol y Cyngor.

Ar ôl cwblhau cyfnod prawf o chwe mis yn llwyddiannus, mae hawl gan y Prif Weithredwr ac uwch cyfarwyddwyr gael rhybudd o 13 wythnos i derfynu eu cyflogaeth.

Dyddiadau dechrau cyflogaeth yw: Yr Athro Dai Smith (Cadeirydd) 1 Ebrill 2006; Nicholas Capaldi (Prif Weithredwr) 15 Medi 2008; David Alston (Cyfarwyddwr y Celfyddydau) 1 Gorffennaf 2005; Katherine Davies (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu o 1 Chwefror 2012 ymlaen) 24 Awst 1998; Diane Hebb (Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgysylltu o 1 Chwefror 2012 ymlaen) 13 Ionawr 1992; Siân Tomos (Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio o 1 Chwefror 2012 ymlaen) 3 Mai 1994; a Hywel Tudor (Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau) 21 Ionawr 2002.

Aelodau o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
a wasanaethodd ers 1 Ebrill 2012 oedd:

Yr Athro Dai Smith (aelod o'r Cyngor);
Margaret Jervis MBE DL (aelod o'r Cyngor);
Dr John Geraint (aelod o'r Cyngor) a
Bethan Guilfoyle CBE (aelod annibynnol).



Nicholas Capaldi
Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2013



Y Athro Dai Smith
Cadeirydd
5 Gorffennaf 2013

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan erthygl 11 o'r Siarter Frenhinol ddyddiedig 30 March 1994 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi bob blwyddyn ariannol ddatganiad cyfrifon ar ffurf a sail a bennir gan Weinidogion Cymru. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, ei adnoddau i mewn a'r ffordd y defnyddir adnoddau, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (diwygiwyd 2005), ac i'r graddau ei fod yn egluro neu'n adeiladu ar ofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol:

- ufuddhau i'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu dros y Cyngor. Nodir cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, am gadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r Cyngor, ym Memorandwm i Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.



Nicholas Capaldi
Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2013



Yr Athro Dai Smith
Cadeirydd
5 Gorffennaf 2013

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gyngor Celfyddydau Cymru

Ar dystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol cyfrif gweithgareddau cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 dan erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys y datganiad gweithgareddau ariannol, y fantolen, datganiad llif arian a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Archwiliais hefyd y wybodaeth yn yr Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw yn archwiliedig.

Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Cyfrifyddu ac ef sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blyneddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol, a'r datganiadau ariannol yn unol ag Erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth i'w harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol imi gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Cynhelir archwiliad i gael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys

asesu'r canlynol: a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Cyngor ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol imi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Hefyd darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad Blyneddol yr ymddiriedolwyr i nodi unrhyw anghysonderau sylweddol o'u cymharu â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylweddol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau yn fy adroddiad.

Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2013 a'i warged a'i lifau arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n iawn yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddir dan erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn, ymhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor;
- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn Adroddiad Blyneddol yr ymddiriedolwyr yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn:

- nid adlewyrcha'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol gydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys ei Mawrhydi;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

15 Gorffennaf 2013

Cyfrifoldeb Cyngor Celfyddydau Cymru yw cynnal gwefan Cyngor Celfyddydau Cymru a sicrhau cywirdeb; nid yw'r gwaith a gyflawnwyd gan yr ymchwilyr yn cynnwys ystyriaeth ar y materion yma ac o ganlyniad nid yw'r archwilyr yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newidiadau a ddigwydd i'r datganiadau ariannol unwaith y cyflwynwyd hwy'n y lle cyntaf ar y wefan.

Datganiad o Weithgareddau Ariannol
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

	Nodyn	Arian Anghyfyngedig £'000	Arian Cyfyngedig £'000	2013 Cyfanswm £'000	2012 Cyfanswm £'000
ADNODDAU SY'N DOD I MEWN					
Adnoddau sy'n dod i mewn o arian a gynhyrchwyd					
<i>Incwm gwirfoddol:</i>					
Grant mewn cymorth oddi wrth					
	3	29,657	4,590	34,247	34,728
	4	51	2,358	2,409	1,416
		<u>29,708</u>	<u>6,948</u>	<u>36,656</u>	<u>36,144</u>
<i>Gweithgareddau cynhyrchu arian:</i>					
	5	179	88	267	293
<i>Incwm buddsoddi:</i>					
		17	-	17	15
	6	174	-	174	109
		<u>30,078</u>	<u>7,036</u>	<u>37,114</u>	<u>36,561</u>
ADNODDAU A WARIWYD					
	7,8,9	29,786	6,892	36,678	36,063
	10	87	-	87	88
		17	-	17	15
		<u>29,890</u>	<u>6,892</u>	<u>36,782</u>	<u>36,166</u>
		188	144	332	395
	16	(156)	156	-	-
		32	300	332	395
		2,791	112	2,903	2,508
		<u>2,823</u>	<u>412</u>	<u>3,235</u>	<u>2,903</u>

Nid oes unrhyw weithgareddau sydd wedi peidio ac ni chafwyd unrhyw gaffaeliadau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 53 to 73 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Mantolen

ar 31 Mawrth 2013

	Nodyn	2013		2012	
		£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau sefydlog					
Asedau sefydlog anniriaethol	11a		15		37
Asedau sefydlog diriaethol	11b		295		299
			<u>310</u>		<u>336</u>
Buddsoddi yn Cerdd Cymru: Music Wales Cyf	1b, 21		-		-
Asedau cyfredol					
Grantiau a dalwyd ymlaen llaw	12	516		469	
Dyledwyr a rhagdaliadau eraill	13	2,281		1,530	
Arian yn y banc ac mewn llaw ¹		1,491		7,651	
		<u>4,288</u>		<u>9,650</u>	
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn					
Grantiau taladwy		(104)		(344)	
Credydwyr eraill sy'n ddyledus mewn blwyddyn ¹		(1,259)		(6,690)	
	14	<u>(1,363)</u>		<u>(7,034)</u>	
Asedau cyfredol net			<u>2,925</u>		<u>2,616</u>
Cyfanswm yr asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol		3,235		2,952	
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn					
Incwm gohiriedig	15		-		(49)
Asedau net			<u><u>3,235</u></u>		<u><u>2,903</u></u>
Cynrychiolwyd gan:					
Arian					
Arian anghyfyngedig	16		2,823		2,791
Arian cyfyngedig	16		412		112
			<u>3,235</u>		<u>2,903</u>


¹ Anfonodd Llywodraeth Cymru randaliad cyntaf ein grant mewn cymorth 2012/13, swm o £5,800,000, ar 30 Mawrth 2012. Er ei fod wedi'i gynnwys ym malans arian diwedd y flwyddyn nis cydnabuwyd yn natganiad gweithgareddau ariannol 2011/12 ond fe'i cynhwyswyd yn y credydwyr eraill sy'n ddyledus mewn blwyddyn yn flaenincwm. Cynnwys arian yn y banc ac mewn llaw £14,000 (2012: £Dim) sy'n cynrychioli ein rhan o'r balansau a ddeil Cerdd Cymru: Music Wales Cyf (nodyn 21).

Nid oes unrhyw enillion na cholledion ac eithrio'r rhai a ddangosir uchod.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 53 to 73 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'u llofnodi ar ei ran gan



Nicholas Capaldi, Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2013



Yr Athro Dai Smith
5 Gorffennaf 2013

Datganiad Llif Arian

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

	Nodyn	2013 £'000	2012 £'000
Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu	18a	(6,101)	6,449
Llog banc		17	15
		<hr/>	<hr/>
		(6,084)	6,464
Gwariant Cyfalaf	18b	(76)	(71)
		<hr/>	<hr/>
Cynnydd/(lleihad) mewn arian yn y flwyddyn¹	18c	(6,160)	6,393

¹ Anfonodd Llywodraeth Cymru randaliad cyntaf ein grant mewn cymorth 2012/13, swm o £5,800,000, ar 30 Mawrth 2012. Er ei fod wedi'i gynnwys ym malans arian diwedd y flwyddyn nis cydnabuwyd yn Natganiad Gweithgareddau Ariannol 2011/12 ond fe'i cynhwyswyd yn y credydwyr eraill sy'n ddyledus mewn blwyddyn yn flaenincwm.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 53 to 73 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Nodiadau sy'n rhan o'r datganiadau ariannol

1. Polisiâu cyfrifyddu

a. Sail y paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i gynnwys rhai asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r Cyngor ar sail cost gyfredol. Fe'u paratowyd yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a bodlonant ofynion Deddf Elusennau 2006 a 2011, cyfarwyddiadau'r Comisiwn Elusennau ar Gyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (diwygiedig 2005) a Datganiadau o Ymarfer Safonol Cyfrifyddu a Safonau Adrodd Ariannol a gyflwynwyd ac a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu cyn belled bod y gofynion yn briodol. Yn ogystal â chydymffurfio â'r Datganiad Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau, rhoddir ystyriaeth i Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi i'r graddau ei fod yn egluro neu'n adeiladu ar ofynion y Datganiad Arfer a Argymhellir. Nodir isod grynodedb o'r prif bolisiâu cyfrifyddu sydd wedi'u cymhwyso'n gyson.

Dan Gyfarwyddiadau Cyfrifon ar wahân mae'r driniaeth gyfrifyddu a gaiff grantiau cyffredinol a grantiau'r Loteri yn wahanol iawn. Felly, gan ystyried paragraff 359 o Ddatganiad Arfer a Argymhellir y Comisiwn Elusennau (a ddiwygiwyd 2005), ym marn yr ymddiriedolwyr mae'n amhriodol paratoi cyfrif cyfunol gan na roddai ddarlun gwir a theg o'r ffordd y defnyddia'r Cyngor ei adnoddau. Ond darperir cyfanswm yr adnoddau i mewn ac amcan o'r gwariant elusennol uniongyrchol cyfun ar y celfyddydau yn nodyn 2.

b. Cerdd Cymru:Music Wales Cyf

Mae gan y Cyngor fudd 50% yng Ngherdd Cymru sef cyd-drefniant â Sefydliad Cerdd Cymru:Music Wales. Yn unol ag FRS 9 y cyfrifir y budd hwn yn gyd-drefniant nad yw'n endid

na chyfunwyd â datganiadau ariannol y Cyngor. Yn lle gwneud hyn, nodwyd ein cyfran o lif arian yn Cerdd Cymru:Music Wales a chyfrifyddwyd amdani yn Natganiad y Gweithgareddau Ariannol petai'n rhan o weithrediadau'r Cyngor. Dangosir unrhyw symiau sy'n ddyledus i Gerdd Cymru neu'n ddyledus ganddi inni dan y penawdau priodol yn y fantolen. Ni chyfunwyd y trefniant ac felly ni chofnodir unrhyw fuddsoddiad yn Cerdd Cymru:Music Wales yn ei gost hanesyddol - llai'r lleihad yn y gwerth i adlewyrchu cyfran y Cyngor o'r asedau net, lle mae hyn yn is. Ni chymer y datganiadau ariannol i ystyriaeth unrhyw warged a gynhyrchir ac a ddeler yn Cerdd Cymru:Music Wales am fod cyfyngiadau arno ac ansicrwydd ynghylch ei ddsbarthu. (Gweler nodyn 21)

c. Incwm

Rhoddir cyfrif am bob incwm ar sail groniadau, heblaw am gymynroddion, cyfraniadau a rhoddion a gydnabyddir dim ond pan gânt eu derbyn. Trinnir grantiau Cyfalaf sy'n dderbyniadwy fel adnoddau sy'n dod i mewn.

Ni chofnodir incwm yn wariant net yn natganiad gweithgareddau ariannol.

d. Dosbarthu arian y Loteri

Ni chwmpasa'r datganiadau ariannol hyn swyddogaeth y Cyngor i ddsbarthu'r Loteri y paratowyd datganiadau ariannol ar wahân ar ei chyfer yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Â'r Cyngor i gostau sy'n cynnal ei swyddogaeth o weithgareddau cyffredinol a dosbarthu arian y Loteri. Yn unol â'r Cyfarwyddyd Ariannol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru, dosranna'r Cyngor gostau anuniongyrchol yn briodol rhwng y ddau faes hyn o weithgarwch gan gyfeirio at yr amser a dreuliant neu'r adnoddau a ddefnyddiant.

e. Adnoddau a wariwyd

Rhoddir cyfrif am bob gwariant ar sail groniadau ac mae wedi'i ddsbarthu dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n ymwneud â'r categori. Lle na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol maent wedi'u dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

f. Grantiau a roddwyd

Ceir gwariant cymhorthdal ar ffurf grantiau a gynigir yn ffurfiol i sefydliadau a ariannwn. Cynigir grantiau er mwyn cynnal rhaglen o weithgareddau y cynlluniwyd ar eu cyfer, neu sy'n cychwyn mewn blwyddyn ariannol benodol a chodir hwy ar ddatganiad o weithgareddau ariannol y flwyddyn honno.

Ar y datganiad o weithgareddau ariannol ni chodir ymrwymiadau ymlaen a wneir yn y flwyddyn sy'n gysylltiedig â gweithgarwch y flwyddyn nesaf fel y dywed nodyn 20. Ym marn yr ymddiriedolwyr ni fyddai cynnwys y grant mewn cymorth i gwrdd â'r ymrwymiadau hyn yn rhoi golwg wir a theg ar ddefnydd y Cyngor o'i adnoddau am nas cydnabyddir nes ei dderbyn.

Dangosir grantiau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn yn gredydwr yn y fantolen. Dangosir unrhyw ragdaliadau a wnaed mewn perthynas â grantiau a gymeradwywyd yng nghyswllt gweithgareddau yn y dyfodol yn y fantolen fel asedau cyfredol.

Rhestrir pob grant a gynigir yn yr atodiad i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

g. Gwasanaethau a nawdd

Cynnwys gwasanaethau a nawdd y costau uniongyrchol, gan gynnwys staff a dibrisiant, y gellir eu priodoli i weithgareddau elusennol.

h. Dyrannu costau gweithredu

Dyrannwyd hwy yn y lle cyntaf rhwng gweithgareddau elusennol a llywodraethu. Rhannwyd costau gweithredu sy'n gysylltiedig â gweithgareddau elusennol i adlewyrchu'r amser a dreulia'r staff wrth ddarparu gweithgareddau uniongyrchol a chefnogi eu darparu. Mae dyraniad a dadansoddiad y costau hyn yn nodyn 7, 8 a 9.

i. Costau llywodraethu

Mae costau llywodraethu yn cynnwys pob cost sy'n ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus y Cyngor fel elusen a'i gydymffurfiaeth â rheoleiddio ac arferion da. Dadansoddir y costau hyn yn nodyn 10.

j. Arian tramor

Trosir yn unol â'r gyfradd gyffredinol ar adeg y trafodyn arian refeniw a gafwyd a gwariant yr aed iddo mewn arian tramor. Trosir yn unol â'r gyfradd gyffredinol ar adeg dyddiad y fantolen unrhyw falansau a nodir mewn arian tramor. Trosir yn unol â chyfradd y contract drafodion a balansau a gwmpesir gan flaengontractau.

k. Cydnabod rhwymedigaethau

Cydnabyddir rhwymedigaethau pan gyfyd rhwymedigaeth i drosglwyddo buddiannau economaidd o ganlyniad i drafodion neu ddiwyddiadau yn y gorffennol.

l. Cyfrifyddu arian

Arian cyfyngedig yw'r hwn a ddefnyddir yn ôl cyfyngiadau penodol a orfodir gan roddwyr neu a wnawn am resymau penodol. Mae'r gost o godi a gweinyddu arian o'r fath wedi'i chodi ar y gronfa benodol. Nodir amcan a defnydd pob cronfa gyfyngedig yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Arian anghyfyngedig yw'r hwn sydd ar gael i'w ddefnyddio yn ôl ein disgrisiwn i hyrwyddo amcanion ein siarter ac na ddynodwyd at unrhyw ddibenion eraill.

Lle dyrennir costau cynnal i weithgareddau elusennol cyfyngedig trosglwyddir swm o'r arian anghyfyngedig i dalu'r costau hyn.

m. Asedau sefydlog

Perchnogwn ddau eiddo rhydd-ddaliadol (Theatr y Sherman a Stiwdio Ddawns Rubicon) a osodir ar brydlesau hir am rent rhad i denantiaid na chânt eu rheoli gennym a heb ddarpariaeth inni eu hailfeddiannu. Yn seiliedig ar gyngor gan syrfewyr siartredig allanol ac annibynnol, ystyrir bod gwerth gweddilliol y buddiannau rhydd-ddaliadol hyn yn fach iawn felly caiff yr asedau hyn eu dal yn y cyfrifon ar ddim gwerth.

Trinnir costau datblygu gwefan, yn unol â chrynodeb 29 o'r Tasglu Materion Brys yn asedau sefydlog diriaethol.

Trinnir trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol fel asedau sefydlog anniriaethol os cwmpasant fwy nag un flwyddyn.

Ac eithrio eiddo rhydd-ddaliadol, cynhwysir pob ased sefydlog diriaethol ac anniriaethol ar gost hanesyddol lai rhywfaint am ddibrisiant ac amorteiddiad. Yn ein barn nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng gwerth y llyfr ac un y farchnad.

n. Amorteiddiad a dibrisiant

Cyfalafir asedau unigol sy'n costio £1,000 ac yn ddrutach a rhoddir blwyddyn gyfan o ddibrisiant yn y flwyddyn gaffael. Darperir amorteiddiad ar asedau sefydlog anniriaethol a dibrisiant ar asedau sefydlog diriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost neu brisiant pob ased i'w gwerth gweddilliol ar sail llinell syth dros eu bywyd defnyddiol disgwylidig fel a ganlyn:

Trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol - dros 3 blynedd

Gwelliannau prydlesol - dros gyfnod y brydles
Celfi, gosodion a ffitiadau - dros 10 mlynedd
Offer - dros 4 mlynedd

Costau datblygu gwefan - dros 3 blynedd
System gyfrifiadurol - dros 3 blynedd

o. Prydlesi

Codir costau prydlesi gweithredol ar y datganiad gweithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros fywyd y brydles.

p. Pensiynau

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994 sy'n darparu buddiannau diffiniedig i'w weithwyr. Codir am gostau ein cyfraniadau ar y datganiad gweithgareddau ariannol fel y gellir rhannu cost pensiynau dros fywyd gwaith y gweithwyr.

Mae hefyd yn gynllun budd diffiniedig, cyflogwyr lluosog felly ni allwn nodi ein cyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig, yn unol â FRS17.

q. Trethiant

Codir Treth Ar Werth anadenilladwy a ddeillia o wariant ar weithgareddau nad ydynt yn rhai busnes ar y datganiad gweithgareddau ariannol neu caiff ei chyfalafu fel ased sefydlog lle y bo'n gymwys.

r. Incwm gohiriedig

Rhyddheir incwm a ohiriwyd mewn perthynas â chymelldaliad prydles gweithredol i'r datganiad o weithgareddau ariannol dros gyfnod o 5 mlynedd hyd at ddyddiad yr adolygiad cyntaf o'r rhent, yn unol â Chrynodeb 28 y Tasglu Materion Brys.

s. Offerynnau ariannol

Asedau ariannol: Nid yw dyledwyr masnachol yn cario unrhyw log a chânt eu nodi ar eu gwerth nominal fel y'u gostyngwyd gan lwfansau priodol ar gyfer symiau anadenilladwy amcangyfrifedig. Ystyr 'arian' yw arian mewn llaw ac arian yn y banc ar dermau dim rhybudd.

Rhwymedigaethau ariannol: Nid yw credydwyr masnachol yn cario llog a chânt eu nodi ar eu gwerth nominal.

2. Gweithgareddau cyffredinol a dosbarthu'r Loteri: adnoddau cyfunol sy'n dod i mewn a gwariant elusennol uniongyrchol ar y celfyddydau

Dengys cyfrif dosbarthu'r Loteri ar wahân mai cyfran 2012/13 y Cyngor o enillion y Loteri genedlaethol yw £19,355,000 (2011/12: £15,083,000). Ar gyfer 2012/13 £56,599,000 oedd cyfanswm cyfunol yr adnoddau a ddeuai i mewn o ran gweithgareddau cyffredinol a'r Loteri (2011/12: £51,793,000).

Codir grantiau cyffredinol ar y datganiad gweithgareddau ariannol cyn gynted ag y cânt eu cynnig. Codir grantiau'r Loteri dim ond pan fydd y cynnig ffurfiol wedi'i dderbyn gan y sawl a gaiff y grant. Er nad yw pob un yn cael ei godi'n wariant yn Natganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, yn 2012/13 cymeradwyodd y Cyngor grantiau'r Loteri o £11,958,000 (2011/12: £9,334,000). Ar y sail hon, ar gyfer 2012/13, cyfanswm cyfunol y gwariant elusennol uniongyrchol ar y celfyddydau i weithgareddau cyffredinol a'r Loteri oedd £50,055,000 (2011/12: £46,816,000).

3. Adnoddau a dderbyniwyd

Incwm gwirfoddol: Grant mewn cymorth oddi wrth Lywodraeth Cymru

Mae'r grant mewn cymorth a ddangosir yn y datganiad o weithgareddau ariannol yn gyson â'r swm o arian a roddwyd gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

	Arian Anghyfyngedig £'000	Arian Cyfyngedig £'000	2013 Cyfanswm £'000	2012 Cyfanswm £'000
Cymorth grant mewn arian a dalwyd yn llawn	29,657	4,590	34,247	34,728
Cymorth grant a gredwyd i adnoddau sy'n dod i mewn yn y datganiad gweithgareddau ariannol	29,657	4,590	34,247	34,728

4. Adnoddau a dderbyniwyd

Incwm gwirfoddol: Grantiau a rhoddion eraill

	Arian Anghyfyngedig £'000	Arian Cyfyngedig £'000	2013 Cyfanswm £'000	2012 Cyfanswm £'000
Grantiau o arian Ewrop	-	1,851	1,851	984
Legacy Trust UK	-	507	507	425
Grantiau o flynyddoedd blaenorol nad oes eu hangen bellach	51	-	51	1
Ymddiriedolaeth Stadiwm y Mileniwm (i'r Cynllun Hyrwyddwyr Ifainc)	-	-	-	6
	51	2,358	2,409	1,416

5. Adnoddau a dderbyniwyd

Gweithgareddau cynhyrchu arian: Gwasanaethau a nawdd

	Arian Anghyfyngedig £'000	Arian Cyfyngedig £'000	2013 Cyfanswm £'000	2012 Cyfanswm £'000
Cynllun teithio cymunedol:				
- cyfraniadau gan leoliadau/hyrwyddwyr	126	-	126	132
Celfyddydau Rhyngwladol Cymru:				
- cyfraniad gan y British Council	-	40	40	43
- cyfraniadau gan eraill	-	15	15	24
Taliadau'r <i>Cynllun Casglu</i>	24	-	24	28
Legacy Trust UK -				
ffioedd rheoli Olympiad Diwylliannol 2012:				
- cyfraniad gan Lywodraeth Cymru	-	33	33	29
Cynhadledd flynyddol - ffioedd cynadledwyr	4	-	4	-
Ffioedd am waith arddangos yn Nhŷ Gwydyr, Llundain	1	-	1	-
Symposiwm Marchnata'r Celfyddydau - ffioedd yr hyfforddeion	-	-	-	2
Cyfraniad tuag at gomisiwn y <i>Lludw</i>	-	-	10	
Cyfraniadau tuag at Biennale Fenis	-	-	4	
	179	88	267	293

6. Adnoddau a dderbyniwyd

Adnoddau eraill sy'n dod i mewn

	Arian Anghyfyngedig £'000	Arian Cyfyngedig £'000	2013 Cyfanswm £'000	2012 Cyfanswm £'000
Cymhelliant prydles - rhyddhau incwm a ohiriwyd (nodyn 15)	59	-	59	58
Cyfraniad o gyfrif Dosbarthu'r Loteri am ddefnyddio asedau sefydlog	41	-	41	51
Cyfran o incwm Cerdd Cymru:Music Wales (nodyn 21)	74	-	74	-
	174	-	174	109

7. Adnoddau a wariwyd

Gweithgareddau elusennol

	Gweithgareddau Uniongyrchol £'000	Costau Cefnogi £'000	2013 Cyfanswm £'000	2012 Cyfanswm £'000
Rhoi grantiau a datblygu'r celfyddydau ¹	30,113	300	30,413	31,271
Strategaeth ac ymchwil y celfyddydau	1,551	237	1,788	1,075
Rhyngwladol	500	109	609	929
Prosiectau a ariennir gan Ewrop	2,101	54	2,155	1,118
WOMEX 2013	-	-	-	79
Gwasanaethau: <i>Noson Allan a'r Cynllun Casglu</i>	595	75	670	674
Olympiad Diwylliannol 2012 a'r				
Legacy Trust UK	598	23	621	598
Eiriolaeth	241	30	271	319
Lleihad yn y buddsoddiad yn				
Cerdd Cymru:Music Wales (nodyn 21)	60	-	60	-
Cyfran o wariant Cerdd Cymru:Music Wales (nodyn 21)	91	-	91	-
	35,850	828	36,678	36,063

	2013 Cyfanswm £'000	2012 Cyfanswm £'000
--	---------------------------	---------------------------

¹ Gan gynnwys grantiau:

- i gyrff cyhoeddus

- i gyrff preifat

	4,535	4,575
	24,591	24,654
	29,126	29,229

Rhestrir pob grant a gynigir yn yr atodiad i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

8. Costau gweithredu

	2013		2012	
	Tynnu	Cost Net	Cost Net	
	Aildaliadau i	a Godir ar	a Godir ar	
	Ddosbarthu'r	Weithgareddau	Weithgareddau	
Costau gros	Loteri	Cyffredinol	Cyffredinol	
£'000	£'000	£'000	£'000	
A godir ar weithgareddau uniongyrchol (nodyn 7)				
Dyrannu grantiau a datblygu'r celfyddydau	456	251	205	368
Strategaeth ac ymchwil y celfyddydau	267	106	161	116
Rhyngwladol	75	-	75	70
Prosiectau a ariennir gan Ewrop	37	-	37	10
Gwasanaethau: <i>Noson Allan a'r Cynllun Casglu</i>	51	-	51	53
Olympiad Diwylliannol 2012 a'r				
Legacy Trust UK	16	-	16	30
Eiriolaeth	45	25	20	24
	947	382	565	671
A godir ar gostau cefnogi (nodyn 7)				
Costau cysylltiedig â staff	53	29	24	7
Adolygiad sefydliadol	20	10	10	26
Seilwaith	185	93	92	97
Costau rhedeg swyddfa	17	8	9	12
Ffioedd proffesiynol	56	41	15	10
TAW anadenilladwy	53	29	24	22
Amorteiddiad a dibrisiant	43	15	28	31
	427	225	202	205
Cyfanswm	1,374	607	767	876

9. Costau staff

a. Cynnwys cyfanswm costau staff:

	2013		2012	
	Tynnu	Cost Net	Cost Net	
	Aildaliadau i	a Godir ar	a Godir ar	
	Ddosbarthu'r	Weithgareddau	Weithgareddau	
Costau gros	Loteri	Cyffredinol	Cyffredinol	
£'000	£'000	£'000	£'000	
Cyflogau	2,629	739	1,890	1,886
Costau nawdd cymdeithasol	216	62	154	174
Costau pensiwn eraill	514	148	366	418
Costau diswyddiadau	17	1	16	301
Costau asiantaeth	5	2	3	10
	3,381	952	2,429	2,789

Ymgorfforir costau staff yn y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

A godir ar weithgareddau uniongyrchol (nodyn 7)

	Costau gros £'000	Tynnu Aildaliadau i Ddosbarthu'r Loteri £'000	2013 Cost Net a Godir ar Weithgareddau Cyffredinol £'000	2012 Cost Net a Godir ar Weithgareddau Cyffredinol £'000
Dyrannu grantiau a datblygu'r celfyddydau	1,031	389	642	1,160
Strategaeth ac ymchwil y celfyddydau	670	164	506	366
Rhyngwladol	234	-	234	222
Prosiectau a ariennir gan Ewrop	116	-	116	31
Gwasanaethau – <i>Noson Allan a'r Cynllun Casglu</i> Olympiad Diwylliannol 2012 a'r	160	-	160	166
Legacy Trust UK	49	-	49	95
Eiriolaeth	97	33	64	75
	2,357	586	1,771	2,115

A godir ar gostau cefnogi (nodyn 7)

Rheoli a rheoli mewnol	460	177	283	302
Cyllid	194	64	130	121
Technoleg gwybodaeth a chyfrifiadurol	121	41	80	71
Rheoli cyfleusterau	57	19	38	39
Adnoddau dynol	33	11	22	45
Cyfathrebu	110	37	73	66
	975	349	626	644

A godir ar Lywodraethu (nodyn 10)

Cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd	49	17	32	30
	3,381	952	2,429	2,789

Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)
a gyflogwyd ar gyfartaledd:

	Ar draws yr holl Gyngor Nifer	Ar Weithgareddau Dosbarthu'r Loteri Nifer	2013 Ar Weithgareddau Cyffredinol Nifer	2012 Ar Weithgareddau Cyffredinol Nifer
Ar weithgareddau elusennol: a godir yn uniongyrchol	14	-	14	22
Ar weithgareddau elusennol: a ailgodir	50	14	36	28
Yn cefnogi ein gweithgareddau elusennol	17	9	8	13
Staff asiantaeth	-	-	-	2
	81	23	58	65

	2013	2012
Ar 31 Mawrth y gydnabyddiaeth flynyddol ganolrifol (gyfwerth ag amser llawn am yr holl Gyngor) oedd:	£30,000	£30,000

Y gymhareb rhwng y gydnabyddiaeth flynyddol ganolrifol a chydabyddiaeth yr aelod o'r staff â'r cyflog uchaf (yn yr holl Gyngor) oedd:	1:3.12	1:3.12
---	--------	--------

Cynlluniau iawndal - pecynnau ymadael (yr holl Gyngor):

Band cost y pecyn ymadael	Nifer y diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt		Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost	
	2012/13	2011/12	2012/13	2011/12	2012/13	2011/12
<£9,999	-	2	-	4	-	6
£10,000 to £24,999	1	2	-	3	1	5
£25,000 to £49,999	-	3	-	1	-	4
£50,000 to £99,999	-	1	-	2	-	3
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael	1	8	-	10	1	18
Cyfanswm y gost (£'000)	16	236	-	230	16	466

Talwyd costau diswyddo'n unol â darpariaethau ein polisi diswyddo. Fel arfer talwn gostau ymadael pan ddaw'r gyflogaeth i ben ond darparwn amdanynt yn llawn ar yr adeg pan fo gwybodaeth ddigon manwl i'w wneud.

Sonia 'pob ymadawiad arall y cytunwyd yn ei gylch' am geisiadau am ddiswyddo lle, yn unol â pholisi diswyddo'r Cyngor, diflannodd swyddi'r gweithwyr yn y strwythur newydd neu fe'u llenwyd gan weithwyr eraill a ddiswyddid yn orfodol fel arall. Nid oes gwahaniaeth yn yr hawliadau talu rhwng gwirfoddolwyr a'r rhai a ddiswyddir yn orfodol.

b. Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gyfarwyddo gweithgareddau'r Cyngor. Dyma eu gwir daliadau:

Enw a swydd	Band taliadau ¹		2013	2012	2013	2013	2013	2013	
	£'000	£'000	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ag oed 65	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ag oed 65	Cyfanswm a gronnydd pensiwn yn oed 65 ar 31 Mawrth 2013 a chyfandaliad cysylltiedig	Arian ² Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian ar 31 Mawrth 2013	Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian ar 31 Mawrth 2013	Gwirioneddol ³ Cynnydd mewn gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb ag arian	
Nick Capaldi <i>Prif Weithredwr</i>	90-95	90-95	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 2.5-5	Pensiwn Cyfandaliad	5-10 5-20	55	77	20
David Alston <i>Cyfarwyddwr y Celfyddydau</i>	65-70	65-70	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 0-2.5	Pensiwn Cyfandaliad	5-10 15-20	83	104	19
Katherine Davies <i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu</i>	50-55	5-10 (Cyfwerth â llawn amser*: 50-55)	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 5-7.5	Pensiwn Cyfandaliad	15-20 50-55	189	243	49
Diane Hebb <i>Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgysylltu</i>	50-55	5-10 (Cyfwerth â llawn amser*: 50-55)	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 2.5-5	Pensiwn Cyfandaliad	5-10 25-30	97	129	29
Sian Tomos <i>Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio</i>	50-55	5-10 (Cyfwerth â llawn amser*: 50-55)	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 2.5-5	Pensiwn Cyfandaliad	10-15 35-40	158	190	27
Hywel Tudor <i>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau</i>	65-70	65-70	Pensiwn Cyfandaliad	0-2.5 0.2-5	Pensiwn Cyfandaliad	10-15 30-35	143	168	21

* Cyfwerth ag amser llawn

¹ **Taliadau** – ildiodd y Prif Weithredwr ei hawl i gael dyfarniad anghyfunol cysylltiedig â pherfformiad ar gyfer 2011/12. Nid oes gan y Cyfarwyddwyr eraill hawl i gael dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad.

² **Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb ag arian** - ystyr hwn yw gwerth Cyfalafol buddiannau'r cynllun pensiwn a gronnydd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd gan actiwari. Y buddiannau a brisir yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw pensiwn amodol a ddelir i'w priod sy'n daladwy o'r cynllun. Dyma daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnydd eisoes yn y cynllun blaenorol. Noda'r ffigurau pensiwn a ddangosir y buddiannau a gronnydd gan yr unigolyn ar ôl dod yn aelod llawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Cynnwys y ffigurau werth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall

a drosglwyddwyd gan yr unigolyn i Gynllun Ymdeol Cyngor Celfyddydau Cymru 1994. Cynhwysant unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol a gronnydd aelod drwy brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei draul ei hun. Cyfrifir hwn yn y canllawiau a'r fframwaith a bennir gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwariaid ac nid ystyria unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawli'r buddion pensiwn.

³ **Gwir gynnydd yng ngwerth trosglwyddo sy'n cyfateb ag arian** - adlewyrcha hwn y cynnydd a ariennir, i bob pwrpas, gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig sy'n seiliedig ar chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) a defnyddia ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau a diwedd y cyfnod ariannol.

Ar ôl diwygio Siarter Frenhinol y Cyngor a chyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau, ers 1 Ebrill 2004, telir y Cadeirydd am ei wasanaeth ond nid yw'n derbyn taliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn. Ni thelir Aelodau eraill y Cyngor, Aelodau o'r Pwyllgorau nac Ymgynghorwyr Cenedlaethol am eu gwasanaeth. Cynnwys costau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2012/13 swm crynswth o £9,801 (2011/12: £13,251) a ad-dalwyd i 12 (2011/12: 13) aelod o'r Cyngor.

Cynhwysai cyfanswm y gwir daliadau i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr:

	2013	2012
	£	£
Cadeirydd		
Cyflog	<u>43,810</u>	<u>43,810</u>
Prif Weithredwr		
Cyflog	93,380	93,380
Cyfraniad pensiwn y cyflogwr	<u>16,155</u>	<u>16,155</u>
	<u>109,535</u>	<u>109,535</u>

Costau teithio a chynhaliaeth a gafwyd ac a dalwyd wrth gyflawni busnes y Cyngor:

Cadeirydd	2,882	3,823
Prif Weithredwr	8,283	6,148

66.04% (2011/12: 62.5%) o daliadau'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd a godir yn y datganiadau ariannol hyn a chodir y gweddill ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri.

- c. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr yn aelodau o'n Cynllun Ymddeol 1994. Mae'r gronfa yn gynllun buddiant diffiniedig. Mae hefyd yn gynllun cyflogwyr lluosog felly ni allwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig, yn unol ag FRS17.

Cynhelir prisiad o'n Cynllun Ymddeol 1994 gan actiwariadaid annibynnol bob tair blynedd fel arfer. Ar 1 Ebrill 2011 y daeth y prisiad diweddaraf i rym sef un o 31 Mawrth 2010. Cyflwynodd y prisiad gyfraddau cyfrannu newydd inni o ran cronni buddion a lefel lleiafswm o daliadau blynyddol tuag at y diffyg hanesyddol yn y gwasanaeth ar raddfa a gynghorwyd gan actiwari'r cynllun. I gael gwared ar y diffyg, argymhellid yr actiwari oedd cynyddu cyfraniadau'r cyflogwr dros y 13 mlynedd nesaf o gymharu â'r naw mlynedd a ddefnyddiwyd gynt.

Gan dybio y byddai'r symiau a argymhellwyd yn cael eu talu i'r cynllun, roedd yr actiwari o'r farn y bydd adnoddau'r cynllun fel rheol yn debygol o fodloni holl rwymedigaethau'r cynllun wrth iddynt godi. Dyma'r prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd: y byddai pris chwyddiant yn 3.3% y flwyddyn; y byddai codiadau cyflog yn 3.3% y flwyddyn am y 5 mlynedd cyntaf a 4.8% wedyn; y byddai codiadau pensiwn yn 3.3% y flwyddyn ar ben pensiynau lleiafswm wedi'u gwarantu; y byddai codiadau pensiwn gohiriedig yn 3.3% y flwyddyn ar bensiynau a gronnwyd cyn Ebrill 2009 a 2.5% ar y rhai a gronnwyd ar ôl y dyddiad hwnnw a bod y ddau'n ddarostyngedig i ailbrisiadau statudol; y byddai cyfradd disgownt hanesyddol yn y gwasanaeth yn 5.7% y flwyddyn a chyfradd disgownt y dyfodol yn y gwasanaeth yn 5.7% y flwyddyn.

Cyfraniadau'r Cyngor a'i weithwyr oedd:

Ar gyfer staff sy'n ymuno â'r cynllun:	Y Cyngor		Gweithwyr	
	2013	2012	2013	2012
ar neu cyn 31 Awst 2006	19.3%	19.3%	1.5%	1.5%
o 1 Medi 2006 hyd 31 Mawrth 2010	17.3%	17.3%	3.5%	3.5%
ar neu cyn 1 Ebrill 2010	14.8%	14.8%	6.0%	6.0%

Cyfranna'r Cyngor 1.5% ychwanegol tuag at y diffyg; ond mae'n ddarostyngedig i daliad lleiafswmiol o £48,000 y flwyddyn.

Tâl y Cyngor hefyd gyflog pensiynadwy o 0.2% mewn perthynas â phob aelod sy'n cael yswiriant bywyd yn unig.

10. Adnoddau a wariwyd

Costau llywodraethu

	2013 Cyfanswm £'000	2012 Cyfanswm £'000
Cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd	32	30
Cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd - Archwilio	22	22
Sicrwydd ychwanegol	4	4
Addasiad ar gyfer ffi orgronnus yn y flwyddyn	-	(4)
Archwiliad mewnol	11	13
Cyfarfodydd y Cyngor, gan gynnwys costau teithio a chynhaliadaeth yr aelodau	7	14
Cyfarfodydd pwyllgor, gan gynnwys costau teithio a chynhaliadaeth	11	9
	87	88

11. Asedau sefydlog

a. Asedau sefydlog anniriaethol

	Trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol £'000
Cost ar 1 Ebrill 2012	571
Ychwanegiadau	3
Gwarediadau	-
Cost ar 31 Mawrth 2013	574
Amorteiddiad ar 1 Ebrill 2012	534
Tâl a godwyd am y flwyddyn	25
Gwarediadau	-
Amorteiddiad ar 31 Mawrth 2013	559
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2013	15
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2012	37

b. Asedau sefydlog diriaethol

	Newidiadau i eiddo prydles £'000	System gyfrifiadurol, dodrefn ac ati £'000	Gwefan £'000	Cyfanswm £'000
Cost ar 1 Ebrill 2012	243	615	40	898
Ychwanegiadau	-	52	24	76
Gwarediadau	(51)	(28)	-	(79)
Cost ar 31 Mawrth 2013	<u>192</u>	<u>639</u>	<u>64</u>	<u>895</u>
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2012	170	429	-	599
Tâl a godwyd am y flwyddyn	14	42	21	77
Gwarediadau	(51)	(25)	-	(76)
Dibrisiant ar 31 Mawrth 2013	<u>133</u>	<u>446</u>	<u>21</u>	<u>600</u>
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2013	<u>59</u>	<u>193</u>	<u>43</u>	<u>295</u>
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2012	<u>73</u>	<u>186</u>	<u>40</u>	<u>299</u>
			2013	2012
			£'000	£'000
Dyrannwyd amorteiddiad a dibrisiant a godwyd i weithgareddau elusennol fel a ganlyn (nodyn 7):				
Gweithgareddau uniongyrchol			74	102
Costau cefnogi			<u>28</u>	<u>31</u>
			<u>102</u>	<u>133</u>

c. Cynrychiola gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2013 asedau sefydlog a ddefnyddiwn i gefnogi ein gweithgareddau elusennol.

Perchnogwn ar ddau eiddo rhydd-ddaliadol (Theatr y Sherman a Stiwdio Ddawns Rubicon) a osodir ar brydlesau hir am rent rhad i denantiaid nas rheolwn a heb ddarpariaeth inni eu hailfeddiannu. Yn seiliedig ar gyngor gan syrfewyr siartredig allanol ac annibynnol, ystyrir bod gwerth gweddilliol y buddiannau rhydd-ddaliadol hyn yn fach iawn felly caiff yr asedau hyn eu dal yn y cyfrifon ar ddim gwerth.

Ni chynnwys gweithred prydles Theatr y Sherman yr is-orsaf drydanol yn y maes parcio. Eiddo Prifysgol Caerdydd yw hon a chyflenwa drydan i'r Theatr a rhai adeiladau sy'n eiddo i'r Brifysgol. Ymgwymerodd y sefydliad tenant ag adnewyddiad mawr yn 2011/12 a olygai adleoli'r is-orsaf. Cytunodd y Cyngor a'r Brifysgol gyfnewid darnau o dir heb gyfnewid arian. Rhoes y Brifysgol y darn gwreiddiol i'r Cyngor a roddwyd ar brydles i'r tenant gyda'i brydles bresennol a rhoes y Cyngor y darn ar gyfer y lleoliad newydd i'r Brifysgol.

Roedd y trosglwyddo tir yn ddarostyngedig i ddarpariaethau gwaredu Deddf Elusennol 1993, adran 36. A hwythau'n ymddiriedolwyr, ystyriai aelodau o'r Cyngor adroddiad ysgrifenedig tirlfesurydd cymwys, annibynnol ac ymfodlonasant mai telerau gwaredu'r tir oedd y rhai gorau y gellid eu cael yn rhesymol.

12. Grantiau a dalwyd ymlaen llaw

Mewn achosion eithriadol, sy'n gofyn am awdurdod y Prif Weithredwr, gwnawn daliadau ymlaen llaw cyn y flwyddyn y mae a wnelo'r grant â hi. Gwneir taliadau o'r fath dim ond lle dioddefai'r sefydliad a gaiff y taliad anawsterau ariannol am ei fod wedi gwneud, neu ar fin gwneud, taliadau yn ymwneud â gweithgareddau y cyllidebwyd ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol ddilynol a ystyriem wrth benderfynu ar y grant i'r flwyddyn honno.

	2013 £'000	2012 £'000
Taliadau mewn perthynas â grantiau ar gyfer y flwyddyn ddilynol	<u>516</u>	<u>469</u>

13. Dyledwyr a rhagdaliadau eraill (sy'n ddyledus mewn blwyddyn)

	2013 £'000	2012 £'000
--	---------------	---------------

a. Dadansoddiad yn ôl math

Benthyciadau'r <i>Cynllun Casglu</i>	315	389
Dyledwyr masnachol	55	58
Dyledwyr eraill	1,246	401
Rhagdaliadau	<u>623</u>	<u>284</u>
	2,239	1,132
Yn ddyledus o gronfa dosbarthu'r Loteri	41	398
Cyfran o ddyledwyr a rhagdaliadau		
Cerdd Cymru: Music Wales (nodyn 21)	1	-
	<u>2,281</u>	<u>1,530</u>

b. Balansau yn y llywodraeth

Balansau gyda chyrrff llywodraeth ganolog eraill	822	481
Balansau gydag awdurdodau lleol	<u>6</u>	<u>5</u>
<i>Is-gyfanswm</i> : Balansau yn y llywodraeth	828	486
Balansau gyda chyrrff y tu allan i'r llywodraeth	<u>1,453</u>	<u>1,044</u>
Cyfanswm dyledwyr a rhagdaliadau	<u>2,281</u>	<u>1,530</u>

14. Credydwy'r: symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn	2013	2012
	£'000	£'000
a. Dadansoddiad yn ôl math		
Grantiau taladwy	104	344
Trethiant a nawdd cymdeithasol	71	75
Credydwy'r masnachol	110	139
Credydwy'r eraill	62	70
Croniadau ac incwm gohiriedig	920	606
Cyfran o ymrwymedigaethau cyfredol Cerdd Cymru: Music Wales (nodyn 21)	32	-
Cymorth mewn grant 2012/13 a gafwyd ymlaen llaw ¹	-	5,800
	<u>1,299</u>	<u>7,034</u>
Yn ddyledus i gronfa dosbarthu'r Loteri	64	-
	<u>1,363</u>	<u>7,034</u>

¹ Anfonodd Llywodraeth Cymru randaliad cyntaf ein grant mewn cymorth 2012/13, swm o £5,800,000, ar 30 Mawrth 2012. Ni chydabwyd yr incwm hwn yn 2011/12 ond triniwyd ef yn flaenincwm.

b. Balansau yn y llywodraeth

Balansau gyda chyrff llywodraeth ganolog eraill	71	5,875
Balansau gydag awdurdodau lleol	3	8
<i>Is-gyfanswm:</i> Balansau yn y llywodraeth	<u>74</u>	<u>5,883</u>
Balansau gyda chyrff y tu allan i'r llywodraeth	1,289	1,151
Cyfanswm y credydwy'r	<u>1,363</u>	<u>7,034</u>

15. Credydwy'r: symiau sy'n ddyledus ar ôl yn hwy na blwyddyn

Incwm gohiriedig

Adleolasom ein swyddfa genedlaethol ym Mai 2009 a chawsom gymelldaliad ymlaen llaw gan y landlord, i helpu gyda'r dodrefnu, a oedd yn gyfwerth â lleihad tybiannol yn y rhent dyledus hyd at y dyddiad adolygu ar ddiwedd pumed flwyddyn y brydles. Yn Chwefror 2009 y cafwyd y cymelldaliad a ystyrir yn incwm gohiriedig. Rhyddheir ef i'r datganiad gweithgareddau ariannol ar sail pro rata dros bum mlynedd.

	2013	2012
	£'000	£'000
a. Dadansoddiad yn ôl math		
Incwm gohiriedig	-	49
	<u>-</u>	<u>49</u>
b. Balansau yn y llywodraeth		
Balansau yn y llywodraeth	-	-
Balansau gyda chyrff y tu allan i'r llywodraeth	-	49
Cyfanswm y credydwy'r	<u>-</u>	<u>49</u>

16. Datganiad cronfeydd

	Ar 1 Ebrill 2012 £'000	Adnoddau a dderbynnir £'000	Adnoddau a werir £'000	Trosglwydd- iadau £'000	Ar 31 Mawrth 2013 £'000
Arian anghyfyngedig					
Cronfa gyffredinol	2,791	30,078	(29,890)	(156)	2,823
Cyfanswm arian anghyfyngedig	2,791	30,078	(29,890)	(156)	2,823
Arian cyfyngedig					
Incwm					
Llywodraeth Cymru am weithgareddau celfyddydol penodol	-	4,590	(4,389)	99	300
Prosiectau a ariennir gan Ewrop	-	1,851	(1,894)	43	-
Celfyddydau Rhyngwladol Cymru: cyfraniadau gan The British Council a Llywodraeth Cymru	-	55	(56)	1	-
Olympiad Diwylliannol 2012 a'r Legacy Trust UK	-	540	(553)	13	-
	-	7,036	(6,892)	156	300
Cyfalaf					
Cronfa Goffa Alun Llywelyn Williams (incwm i ddarparu bwrsari i artist ifanc)	13	-	-	-	13
Cronfa Goffa Brian Ross (incwm i ddarparu bwrsari i artist gweledol ifanc)	99	-	-	-	99
	112	-	-	-	112
Cyfanswm arian cyfyngedig	112	7,036	(6,892)	156	412
Cyfanswm yr arian	2,903	37,114	(36,782)	-	3,235

Cynrychiolir cronfeydd coffa Alun Llywelyn Williams a Brian Ross gan arian yn y banc ac maent yn y cyfanswm o £1,491,000 a ddangosir ar y fantolen.

17. Dadansoddi asedau net rhwng cronfeydd

	Arian Anghyfyngedig £'000	Arian Cyfyngedig £'000	Cyfanswm £'000
Cynrychiolir balansau ar 31 Mawrth 2013 gan:			
Asedau sefydlog	310	-	310
Asedau cyfredol	3,876	412	4,288
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn	(1,363)	-	(1,363)
Cyfanswm yr asedau net	2,823	412	3,235

18. Gwybodaeth am lif arian

	2013 £'000	2012 £'000
a. Cysoni newidiadau mewn adnoddau a mewnlif net o weithgareddau gweithredu		
Adnoddau net i mewn	332	395
Llog banc	(17)	(15)
Amorteiddiad a dibrisiant (nodyn 11c)	102	133
Cynnydd mewn grantiau a dalwyd ymlaen llaw	(47)	(319)
Cynnydd mewn dyledwyr a rhagdaliadau	(754)	(32)
(Lleihad)/cynnydd mewn grantiau sy'n daladwy	(240)	245
(Lleihad)/cynnydd mewn credydwyr eraill sy'n ddyledus mewn blwyddyn	(5,431)	6,100
Lleihad mewn credydwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	(49)	(58)
Mewnlif (all-lif) arian net/ gan weithgareddau gweithredu	(6,101)	6,449
b. Dadansoddi llifau arian		
Gwariant Cyfalaf		
Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol (nodyn 11a)	(3)	(17)
Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol (nodyn 11b)	(76)	(54)
Colled o werthu asedau sefydlog diriaethol (nodyn 11b)	3	-
	(76)	(71)
c. Cysoni llif arian net â symudiadau mewn cronfeydd net		
Cynnydd/(Lleihad) mewn arian yn y flwyddyn ¹	(6,160)	6,393
Cronfeydd net ar 1 Ebrill	7,651	1,258
Arian net ar 31 Mawrth¹	1,491	7,651

¹ Anfonodd Llywodraeth Cymru randaliad cyntaf ein grant mewn cymorth 2012/13 - swm o £5,800,000 ar 30 Mawrth 2012. Ni chydabuwyd yr incwm hwn yn 2011/12 ond triniwyd ef yn flaenincwm.

19. Ymrwymadau o ran prydlesi gweithredol

Ar 31 Mawrth 2013 roedd gan y Cyngor ymrwymadau blynyddol dan brydlesi gweithredol nad oedd modd eu diddymu fel a ganlyn:

	Tir ac adeiladau		Offer	
	2013	2012	2013	2012
	£'000	£'000	£'000	£'000
Prydlesi gweithredol sy'n dod i ben				
mewn blwyddyn	-	37	1	1
un i bum mlynedd	25	25	5	4
dros bum mlynedd	206	189	-	-

20. Blaenymrwymadau

	2013	2012
	£'000	£'000
Grantiau		
Blaenariannu - grantiau a gynigiwyd yn ffurfiol	28,129	28,302

Cynrychiola ariannu ymlaen ar 31 Mawrth 2013 ddyraniadau i sefydliadau ac unigolion o ran prosiectau sydd ar gychwyn yn 2013/14 a lle disgwylir y gwneir taliadau mewn 12 mis.

21. Cerdd Cymru: Music Wales Cyf

Cwmni preifat cyfyngedig drwy warant a chofrestredig yng Nghymru yw Cerdd Cymru: Music Wales. Ymgorfforwyd ef ar 1 Medi 2011 yn gerbyd cydweithio â'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig ar brosiectau a ddatblyga ac a wella (yn genedlaethol a rhyngwladol) wybodaeth, dealltwriaeth, ymarfer a chynaliadwyedd y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, yn enwedig cerdd Cymru.

Mae'r Cyngor a Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig ar y cyd ac yn gyfartal yn berchen ar y cwmni a chyfrifyddir am y cyd-drefniant hwn nad yw'n endid yn unol ag FRS9.

Yn 2011/12 llwyddodd cais Cerdd Cymru: Music Wales am gynnal WOMEX y ffair gerddorol fasnachol, yng Nghaerdydd yn Hydref 2013.

Cynrychiola'r buddsoddiad yn Cerdd Cymru: Music Wales chwistrelliad o gyfalaf gweithio y cytunodd y Cyngor i'w roi. Oherwydd bod cyfran y Cyngor o'r asedau net a rennir yn llai na chost y buddsoddiad, lleihawyd gwerth y buddsoddiad yn unol â hyn.

	2013 £'000	2012 ¹ £'000
Ar 1 Ebrill	-	N/A
Ychwanegiadau	60	50
	<u>60</u>	<u>50</u>
Addasiad lleihau (nodyn 7)	(60)	(50)
Ar 31 Mawrth	<u>-</u>	<u>-</u>

Dyma fudd y Cyngor yn incwm, gwariant ac asedau ac ymrwymedigaethau sylfaenol Cerdd Cymru: Music Wales :

	2013		2012	
	Cyfanswm £'000	Cyfran Cyngor Celfyddydau Cymru £'000	Cyfanswm £'000	Cyfran Cyngor Celfyddydau Cymru £'000
Cyfrif elw a cholled				
Incwm (nodyn 6)	148	74	50	25
Gwariant (nodyn 7)	(182)	(91)	(50)	(25)
Adnoddau net a dderbyniwyd/(a dalwyd allan)	<u>(34)</u>	<u>(17)</u>	<u>-</u>	<u>-</u>
Datganiad o'r sefyllfa ariannol				
Asedau cyfredol:				
Dyledwyr a rhagdaliadau (nodyn 13)	2	1	-	-
Arian yn y banc ac mewn llaw	28	14	-	-
	<u>30</u>	<u>15</u>	<u>-</u>	<u>-</u>
Rhwymedigaethau cyfredol (nodyn 14)	(64)	(32)	-	-
Asedau/(rhwymedigaethau) net	<u>(34)</u>	<u>(17)</u>	<u>-</u>	<u>-</u>
Arian wrth gefn	<u>(34)</u>	<u>(17)</u>	<u>-</u>	<u>-</u>

¹ Bu newid bach yn y ffordd yr ymdriniwn â'n cyfran o'r incwm a'r gwariant o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ni chafwyd unrhyw newidiadau o bwys o'i herwydd felly ni wnaed unrhyw addasiad cyfnod blaenorol.

22. Offerynnau ariannol

Mynna Safon Adrodd Ariannol 13: Deilliadau ac Offerynnau Ariannol Eraill ddatgelu'r swyddogaeth a oedd gan offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y peryglon a wyneba'r Cyngor wrth ymgymryd â'i ddyletswyddau.

Peryglon hylifedd – yn 2012/13 daeth £34,247,000 neu 92.3% o incwm y Cyngor o Lywodraeth Cymru (2011/12: £34,728,000 neu 95%). O'r incwm sy'n weddill, deilliai £2,867,000 neu 7.7% o log banc ac incwm amrywiol (2011/12: £1,833,000 neu 5%). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei

weithgareddau cyffredinol yn agored i unrhyw berygl hylifedd sylweddol, ac mae'n fodlon bod incwm y dyfodol yn ddigon i gwrdd â'i ymrwymadau.

Peryglon cyfraddau llog – cedwir balansau a gaiff y Cyngor gan Lywodraeth Cymru i dalu ymrwymadau grant a chostau gweithredu, mewn cyfrifon banc cyfradd amrywiol dim rhybudd a oedd â chyfradd llog 0.5% ar gyfartaledd yn y flwyddyn (2011/12: 0.5%). Balans yr arian anghyfyngedig effeithiol ddiwedd y flwyddyn oedd £1,065,000 (2012: £1,739,000, er bod Llywodraeth Cymru wedi anfon atom randaliad cyntaf ein grant mewn cymorth 2012/13 - swm o £5,800,000 - ar 30 Mawrth 2012 ac felly ein gwir falans arian diwedd y flwyddyn anghyfyngedig oedd £7,539,000). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau cyffredinol yn agored i beryglon cyfradd llog sylweddol.

Perygl arian tramor - nid yw gweithgareddau cyffredinol y Cyngor yn agored i unrhyw beryglon cyfnewid arian tramor.

Perygl llif arian - nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw beryglon llif arian sylweddol.

23. Treth Gorfforaethol

Mae'r Cyngor yn gorff elusennol a noddir gan Lywodraeth Cymru ac felly mae'n cael ei eithrio rhag treth gorfforaethol dan Adran 505 o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988.

24. Digwyddiad ôl-fantolen

Awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyflwyno gan y Swyddog Cyfrifyddu ar yr un dyddiad ag yr ardstywyd iddynt gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

25. Trafodion â phartion cysylltiedig

Cyrff cyhoeddus

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r Cyngor.

Ystyrir Cynulliad Cenedlaethol Cymru/Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn y flwyddyn ni chynhaliodd y Cyngor drafodion perthnasol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru/Llywodraeth Cymru ar wahân i'r grant mewn cymorth a ddatgelwyd yn y datganiad gweithgareddau ariannol.

Unigolion

Cynhaliodd aelodau o'r Cyngor, staff rheoli allweddol a phartion cysylltiedig eraill (sef perthnasau agos) drafodion ariannol perthnasol (a restrwyd isod) gyda'r Cyngor y llynedd. Cofnodir trafodion â'r Cyngor yn ddosbarthwr y Loteri yn y nodyn cyfatebol i gyfrifon dosbarthu'r Loteri sydd ar wahân.

Aelodau o'r Cyngor

Roedd nifer o aelodau o'r Cyngor a/neu berthnasau agos yn aelodau o fyrddau rheoli (neu fyrddau cyfatebol) neu'n uwch weithwyr mewn sefydliadau a gafodd gynnig grantiau neu daliadau eraill gan y Cyngor yn 2012/13. Mewn achosion o'r fath, yn unol â Chod Arfer Gorau'r Cyngor, tynnodd yr aelod dan sylw yn ôl o unrhyw gyfarfod pan drafodid y cais.

Aelod Swyddogaeth	Sefydliad	Nifer y trafodyn	Cyfanswm y gwerth £	Cyfanswm y balans sy'n weddill ar 31 Mawrth 2013 £
Michael Griffiths Aelod o'r Bwrdd	Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru	Grant (1)	875,000	Dim
Margaret Jervis Cyfarwyddwr	Plant y Cymoedd	Grant (1)	122,000	Dim
Osi Rhys Osmond Gweithiwr	Prifysgol Fetropolitan Abertawe	Anfoneb (3)	174,478	Dim
Richard Turner Cadeirydd	Celfyddydau Cymunedol Rhyngddiwylliannol De Cymru	Grant (1)	90,000	Dim
Ymgynghorydd busnes	Canolfan Hanes a'r Celfyddydau, Trefiwt	Grant (1)	23,000	Dim
Alan Watkin Aelod o'r Bwrdd	Clwyd Theatr Cymru	Grantiau (2)	1,877,850	Dim
Gerwyn Williams Gweithiwr	Prifysgol Bangor	Grant (1)	105,000	Dim
John C Williams Gweithiwr	Theatr lolo	Grant (1)	246,225	Dim
Dr Kate Woodward Cyflogaeth (aelod o'r teulu)	Theatr Genedlaethol Cymru	Grantiau (2) Anfoneb (5)	1,053,242 3,660	Dim Dim
Hunangyflogaeth (aelod o'r teulu)	Band Steve Eaves	Anfoneb (2)	800	Dim
Aelod o'r bwrdd (aelod o'r teulu)	Cynulleidfaoedd Cymru	Anfoneb (5)	74,808	Dim

Staff rheoli allweddol

Y llynedd nid oedd gan staff rheoli allweddol na pherthnasau agos iddynt gysylltiadau â sefydliadau y cynhaliodd y Cyngor drafodion ariannol perthnasol â hwy.



Soundwalk yn Llangors (gweithdai cerddorol digidol gyda'r cymhwysiad FEED a ddatblygwyd gan Gelf ar y Blaen)
Rhan o'r prosiect Hanes a Dirgelwch ym Merthyr

Atodiad i'r Adroddiad Blynyddol (nad ydynt yn rhan o'r datganiadau ariannol)

Gweithgareddau Cyffredinol - Grantiau 2012/13

Refeniw Blynyddol

Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth	£560,000
Arad Goch	£378,250
Gwobr Artes Mundi Cyf	£147,500
Gofal Celf Cyf	£132,500
Cyswllt Celf	£65,000
Celfyddydau Anabledd Cymru	£170,000
Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC	£844,525
Canolfan Gerdd William Mathias Cyf	£80,000
Chapter (Caerdydd) Cyf	£686,000
Clwyd Theatr Cymru	£1,645,000
Theatr i Bobl Ifainc Clwyd Theatr Cymru	£232,850
Cerdd Gymunedol Cymru	£105,000
g39	£70,000
Galeri Caernarfon Cyf	£325,000
Cwmni'r Frân Wen	£182,075
Dawns i Bawb	£85,000
Dawns TAN Cyf	£90,000
Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru	£875,000
Dawns Earthfall Cyf	£245,000
Ffotogallery	£205,000
Oriel Gelf Glynn Vivian	£125,000
Theatr y Grand, Abertawe	£73,000
Ballet Cymru	£200,000
Celf ar y Blaen	£150,000
Theatr Hijinx	£160,000
Live Music NOW Cymru	£45,000
Canolfan y Celfyddydau, Llantarnam Grange	£85,000
Opera Canolbarth Cymru	£104,000
Oriel Mission	£95,000
Music Theatre Wales	£225,000
National Theatre Wales	£1,685,000
Syrca Gymunedol NoFit State Cyf	£200,000
Dawns Gogledd Ddwyrain Cymru	£75,287
Oriel Davies	£230,000
Oriel Davies – ar gyfer Cymru yn Fenis	£106,600
Oriel Mostyn	£400,000
Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin	£47,000
Canolfan Gelfyddydau, Pontardawe	£63,000
Dawns Powys	£112,250
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	£155,000
Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf	£205,500

Glan yr Afon	£125,000
Dawns Rubicon	£200,000
Canolfan Grefft Rhuthun	£400,000
Sherman Cymru	£1,325,000
Sinfonia Cymru	£115,000
Celfyddydau Cymunedol Rhyngddiwylliannol De Cymru	£90,000
Neuadd Dewi Sant	£65,000
Canolfan y Celfyddydau, Taliesin	£226,000
Theatr Bara Caws	£287,556
Theatr Brycheiniog	£230,000
Theatr Felin-fach	£60,000
Theatr Genedlaethol Cymru	£1,052,942
Venue Cymru	£78,000
Hafren	£106,680
Theatr Iolo	£246,225
Theatr Mwldan	£245,000
Theatr na n'Óg	£324,850
Theatr Ffynnon	£75,000
Cwmni Theatr y Torch Cyfyngedig	£460,000
Ymddiriedolaeth Touch Cyf	£150,000
trac – Traddodiadau Cerdd Cymru:Music Wales	£80,000
Canolfan Ucheldre	£75,000
Celfyddydau Cymunedol Cwm a Bro Cyf	£180,000
Plant y Cymoedd	£122,000
Cwmni Theatr Volcano Cyf	£215,000
Canolfan Mileniwm Cymru	£4,000,000
Tŷ Cerdd	£328,000
Opera Cenedlaethol Cymru	£4,755,808
CBAC Cyf	£250,000
Llenyddiaeth Cymru	£851,915

£28,385,313

Camau Creadigol

Mardi Gras Caerdydd/Cymru i Lesbiaid, Hoywon, Deurywolion a Thrawsrwyolion	£12,150
Cave-Berry, Joolz	£19,404
Legall, Kyle	£23,710
Gweriniaeth y Dychmyg	£1,000
White, David (2 grant)	£25,800
Williams, Liara	£40,350

£122,414

Dylan Thomas 100

Llenyddiaeth Cymru	£30,000
	<hr/>
	£30,000
	<hr/>

Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol

Alencar, Tete de	£350
Arad Goch	£2,113
Celfyddydau Anabledd Cymru	£2,268
Ashill, Kathryn	£1,220
Atkinson, Tiffany	£1,762
Awst, Manon	£1,700
Ayscough, Duncan	£2,164
Ball, Dave	£1,147
Barnes, David (2 grant)	£1,840
Bonada, Marja (2 grant)	£5,648
Britton, David	£1,490
Calan	£1,520
Collins, Emilie	£556
Cook, Matthew	£2,250
Crawshaw, Daniel	£3,000
Creative Assault Art Production Organisation	£540
Davey, Holly	£3,000
Davies, Tim	£2,994
Davis, Eleanor	£1,500
Davies, Rose	£1,120
Dawns Earthfall Cyf	£3,000
Edwards, Fred Langford	£2,865
Edwards, Sean	£3,000
Ffotogallery	£3,000
Cymdeithas Gelfyddydol Abergwaun	£2,750
Foulkes, Lauren	£2,300
Gibbard, Gwenan	£1,685
Gilhespy, Tom	£446
Oriel Gelf Glynn Vivian	£2,382
Goodfellow, Ann	£1,330
Granjon, Paul	£1,633
Greenhalgh, Jill	£2,954
Harris, Alan (2 grant)	£2,762
Hillard, Ainsley	£700
Huws, Sioned	£3,000
Ingham, Karen	£2,000

Gŵyl Gerameg Ryngwladol	£2,980
Johnson, Justine	£600
Joyner, Siriol	£1,135
Theatr y Goleudy Cyf	£3,000
Macklin, Judy	£3,000
McNairn-Yanagi, Saya	£2,017
Moore, James	£2,884
National Theatre Wales	£3,000
Syrkas Gymunedol NoFit State Cyf	£1,000
Norris, Linda	£3,000
The Original Pint Place	£1,600
Penrhyn-Jones, Sara	£3,000
Perry, Samuel	£3,000
Phillips, Ian	£3,000
Roberts, Osian	£2,470
Skoulding, Zoe	£600
Theatr Genedlaethol Cymru	£300
Tinnemans, Jobina	£2,373
Trezise, Rachel	£1,059
Tyson, James	£1,250
Cynyrchiadau James Tyson	£1,050
Cynyrchiadau UCAN	£1,759
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	£900
Celfyddydau Cymunedol Cwm a Bro Cyf	£1,813
Theatre Versus Oppression	£3,000
Cwmni Theatr Volcano Cyf	£2,700
Wales Arts Review	£1,979
Williams, Sue	£1,000
Williams, Lois	£1,805
Zarrilli, Phillip	£2,700

£133,963

Grantiau strategol


Prifysgol Bangor	£105,000
Cymdogion Celtaidd	£10,000
Cymdeithas Ddrama Cymru	£5,000
Ffotogallery	£25,000
Gŵyl Llenyddiaeth a'r Celfyddydau, y Gelli Cyf	£60,000
Canolfan y Celfyddydau, Llantarnam Grange	£4,450
National Theatre Wales	£20,000
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (2 grant)	£83,640
Theatr Brycheiniog	£49,646
	<hr/>
	£362,736

Gweinyddwyd ar ran Llywodraeth Cymru

Gwobr Artes Mundi Cyf	£25,000
Digwyddiadau Conwy, Cwmni Buddiannau Cymunedol	£30,000
Cwmni Theatr Volcano Cyf (2 grant)	£36,500
	<hr/>
	£91,500

Cyfanswm y grantiau gynigiwyd	£29,125,926
--------------------------------------	--------------------

Grantiau yn ôl Math



Beth a gefnogodd ein grantiau?

	Gwerth y grantiau		Nifer y grantiau
Grantiau i gefnogi:			
Theatrau a chanolfannau'r celfyddydau	£7,117,680	24.44%	17
Cynhyrchu a chyflwyno theatr	£6,830,498	23.45%	9
Opera	£5,084,808	17.46%	3
Y celfyddydau gweledol a chymwys	£1,911,100	6.56%	11
Dawns	£1,882,537	6.46%	8
Y celfyddydau a phobl ifainc	£1,614,250	5.54%	6
Cerddoriaeth	£1,492,525	5.12%	6
Y celfyddydau cymunedol	£1,095,000	3.76%	9
Llenyddiaeth	£851,915	2.92%	1
SyrCAS a charnifal	£290,000	1%	2
Celfyddydau anabled	£170,000	0.58%	1
Y celfyddydau ac iechyd	£150,000	0.52%	1
Cyfleoedd rhyngwladol	£133,963	0.46%	69
Rhaglen Camau Creadigol	£122,414	0.42%	7
Dylan Thomas 100	£30,000	0.1%	1
Grantiau eraill:			
Grantiau strategol	£257,736	0.88%	9
Gweinyddwyd ar ran Llywodraeth Cymru	£91,500	0.31%	4
	£29,125,926		164

Cyfrif Dosbarthu'r Loteri

Cynnwys

Adroddiad Blynyddol:

- Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr 82
- Adroddiad Amgylcheddol 113
- Adroddiad ar Gynabyddiaeth Ariannol 117
- Datganiad Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu 121
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol 122

Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd ac Aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru 130

Datganiadau ariannol:

- Datganiad o incwm cynhwysfawr net 132
- Datganiad o sefyllfa ariannol 133
- Datganiad o lifau arian 134
- Datganiad o newidiadau mewn ecwiti 134
- Nodiadau sy'n rhan o'r datganiadau ariannol 135

Atodiadau i'r Adroddiad Blynyddol (nad ydynt yn rhan o'r datganiadau ariannol):

- Cyfarwyddiadau Polisi'r Loteri 146
- Grantiau a gynigiwyd 149

Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013
Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Manylion cyfeirio a gweinyddol

Ymddiriedolwyr

Aelodau o'r Cyngor a wasanaethodd er 1 Ebrill 2012:

		Mynychu cyfarfodydd yn 2012/13			
		Y Cyngor	Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Cyfalaf	Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
		Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd:			
		6	5	4	1
Yr Athro Dai Smith, Cadeirydd	(c)	6			Cadeirydd Pwyllgor 1
Dr Kate Woodward, Is-gadeirydd	(d)	3			
Emma Evans	(a)	2	Cadeirydd Pwyllgor 4		
Dr John Geraint	(c)	4			1
Michael Griffiths OBE		6			
Melanie Hawthorne		6			
Dr Lesley Hodgson		5			
Margaret Jervis MBE DL	(c) (v)	5			1
Marian Wyn Jones	(i) (iii)	5			
Andrew Miller		5			
Osi Rhys Osmond	(d)	5			
Richard Turner	(ii) (iv)	5			
Alan Watkin	(a)	5	5		
Yr Athro Gerwyn Williams	(b)	5		Cadeirydd Pwyllgor 4	
John C Williams	(a) (b)	6	3	4	

Mynychu cyfarfodydd yn 2012/13					
Y Cyngor	Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Cyfalaf	Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol		
Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd:					
6	5	4	1		
<i>Mynychu aelodau annibynnol o'r pwyllgorau:</i>					
Gareth Jones	(a)		3		
Phillip Westwood	(a)		5		
Jonathan Adams	(b)			3	
Mark Davies (a benodwyd ym Mawrth 2013)	(b)			1/1	
Roland Wyn Evans (a benodwyd ym Mawrth 2013)	(b)			0/1	
Janet Roberts	(b)			1	
Bethan Guilfoyle CBE	(c)				1

- (a) Aelod o'r Pwyllgor Archwilio
- (b) Aelod o'r Pwyllgor Cyfalaf
- (c) Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
- (d) Aelod o Bwyllgor Cymru yn Fenis

Am ran o leiaf o gyfnod yr adroddiad hwn hefyd, gwasanaethai aelodau o'r Cyngor (gyda rhifau mewn cromfachau ar ôl eu henwau yn y rhestr uchod) yn aelodau neu'n uwch gweithwyr o'r cyrff cyhoeddus canlynol:

- (i) Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- (ii) Cyngor Sir Fynwy
- (iii) S4C
- (iv) Prifysgol Cymru
- (v) Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Prif Weithredwr

Nicholas Capaldi

Swyddfeydd

*Rhanbarth y Canolbarth
a'r Gorllewin:*

4-6 Gardd Llydaw
Lôn Jackson
Caerfyrddin
SA31 1QD

Rhanbarth y Gogledd:

Parc y Tywysog II
Rhodfa'r Tywysog
Bae Colwyn
LL29 8PL

*Rhanbarth y De a'r
swyddfa cenedlaethol:*

Plas Bute
Caerdydd
LL29 8PL
CF10 5AL

Archwilydd

Rheolwr ac Archwilydd
Cyffredinol
157-197 Buckingham
Palace Road
Llundain
SW1W 9SP

Archwilwyr mewnol

Partneriaeth Atebolrwydd
Cyfyngedig Deloitte
5 Sgwâr Callaghan
Caerdydd
CF10 5BT

Cyfreithwyr

Partneriaeth Atebolrwydd
Cyfyngedig Geldards
Tŷ Dumfries
Plas Dumfries
Caerdydd
CF10 3ZF

Bancwyr

Y Banc Cydweithredol
16-17 Stryd Fawr
Caerdydd
CF10 1AX

Strwythur, llywodraethu a rheoli

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r Cyngor. Nid yw gweithgareddau'r Cyngor i ddsbarthu'r Loteri yn swyddogaeth ddatganoledig felly y gosodir y datganiadau ariannol hyn gerbron y Senedd a'r Cynulliad, ac archwilir hwy gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol dan adran 35 o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd).

Gweinidogion Cymru sy'n penodi aelodau o'r Cyngor a wasanaetha fel arfer am dair blynedd ond gellir eu hailbenodi am dair blynedd pellach. Yn y cyfnod dan sylw ymglyfarfu'r Cyngor chwe gwaith.

Cyfnod sefydlu a hyfforddi'r aelodau

Cynhelir rhaglen sefydlu i aelodau newydd i'w briffio am eu rhwymedigaethau cyfreithiol dan y Siarter Frenhinol a chyfraith elusen, cod yr arfer gorau, prosesau'r pwyllgorau a phenderfynu, cynlluniau strategol a materion ariannu. Yn ystod y diwrnod cânt gyflwyniadau gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau. Cânt hefyd gyfle i gwrdd â gweithwyr allweddol. Yn ogystal â'r Siarter Frenhinol a'r Cod Arfer Gorau, caiff Aelodau gopïau o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon diweddaraf, y Gyllideb Waith bresennol a chyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau, 'The Essential Trustee' a'r 'Independence of Charities from the State'. Trefnir seminarau a hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen i lywio'r broses o lunio strategaethau a pholisïau.

Bydd aelodau o'r Cyngor yn gyfrifol am faterion megis penderfynu ar bolisïau, y cynlluniau corfforaethol a gweithredol, pennu'r gyllideb flynyddol, dyrannu grantiau blynyddol i sefydliadau refeniw a newidiadau mawr i delerau ac amodau gwasanaeth y staff.

Mae manylion strwythur, atebolrwydd, fframwaith rheolaeth fewnol a threfniadau

rheoli perygl y Cyngor yn y datganiad llywodraethu blynyddol sydd yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyfrifyddu ar wahân am ei weithgareddau cyffredinol a dosbarthu'r Loteri. Dan Gyfarwyddiadau Cyfrifon ar wahân mae'r driniaeth gyfrifyddu a gaiff grantiau cyffredinol a grantiau'r Loteri yn wahanol iawn. Felly, gan ystyried paragraff 359 o Ddatganiad Arfer a Argymhellir y Comisiwn Elusennau (a ddiwygiwyd 2005), ym marn yr ymddiriedolwyr mae'n amhriodol paratoi cyfrif cyfunol gan na roddai ddarlun gwir a theg o'r ffordd y defnyddia'r Cyngor ei adnoddau.

Dosbarthu arian y Loteri

Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd) a sefydlodd y Loteri Genedlaethol i godi arian i gefnogi achosion da yn "y celfyddydau, chwaraeon, prosiectau treftadaeth cenedlaethol, prosiectau elusennol a phrosiectau i nodi'r mileniwm". Y Cyngor yw un o'r cyrff sy'n gyfrifol am ddsbarthu'r arian hwn.

Dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiad cyfrifon ar gyfer ei weithgareddau dosbarthu'r Loteri ar ffurf ac ar sail a bennir gan Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Yn ôl Cyfarwyddyd Cyfrifon y Loteri Genedlaethol rhaid ariannu o incwm y Loteri yr holl gostau y gellir yn gywir eu priodoli i weithgareddau'r Loteri Genedlaethol. Rhaid i'r Cyngor ystyried ei weithgareddau cyffredinol ar wahân.

O gofio'r ansicrwydd am lefel ariannu'r Loteri yn y dyfodol yn y cyfnod cyn Gemau 2012, ataliwyd y rhaglen gyfalaf i brif grantiau o Ebrill 2007 tan Fawrth 2012. Ond roedd y Cyngor yn ymrwymedig i barhau i reoli a chyflawni'r prosiectau ar waith a'r rhai a gofrestrwyd yn barod ar gyfer ariannu strategol felly roedd

dyraniad cyllidebol priodol ar gael drwy'r cyfnod. Ymgynghorasom ar Strategaeth Gyfalaf newydd a weithredir ers Gorffennaf 2012.

Cynghora'r Pwyllgor Cyfalaf y Cyngor ar y gwaith o ddatblygu polisiau ar ddatblygu Cyfalaf ac yn gwneud argymhellion ynglŷn â cheisiadau unigol am grantiau Cyfalaf. Cyflogwyd aseswyr allanol annibynnol i gynghori ar bob cais i'r Loteri am gyfalaf o £100,000 neu fwy. Y Cyngor sy'n penderfynu'n derfynol ynglŷn â rhoi grantiau Cyfalaf dros £250,000.

Dirprwyodd y Cyngor ei waith dyfarnu grantiau i wneud ffilmiau i Asiantaeth Ffilm Cymru. Nodwyd telerau'r dirprwyo allanol mewn cytundeb ffurfiol gyda'r Asiantaeth a bodlonant amodau datganiad gofynion ariannol y Cyngor.

Amcanion, gweithgareddau, cyflawniadau a pherfformiad er budd y cyhoedd

Amcanion Siartredig y Cyngor yw:

- (a) datblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer y celfyddydau;
- (b) gwneud y celfyddydau'n fwy hygyrch i'r cyhoedd:
- (c) cynghori Llywodraeth Cymru, Adrannau ein Llywodraeth, awdurdodau lleol, Cynghorau Celfyddydau'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr a chyrrff eraill a chydweithredu â hwy ar unrhyw faterion cysylltiedig, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â'r amcanion blaenorol;
- (d) cyflawni ein hamcanion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Prif ddiben y Cyngor yw cefnogi a datblygu celfyddydau Cymru er budd ei holl bobl ledled y wlad. Yn y rhan fwyaf o achosion cais y Cyngor gyflawni'r diben hwn drwy lunio strategaethau celfyddydol, ymchwil, a rhoi grantiau rheolaidd ac untro i sefydliadau ac unigolion mewn cyd-destun strategol a datblygiadol. Cefnogir y prosesau rhoi grantiau gan fonitro ac asesu i sicrhau y defnyddir arian cyhoeddus yn effeithiol at y dibenion a nodwyd. Rheola'r Cyngor hefyd ystod o weithgareddau a gwasanaethau lle nad yw grantiau'n rhan ohonynt, yn aml mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac eraill.

Prif amcanion y flwyddyn

Mae blaenoriaethau strategol y Cyngor ar gyfer 2012/13 yn y tabl isod yn ôl themâu ein cynllun corfforaethol, ochr yn ochr â'r cyflawniadau allweddol, perthnasol yn ôl targed gweithredol y llynedd:

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
<p>Cefnogi creu celfyddyd wych</p> <p>Cefnogwn artistiaid a sefydliadau sy'n arddangos y safonau uchaf o ran dychymyg, gallu ac arbenigedd.</p> <p>Yn gyfnewid, disgwylwn iddynt ymdrechu i greu gwaith o safon sy'n cyrraedd a chynyddu cynulleidfaoedd ac ymgysylltu â hwy.</p> <p>Gallwn wedyn dynnu sylw at ystod o weithgarwch celfyddydol o safon a ysbrydola eraill.</p>		
<p>Erbyn 2013 buddsoddwn mewn portffolio o sefydliadau a ariannwn sydd mewn sefyllfa well i lwyddo'n artistig ac ariannol</p>	<ul style="list-style-type: none"> Llunio strategaeth newydd ar gyfer y celfyddydau (olynydd ein Strategaeth ffurfiau ar gelfyddyd bresennol a'n Strategaeth Ryngwladol ar y cyd â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru). 	<ul style="list-style-type: none"> Ym mis Hydref cymeradwyodd y Cyngor gylch gorchwyl ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau. Pwysleisiodd y Cylch Gorchwyl ymgynghori'n eang â'n rhanddeiliaid, artistiaid a sefydliadau yn rhan o ddatblygu ein Strategaeth Gelfyddydol i 2013/18. Ymgynghorwyd mewn pedair sesiwn Sgwrs Gelfyddydol a gynhaliwyd yn Llandudno, Aberystwyth, Abertyleri a Chaerdydd a chynhyrchwyd dros 70 o drafodaethau drwy gyfrwng Lle Agored. <p>Mae ffrwyth y trafodaethau erbyn hyn ar lein a chynllunnir cyfres arall ohonynt yn Ebrill/Mai 2013.</p> <p>Bwriedir cyhoeddi'r strategaeth newydd, Creadigrwydd a'r Celfyddydau, ym Medi 2013.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu effaith gweithredu'r rhaglenni/strategaethau ariannu newydd (gwyliau, teithio cenedlaethol, datblygu theatrau, celfyddyd gyhoeddus, cronfa datblygu'r diwydiant cerddoriaeth) 	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddwyd ar ein gwefan ddata ein harolwg y llynedd o'n sefydliadau refeniw. Rhydd hyn lawer o'r waelodlin wybodaeth sydd ei hangen i adolygu effaith y rhaglenni ariannu newydd. <p>Ond mae eisiau rhagor o amser i buro'r data ac ymgymryd â'r asesiad o'r effaith. Bwriedir gwneud y gwaith hwn yn gynnar yn 2013/14.</p>

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
	<ul style="list-style-type: none"> Comisiynu arolwg boddhad y cyhoedd ar y celfyddydau a hyrwyddir gan y sefydliadau refeniw 	<ul style="list-style-type: none"> Golygai pwysau gwaith arall – a blaenoriaethau ychwanegol – na chyflwynasom y targed hwn yn 2012/13. <p>Yn y dyfodol, hoffem ailystyried rhesymeg yr arolwg ac archwilio a fyddai'n well cael arolwg boddhad y cyhoedd ehangach ei ddiffiniad yn 2013/14. Mae'n annhebyg yr ystyriwn bortffolio'r sefydliadau refeniw'n unig.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Cydweithio â'n sefydliadau refeniw i'w cefnogi yn eu hymdrechion i gynyddu cynulleidfaoedd, cyfnewid gwybodaeth a rhannu'r ymarfer gorau 	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddwyd yr arolwg o'r sefydliadau refeniw ar ein gwefan yn Ionawr 2013. Darlun cadarnhaol a ddaw o'i ganfyddiadau allweddol gyda chynnydd dros un filiwn mewn mynychuadau ar draws y sefydliadau refeniw a chynnydd incwm a gynhyrchir i sefydliadau lleoliad. <p>Cyhoeddir Adroddiadau Cyfarfod Adolygu Blynnyddol y sefydliadau refeniw i 2011/12 ar ein gwefan i bawb ond un ohonynt. Cyhoeddir adroddiadau 2012/13 erbyn Gorffennaf 2013.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Cael rhagor o gydnabyddiaeth ryngwladol i artistiaid a sefydliadau Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Cadw ein prosiectau allweddol cyfredol – Cymru yn Fenis a WOMEX 13 - at yr amserlen a'r cynllun. <p>Cydweithio â'r British Council dan ein cytundeb partneriaeth gan ganolbwyntio ar arddangos yng Nghaeredin (Awst 2013).</p> <p>Pery hefyd rhaglen lawn y gronfa cyfleoedd rhyngwladol. Estynnwyd prosiect Cadwyn yr Awduron yn India i gynnwys cerddorion hefyd.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu partneriaeth darparu prosiectau newydd i Gymru yn Fenis 2013 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawnwyd y cam gweithredu hwn. Sefydlwyd y prosiect partner newydd drwy gydweithio â rhwydwaith Oriolau Gweledol Cymru o orielau a sefydliadau i'r

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
		<p>celfyddydau gweledol. Dewiswyd y cynnig o gydbartneriaeth Mostyn ac Oriel Davies yn brosiect Cymru i'r Biennale.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau monitro'n genedlaethol ansawdd ein sefydliadau refeniw 	<ul style="list-style-type: none"> Effeithiai gweithredu ein hAdolygiad Sefydliadol ac adolygu a recriwtio ein hymgyngorwyr cenedlaethol yn Chwarteri 2 a 3 ar gyflawni'r targed hwn. <p>Addasom y targed iddo fod yn fesur mwy realistig. Ond dengys ffigyrau diwedd y flwyddyn inni gyflawni 168 o Adroddiadau Gwerthuso Ansawdd o'n sefydliadau refeniw, yn erbyn targed diwygiedig o 213.</p> <p>Rhaid i'r gwaith dilynol a ddigwydd yn awr yn sgil y Cyfarfodydd Adolygu Blynyddol archwilio'r rhesymau am y tangyflawni hwn.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi mintai gadarn o artistiaid drwy Ddyfarniadau Cymru Greadigol 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawnwyd hyn. Yn gynharach yn y flwyddyn dewiswyd 22 artist drwy Gymru Greadigol, gan gynnwys dau i fod yn Llysgenhadon Cymru Greadigol. <p>Rhodddwyd 20 dyfarniad Cymru Greadigol pellach a 2 o Lysgenhadon Cymru Greadigol - ar 21 Mawrth 2013 yn sgil prynhawn o sgysiau Cymru Greadigol yn Theatr y Grand, Abertawe. Mae manylion am y grantiau ar ein gwefan.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Defnyddio ein cysylltiadau yn y cyfryngau i hyrwyddo celfyddydau Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd sgysiau rheolaidd a chyfarfodydd cynllunio'r dyfodol yn fisol rhwng ein Tîm Cyfathrebu a chysylltiadau allweddol yn y cyfryngau drwy gydol 2012/13. <p>Lluniwyd hefyd gytundebau drafft gyda'r BBC ac S4C.</p>

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
	<ul style="list-style-type: none"> Cynnal partneriaethau effeithiol â Chadw a'r British Council 	<ul style="list-style-type: none"> Buom yn cydweithio'n agos â'r British Council drwy'r flwyddyn, gan gynnwys adolygu ein cytundeb partneriaeth cyfredol a gwaith prosiect. <p>Yn y gwaith partneriaeth a ddigwydd mae agweddau rhyngwladol ar ŵyl Dylan Thomas 100.</p> <p>Llofnodasom femorandwm cyd-ddealltwriaeth â Chadw. Penodwyd yr artist Lucy Harvey yn Abaty Glyn y Groes i'r breswylfa gychwynnol a bery chwe mis sy'n dechrau yn Chwefror 2013.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu rhestr newydd o Ymgynghorwyr Cenedlaethol 	<ul style="list-style-type: none"> Recriwtiwyd ymgynghorwyr newydd yn 2012/13 a'r canlyniad oedd cael 46 o ymgynghorwyr y mae 18 ohonynt yn newydd. <p>Pennwyd pob un i un neu ragor o'n sefydliadau refeniw a gwahoddwyd pob un i'n Cynhadledd Flynyddol a chyfres o sesiynau sefydlu.</p> <p>Trefnwyd sesiwn lwyddiannus, Eneidiau Hoff Cytûn, yn fodd i sefydlu a thrafod strategol gyda'r ymgynghorwyr.</p> <p>Daethpwyd o hyd i arbenigedd digidol a syrcais i lenwi'r bylchau sgiliau coll.</p>

Thema'r Cynllun Corfforaethol / arged Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
<p>Annog rhagor o bobl i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt</p> <p>Cefnogwn weithgarwch sy'n cynyddu ac ymestyn ymgysylltiad y cyhoedd â'r celfyddydau. Hoffem i bobl fwynhau a phrofi gwaith o safon sy'n ysbrydoledig, difyr a heriol. Hoffem ddarbwylllo rhagor o bobl y dylai mynychu ac ymgyfranogi o ran y celfyddydau fod yn rhan bwysig o'u bywyd beunyddiol.</p>		
<p>Erbyn 2013 byddwn wedi cynyddu lefelau mynychu ac ymgyfranogi celfyddydau Cymru gan 3%</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu ein strategaethau Creawdwyr Ifainc a Thlodi Plant 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawnwyd y targedau a gytunwyd ym mlwyddyn gyntaf ein Cynllun Gweithredu. Cyflawnasom ymarfer mapio ein sefydliadau refeniw a chynhyrchu adroddiad ar weithgarwch celfyddydol ac addysgiadol yn Rhagfyr 2012 ar gyfer adolygiad Tasglu Llywodraeth Cymru am y Celfyddydau ac Addysg. <p>Comisiynasom ymarfer ymgynghori gyda phobl ifainc am ddigwyddiad cenedlaethol i ddathlu creadigrwydd pobl ifainc.</p> <p>Bu cynnydd da o ran darparu Criw Celf a dechreuodd Celfyddydau Ieuencid Cymru ar eu hAdolygiad Sefydliadol.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Codi ymwybyddiaeth a gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddwyd hwn yn Ebrill 2012 a chynllun gweithredu mwy manwl ar ein gwefan ar ddiwedd Hydref 2012. <p>Roedd ystyriaethau i'r canllawiau cydraddoldebau'n rhan o drafodaethau'r Sgyrsiau Celfyddydol a ddigwyddodd yn Chwarter 4. Felly ni chyhoeddir y canllawiau terfynol erbyn hyn tan yn gynnar yn 2013/14.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu effaith gweithredu'r rhaglen Camau Creadigol newydd 	<ul style="list-style-type: none"> Ni chyflawnwyd yr adolygiad o Gamau Creadigol erbyn diwedd y flwyddyn ac ailamserwyd ef i ddigwydd yn gynnar ym mis Ebrill. Erbyn diwedd Chwarter 1 yn 2013/14 llunnir argymhellion am ddatblygiad y rhaglen yn y dyfodol.

Thema'r Cynllun Corfforaethol/ Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda'n sefydliadau refeniw i'w cefnogi yn eu hymdrechion i gynyddu ymgyfranogiad o'r celfyddydau 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwynwyd adroddiad am y sefydliadau refeniw i'r Cyngor yn Rhagfyr a'i gylchredeg ymhlith y sefydliadau refeniw yn Ionawr. Ond mae eisiau rhagor o waith yn erbyn y cam gweithredu hwn am nad oes yn awr fenter benodol ar waith i gefnogi'r sefydliadau refeniw i gynyddu ymgyfranogi.
	<ul style="list-style-type: none"> Peilota dulliau newydd o ymgysylltu â phobl ifainc, anodd eu cyrraedd drwy ddarparu rhaglenni Sblash a Chyrraedd y Nod 	<ul style="list-style-type: none"> Yn 2012/13 rhoddwyd cyfanswm o £77,571 i 18 prosiect Sblash. Rydym wrthi'n llunio adroddiad gwerthuso. <p>Cwblhawyd pob prosiect Cyrraedd y Nod ac rydym wrthi'n cwblhau ein hawliadau olaf. Cafodd 17 prosiect arian dilyniant i barhau â'r gweithgarwch.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Peilota menter newydd i archwilio ffyrdd arloesol o annog rhagor o deuluoedd isel eu hincwm i fynychu'r celfyddydau 	<ul style="list-style-type: none"> Ystyriwn gynnig am raglen wedi'i theilwra i Gymru sy'n gysylltiedig â menter deulugyfeillgar y TMA. <p>Arianasom ddau brosiect drwy'r fenter Ein Lle Ni ac mae'r ddau ar waith.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Darparu elfen Cymru yn Olympiad Diwylliannol 2012 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawnasom raglen Olympiad Diwylliannol Cymru dros yr haf. Derbyniwyd yr adroddiad gwerthuso terfynol a chyflwynwyd hawliadau olaf i LTUK. Mae'r prosiect erbyn hyn ar gau.
	<ul style="list-style-type: none"> Monitro lefelau mynychu ac ymgyfranogi o ran celfyddydau Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhawyd Arolwg Omnibws ac Omnibws y Plant yn 2012/13. <p>Cadarnhaodd yr ystadegau pennawd gynnydd da y sefydliadau refeniw a ymddangosodd yn yr arolwg: mynychu i fyny gan 2% ar y flwyddyn flaenorol ac ymgyfranogi i fyny o 27% yn y flwyddyn flaenorol i 40%. Dyma'r newid mwyaf flwyddyn ar flwyddyn yn hanes yr arolwg.</p>

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
	<ul style="list-style-type: none"> Hybu gweithgarwch teithio o safon mewn cymunedau ledled Cymru drwy ein gwasanaeth Noson Allan 	<ul style="list-style-type: none"> Yn 2012/13 trefnwyd cyfanswm o 572 digwyddiad drwy Noson Allan. Roedd 142 ohonynt mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Roedd nifer y digwyddiadau mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn llai y llynedd oherwydd ad-drefnu rhwydwaith y cymunedau hynny ac ansicrwydd am eu ffiniau. <p>Roedd 28 o brosiectau hyrwyddwyr ifanc.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi rhaglen datblygu artistiaid duon ac ethnig drwy gytundeb gwasanaeth â Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon 	<ul style="list-style-type: none"> Darparwyd y gwasanaethau a gytunwyd. Oherwydd newidiadau a effeithiai ar y Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon penderfynwyd tendro am y gwaith yn 2013/14.
	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi datblygiad y Celfyddydau Gwirfoddol sef rhaglen <i>Rhedeg eich Grŵp yng Nghymru</i> 	<ul style="list-style-type: none"> Lansiwyd y wefan yng Nghymru ac ymgofrestrodd 3,000 o bobl. Cynhaliwyd cyfarfodydd monitro a glynai'r gwaith at yr amserlen. <p>Cytunasom i ariannu blwyddyn bellach i adeiladu Rhedeg eich Grŵp yng Nghymru.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu amrywiaeth aelodau o'r Cyngor a'n staff 	<ul style="list-style-type: none"> Cafwyd gwelliant yn amrywiaeth yr aelodau o'r Cyngor yn sgil recriwtio aelodau newydd yn gynharach yn y flwyddyn. <p>Ond awgryma canfyddiadau ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol a gyflwynwyd i'r Cyngor yn chwarter 3 fod angen rhagor o waith i gynyddu amrywiaeth y staff.</p>

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
<p>Cynyddu economi'r celfyddydau Cynyddwn lefel yr arian a'r adnoddau sydd ar gael i gelfyddydau Cymru. Hoffem feithrin ysbryd mwy entrepreneuriaidd ynom ein hunain a'r celfyddydau a ariannwn. Drwy hynny, hoffem annog llai o ddibyniaeth ar gymorthdaliadau'r llywodraeth.</p>		
<p>Erbyn 2013 byddwn wedi cynyddu ein trosiant gydag o leiaf 10% o'n hincwm yn dod o ffynonellau newydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu Strategaeth Gyfalaf a rhaglen ariannu'r Loteri newydd 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddassom Strategaeth a Chanllawiau Cyfalaf ar ein gwefan. Cyfanswm y symiau a geisiwyd amdanynt yw dros £28 miliwn a rhoddwyd y grant mawr cyntaf dan y cynllun hwn. <p>Erbyn hyn gweithiwn drwy'r cofrestriadau prosiect i gytuno ar y rhai a â ymlaen i'r camau dichonoldeb a chynllunio datblygu.</p>
<p>Hefyd byddwn wedi cynyddu gwerth ac effaith ein buddsoddiadau presennol yn y celfyddydau.</p>		
	<ul style="list-style-type: none"> • Llundio strategaethau ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> ◦ y Diwydiannau Creadigol ◦ y Celfyddydau Digidol ◦ hyfforddi a datblygu'r gweithlu ◦ y Celfyddydau ac Adfywio ◦ arian Ewrop 	<ul style="list-style-type: none"> • Rhan hanfodol o adolygiad strategol y celfyddydau yw'r meysydd hyn ac felly roeddynt yn rhan o'n Sgyrsiau Celfyddydol a byddant yn nogfen Creadigrwydd a'r Celfyddydau pan gaiff ei hysgrifennu. <p>Buom yn cynnal deialog drwy'r flwyddyn a threfnu cydweithio â sefydliadau i borthi ein dealltwriaeth o'r meysydd hyn ac rydym erbyn hyn mewn gwell sefyllfa i ddatblygu strategaethau a phartneriaethau i gyflawni ein hamcanion.</p> <p>E.e. buom yn cydweithio â sefydliadau sydd â hanes sylweddol o lwyddo megis Native HQ a Watershed, canolfan gyfryngol ddigidol ym Mryste, i archwilio cyfleoedd posibl i gydweithio â hwy i gyflwyno prosiect perthnasol i Gymru.</p>

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
		<p>Buom yn cwmpasu'r galw am ddatblygu'r gweithlu gyda chyrff perthnasol eraill megis Sgiliau Creadigol a Chyfle. Datblygasom ddwy interniaeth Gymraeg bellach gyda Chanolfan Mileniwm Cymru. Cydweithiwn hefyd â Sefydliad Clore, MMM a Chelfyddydau a Busnes Cymru am wella datblygu sgiliau ac arweinyddiaeth.</p> <p>Cyfranasom hefyd at adolygiad adfywio Llywodraeth Cymru a sefydlu cysylltiadau â datblygiadau adfywio mawrion yn Abertawe, Caernarfon, y Rhyl a Bae Colwyn.</p> <p>Datblygasom gronfa ymchwil a datblygu digidol mewn partneriaeth â Nesta i ddechrau yn 2013.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Ail-lansio'r Cynllun Casglu i gynyddu nifer a gwerth benthyciadau i brynu celfweithiau 	<ul style="list-style-type: none"> Yn sgil ymarfer tendr diweddar penodasom ymgynghorydd allanol i ymgymryd ag adolygiad o'n Cynllun Casglu cyfredol. Tua diwedd y flwyddyn cawsom ddrafft cyntaf adroddiad yr ymgynghorydd a gweithiwn yn awr ar ddatblygu cynllun gweithredu. <p>Yn 2012/13 prosesasom gyfanswm o 877 cais Cynllun Casglu gwerth £593,417. Dengys y ffigyrau hyn leihad bychan o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan brosesasom 979 o geisiadau gwerth £715,758.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu lefel a chwmpas cyflogaeth ym maes celfyddydau Cymru gan ddefnyddio ymchwil/data presennol 	<ul style="list-style-type: none"> Parhaem i wneud cynnydd gyda hyn drwy'r flwyddyn a chyfrannodd canfyddiadau'r arolwg o'r sefydliadau refeniw hefyd at y gwaith. <p>Datblygwyd offeryn gan Skillset a Sgiliau CC i gasglu data am gyflogaeth.</p>

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
		<p>Rhoes Diwydiannau Creadigol yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y contract am brosiect mapio'r diwydiannau creadigol a chomisiynasant ymchwil.</p> <p>Comisiynasom hefyd brosiect ymchwil a datblygu digidol i 2013/14.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Manteisio ar y cyfle a ddarperir gan WOMEX 2013 i ddatblygu marchnadoedd newydd i ddiwydiant cerdd Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Bu gwaith yn parhau drwy'r flwyddyn, gan gynnwys creu cytundeb cydweithio Cerdd Cymru:Music Wales:Music Wales â phartneriaid y prosiect. Llwyddodd Cerdd Cymru:Music Wales i gael rhagor o arian gan Lywodraeth Cymru. Yn y cyfamser parhasom ei chyfleuster llif arian a chytunasom i gynnal y prosiect yn bellach â £50,000 rhagor yn 2013/14. Llwyddodd y fim i gael y cyngerdd agoriadol a guradurir gan Cerys Matthews.
	<ul style="list-style-type: none"> Darparu ein Symposiwm Marchnata Blynyddol yn llwyddiannus 	<ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd ef ar 18 Ebrill yn Theatr y Grand, Abertawe. Agorwyd cofrestru ar-lein ym Mawrth.
	<ul style="list-style-type: none"> Darparu rhaglen datblygu sefydliadol i sefydliadau refeniw 	<ul style="list-style-type: none"> Digwyddodd y gyfran gyntaf o'r hyfforddiant yn chwarter 3 gan ganolbwyntio ar gynllunio busnes, a'r ail yn chwarter 4 am agwedd ar lywodraethu. Awgrymai'r arwyddion cynnar foddhad mawr am y sesiynau (rhai ohonynt yn Gymraeg) a'r teimlad eu bod yn ddefnyddiol.
	<ul style="list-style-type: none"> Hwyluso cyfarfodydd Fforwm Celfyddydau Ewropeaidd Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Yn ogystal â diweddariadau rheolaidd drwy e-bost, cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Fforwm dros y flwyddyn gan gynnwys hyfforddiant i sefydliadau sydd am ymgeisio am arian o Raglen Ddiwylliannol Ewrop a rhwydweithio â gweithredwyr diwylliannol ledled Ewrop. <p>Llwyddodd dau o'n cleientiaid a gyflwynodd gynigion yn bartneriaid arwain i gael arian Ewropeaidd (Chapter/Coreo Cymru a Ffotogallery).</p>

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu partneriaeth newydd â Llywodraeth Leol sy'n adlewyrchu canlyniadau adolygiad Simpson Llywodraeth Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Cymeradwywyd ariannu hyfforddiant Ffynnon i bob un o'r 4 rhanbarth i gynorthwyo datblygu cardiau sgorio Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau yn yr Awdurdodau Lleol. <p>Pery cyfarwyddwyr i gael swyddogaeth arwain drosfwaol o ran pob un o'r 4 rhanbarth newydd.</p> <p>Digwyddodd cyfarfodydd unigol yn y flwyddyn, rhaid trefnu cyfarfodydd pellach cyn diwedd y flwyddyn. Cafwyd ychydig o oedi oherwydd ymrwymadau eraill.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu Partneriaethau Gwerth cyhoeddus â BBC Cymru ac S4C 	<ul style="list-style-type: none"> Parhau yr oedd y gwaith ar hyn drwy 2012/13. Mae copïau drafft o ddogfennau'r bartneriaeth gyda phenaethiaid y BBC ac S4C. Yn y cyfamser pery trafodaethau gyda'r ddau i derfynoli cyfres o brosiectau a fydd yn allweddol i'w llwyddiannau.
	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Thîm y Sector Diwydiannau Creadigol yn Llywodraeth Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Golygai gwahaniaethau barn o ran y pwyslais rhyngom a Llywodraeth Cymru na chyflawnwyd y targed.
	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i ddatblygu cydbrosiectau 	<ul style="list-style-type: none"> Buom yn gweithio ar nifer o gydbrosiectau gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn 2012/13 gan gynnwys rheoli ceisiadau am brosiectau Dylan Thomas 100. Cydweithiasom yn agos hefyd ag ymgynghorwyr i gefnogi Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen a chefnogi Gwaith Tasglu Llywodraeth Cymru am y Celfyddydau ac Addysg dan gadeiryddiaeth yr Athro Dai Smith.

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
<p>Gwneud y Cyngor yn sefydliad cyhoeddus effeithiol ac effeithlon</p> <p>Craffwn ar ein defnydd o adnoddau i sicrhau y darparwn wasanaeth cyhoeddus effeithiol sy'n cynnig gwerth am arian.</p> <p>Rydym am greu sefydliad a berchir am ansawdd ei weithgareddau ac a gydnabyddir yn awdurdod arbenigol celfyddydol.</p> <p>Drwy wneud hynny gallwn arddangos y darparwn wasanaeth cyhoeddus hanfodol i bobl Cymru.</p>		
<p>Erbyn 2013 gallem ddangos ein bod yn sefydliad mwy effeithlon ac effeithiol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad ein polisïau adnoddau dynol 	<ul style="list-style-type: none"> • Oherwydd pwysau gweithgareddau eraill, adolygasom 16 o'n 25 polisi adnoddau dynol. Cyflwynwyd pob polisi a adolygwyd hefyd i'r undeb i'w ystyried. <p>Adolygir gweddill y polisïau yn ystod 2013/14.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu ein strategaeth TGCh 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwnaethom gynnydd sylweddol o ran gweithredu hon dros y flwyddyn. <p>Mae Cyfeiriadur y Celfyddydau'n barod ac rydym wrthi'n ei lenwi. Rhoddwyd meddalwedd cynadledda (Eventbrite) ar waith. Darparwyd ceisiadau ar-lein. Cyflawnwyd Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus.</p> <p>Sefydlwyd y gweithlu symudol newydd a ddaeth yn sgil yr Adolygiad Sefydliadol a chyflawnwyd cam cyntaf y fewnwyd newydd i'r staff yn Chwefror 2013.</p> <p>Gohiriwyd y gwaith ar wefan y Cynllun Casglu am y tro gan aros am ganlyniad yr adolygiad ond â datblygiad gwefan Noson Allan a'r Gronfa Data Sengl yn eu blaenau.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu ein Strategaeth Lety 	<ul style="list-style-type: none"> • Symudwyd swyddfa Bae Colwyn yn llwyddiannus yn chwarter 3. Yn y chwarter hwn ail-leolwyd staff i'r ail lawr a'r trydydd yn swyddfa Caerdydd, gan adael y llawr cyntaf yn wag i'w isosod. Mae'r gwaith wedi'i orffen i raddau helaeth ond mae eisiau rhagor o waith i orffen trefnu'r trydydd llawr

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
		<p>a chael tenantiaid i'r cyntaf.</p> <p>Dygwyd ymlaen ystyried swyddfa Caerfyrddin hefyd o 2013/14 i chwarter 4 y flwyddyn a nodwyd lleoliad arall posibl. Parhau y mae'r gwaith.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu ein proses ymgeisio ar-lein 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawnwyd hyn a'i gymhwyso i bob cais am arian prosiect y Loteri o 1 Ebrill 2012 ymlaen.
	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu ein gwasanaeth gwybodaeth newydd 	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlwyd hwn yn sgil ein Hadolygiad Sefydliadol ym Mai 2012. Erbyn hyn bwriedir cynnal gwaith i sicrhau cyflawni effeithlonrwydd gweithredu.
	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu mesurau lleihau costau i gyflawni targedau ein Hadolygiad Sefydliadol 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawnwyd y targed lleihau ar gyfer 2012/13.
	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddi Adroddiad Blyneddol ar berfformiad ariannol a sefydliadol y sefydliadau refeniw 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawnwyd y cam gweithredu hwn. Cynhaliwyd arolwg o'n sefydliadau refeniw yn 2012/13 a chyhoeddwyd copi o'r adroddiad terfynol ar ein gwefan yn Ionawr 2013.
	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawni targedau cyhoeddedig i brosesu ceisiadau grant 	<ul style="list-style-type: none"> Yn 2012/13 cawsom 833 cais am arian - 710 i'n cynlluniau ariannu, 16 cais Cyfalaf a 107 cais i'n Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol – a phroseswyd pob un yn yr amserlen a gytunwyd.
	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawni targedau cyhoeddedig i brosesu taliadau 	<ul style="list-style-type: none"> Dengys ffigyrau diwedd 2012/13 y talwyd 93.87% o anfonebau cyflenwyr yn y telerau a gytunwyd a 72.16% ohonynt mewn 10 diwrnod gwaith.

Thema'r Cynllun Corfforaethol / Targed Gweithredol	Erbyn diwedd Mawrth 2013 byddwn wedi gwneud y canlynol:	Cyflawniadau a pherfformiad
	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawni lefel uchel o foddhad cyhoeddus â'n Gwasanaeth Gwybodaeth 	<ul style="list-style-type: none"> Gweler y sylwadau blaenorol (uchod) am adolygiad ehangach o'n heffeithlonrwydd gweithredu. Erbyn hyn yn 2013/14 y cynhelir arolwg o foddhad y cyhoedd.
	<ul style="list-style-type: none"> Gwella ansawdd ein hymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru 	<ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd y cymorthfeydd rhanbarthol cyntaf yn chwarter 3. Cynhaliwyd pump i drafod arian y Loteri mewn gwahanol leoedd ledled Cymru a mynychodd 47 ymgeisydd posibl a phedair arall i geisiadau Cymru Greadigol ledled Cymru a daeth 41 ymgeisydd posibl. <p>Hefyd cynhaliwyd pedair Sgwrs Gelfyddydol yn Llandudno, Aberystwyth, Abertyleri a Chaerdydd a chynhyrchwyd dros 70 o drafodaethau drwy gyfrwng Lle Agored.</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Darparu gwybodaeth gliriach am ein trefniadau llywodraethu 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawnwyd y cam gweithredu hwn. Cynhwyswyd ein datganiad am lywodraethu yn ein hAdroddiad Blynyddol a'n cyfrifon ar gyfer 2011/12; a chymeradwywyd y datganiad gan ein harchwiliad allanol.
	<ul style="list-style-type: none"> Ymdrin yn effeithiol â chwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth 	<ul style="list-style-type: none"> Cawsom gyfanswm o 22 cais Rhyddid Gwybodaeth ac un gŵyn ffurfiol yn 2012/13. Ymatebwyd i bob cwyn a chais Rhyddid Gwybodaeth yn llawn yn yr amserlenni a bennwyd.

Monitir yn fanwl berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad ac adrodd yn ôl yn chwarterol i'r Uwch Tîm Rheoli, y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

Polisiau rhoi grantiau

Gwahodda'r Cyngor geisiadau am grantiau rheolaidd ac untro gan sefydliadau ac unigolion a monitra'r defnydd priodol ac effeithiol o'r grantiau hynny. Yn ogystal â bodloni amcanion strategol y Cyngor, rhaid i geisiadau ddangos budd i bobl Cymru ledled y sectorau rhanbarthol, diwylliannol ac economaidd. Ariennir grantiau rheolaidd drwy grant mewn cymorth yn unig ond gellir ariannu grantiau untro drwy grant mewn cymorth neu incwm y Loteri. Dan delerau Cyfarwyddiadau Polisi'r Loteri rhydd y Cyngor grantiau ar gyfer prosiectau Cyfalaf ac eraill dan gynlluniau celfyddydol refeniw yng Nghymru.

Mae grantiau Cyfalaf, i sefydliadau yn unig, yn fodd i brynu, gwella, adfer, adeiladu neu greu ased sydd i'w ddefnyddio'n barhaus. Fel y nodir uchod, ni chymerodd y Cyngor gofrestrïadau newydd ar gyfer grantiau mawrion yn y cyfnod Ebrill 2007-Mawrth 2012 ond ailgorodd y rhaglen gyfalaf yng Ngorffennaf 2012.

Dirprwyodd y Cyngor ei waith dyfarnu grantiau i wneud ffilmiau i Asiantaeth Ffilm Cymru. Nodwyd telerau'r dirprwyo allanol mewn cytundeb ffurfiol rhwng y Cyngor a'r Asiantaeth a bodlonant amodau datganiad gofynion ariannol y Cyngor. Daw'r cytundeb diweddaraf, a adnewyddwyd o 1 Ebrill 2013 ymlaen, i ben ar 31 Mawrth 2014. Nid yw goblygiadau Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor wedi newid oherwydd y ddirprwyaeth ond mae'n fodlon bod yr Asiantaeth a'i systemau yn addas i ymgymryd â'r swyddogaethau dirprwyedig, gan gynnwys: asesu ceisiadau i ariannu ffilmiau; dal arian y Loteri a ddyrannwyd iddi gan y Cyngor at y diben hwnnw, bod yn gyfrifol amdano a'i

ddosbarthu; a monitro prosiectau a ariennir. Caniatâ'r cytundeb dirprwyo i archwilywyr mewnol y Cyngor a Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru gael mynediad priodol i'r Asiantaeth i adolygu sut y gweithredir y swyddogaethau a ddirprwywyd.

Mae grantiau cynllun refeniw ar gael i ariannu prosiectau artistig o safon sy'n gyfyngedig o ran amser ac sy'n cyflawni blaenoriaethau ariannu'r Cyngor orau.

Tynnir ein sylw at unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherygl penodol gan ein monitro parhaus. Arweinia'r peryglon a nodir at gynnydd yn lefel y monitro, ac os bydd angen, gall olygu cadw taliad yn ôl a/neu ei ohirio.

Cyhoeddwn ganllawiau cyffredinol ar ariannu i sefydliadau ac unigolion a gynnwys fanylion llawn am flaenoriaethau ariannu a meini prawf cymhwysedd. Mae'r rhain ar gael gan unrhyw un o'n swyddfeydd ac o'n gwefan: www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk

Prif weithgareddau dosbarthu'r Loteri

Cawsom 810 (2011/12: 689) o geisiadau Loteri y llynedd ac roedd 21 ohonynt (2011/12: 7) ar gyfer cynlluniau Cyfalaf a 789 (2011/12: 682) ar gyfer cynlluniau refeniw. Gwnaed cyfanswm o 471 (2011/12: 589) o gynigion grant sy'n werth £11,958,000 (2011/12: £8,030,000) ac o'r rhain roedd £3,928,000 (2011/12: £1,195,000) yn grantiau Cyfalaf a £9,873,000 (2011/12: £8,139,000) yn grantiau cynllun refeniw. Deuai'r ymrwymïadau pendant (h.y. grantiau a dderbyniwyd ond nas talwyd) ar ddiwedd y flwyddyn i gyfanswm o £11,871,000 (2012: £8,076,000) ac o'r rhain roedd £6,461,000 (2012: £3,655,000) yn grantiau Cyfalaf a £5,410,000 (2012: £4,421,000) ar gyfer grantiau cynlluniau refeniw.

Adolygiad ariannol

Mae gan y Cyngor ddwy brif ffynhonnell ariannu: grant mewn cymorth oddi wrth Lywodraeth Cymru; a chyfran o'r arian a godir gan y Loteri Genedlaethol, oherwydd ni yw un o'r cyrff a ddsbartha arian i achosion da. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried ei weithgareddau cyffredinol ar wahân.

Buddsoddi

Rheolir pwerau i fuddsoddi gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000 a'r Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a'r Cyfarwyddiadau Ariannol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Polisi'r Cyngor yw cael yr elw mwyaf posibl yn y telerau hyn. Cawn log ar gyfradd a negodwyd ar sail gyfradd sylfaenol y banc ar bob balans credyd yng nghyfrifon cyfredol y Cyngor. O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y bydd cyfraddau uwch ar gael ar gyfer cronfeydd cyfyngedig ar adnau hirdymor.

Mae balansau a ddelir yng Nghronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn aros dan ofal yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon felly, er y caiff y Cyngor incwm buddsoddi ar ei gyfran o falansau o'r fath, nid oes gan y Cyngor bwerau buddsoddi dros y gronfa.

Canlyniadau ariannol

Dengys cyfrif dosbarthu'r Loteri mai £19,355,000 oedd cyfran 2012/13 y Cyngor o enillion y Loteri Genedlaethol (2011/2012: £15,083,000) a chodiad ariannol am y flwyddyn o £3,396,000 (2011/12: £1,494,000) a drosglwyddwyd i'r arian wrth gefn.

Yn Chwefror 2008, pasiwyd offeryn statudol a olygai ei bod yn bosibl trosglwyddo hyd at £1,085,000,000 o gronfa dosbarthu'r Loteri Genedlaethol i gronfa dosbarthu Loteri'r Gemau Olympaidd i dalu rhywfaint o gostau cynnal gemau 2012. Roedd y Cyngor yn ymrwymedig i gyfrannu hyd at £3,552,000 yn y cais gwreiddiol, ac mae'r gorchymyn hwn yn caniatáu trosglwyddo hyd at £4,509,000 yn ychwanegol. Trosglwyddwyd symiau tebyg bob tri mis tan Awst 2012. Yn 2012/13 trosglwyddwyd y cyfanswm o £1,010,000 (2011/12 £2,169,000).

Cyfanswm y cynigion grant a wnaed y llynedd oedd £11,958,000 (2011/12: £9,334,000). £12,101,000 (2011/12: £8,587,000) a gofnodir yn wariant grant a adlewyrcha gynigion a wnaed y llynedd a blynyddoedd blaenorol a dderbyniwyd yn ffurfiol y llynedd. Ymrwymadau amhendant ar 31 Mawrth 2013 nas cofnodwyd yn wariant yn y datganiad o incwm cynhwysfawr net sydd â'r cyfanswm o £339,000 (2012: £864,000).

Y balans yng Nghronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth 2013 oedd £20,601,000 (2012: £15,566,000). Dengys y cyfrifon arian wrth gefn o £10,195,000 (2012: £6,799,000).

Cynyddodd lefel y grantiau a wnaed yn ystod y flwyddyn o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol fel y gwnaeth yr ymrwymadau pendant hwythau. Cynhwysant y rhain symiau sylweddol ar gyfer prosiectau Cyfalaf mawrion a rhyddheir taliadau yn brydlon ar adegau allweddol yn oes pob prosiect. Cymerodd nifer o'r prosiectau mwy cymhleth fwy o amser na'r disgwyl. Incwm hefyd oedd yn uwch nag a amcanestynnwyd. Effeithiwyd ar y balansau gan gyfuniad y ffactorau hyn.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae ein blaenoriaethau'n seiliedig ar dargedau ansoddol a meintiol.

O ran adrodd cyson ar sail tystiolaeth mae sawl her ddiddorol inni felly. Ni all yr un offeryn sy'n cyfrif (e.e. nifer y bobl sy'n mynychu'r digwyddiadau) asesu ansawdd y digwyddiadau hynny. Er enghraifft, sut y gallwn brofi ein bod "yn cefnogi creu'r gorau o ran celf wych"?

Hoffem fonitro'n ansoddol a meintiol ein cynnydd ar draws rhychwant ein gweithgareddau.

Felly dechreuwa pob un o'n pedair blaenoriaeth â datganiad o uchelgais, disgrifiad o sut olwg a fyddai ar lwyddiant. Wedyn amlinellwn ein targedau manwl yn ôl un o'r chwe chategori a ganlyn:

- **Polisi** – ymrwymiad i gyflwyno, adolygu neu ddiweddarau ein polisi neu'n strategaeth
- **Prosiectau** – mentrau neu weithgareddau ar wahân yw'r rhain sy'n benodol ac yn gyfyngedig o ran amser . Fel arfer ymwna'r targed â chyflawni'r prosiect a monitri'r cynnydd yn erbyn cyfres o ddigwyddiadau cerrig milltir
- **Gwasanaethau** – mae llawer o'n gwaith yn anghyfyngedig o ran amser . Yn aml dibynna ar y galw a bydd yn ailgodi dro ar ôl tro. E.e. ymholiadau i'n gwasanaethau gwybodaeth, neu sut y proseswn drafodion ariannol. Bob blwyddyn pennwn gyfres o safonau gwasanaeth. Cyhoeddwn y safon a'n llwyddiant o ran ei chyflawni
- **Partneriaethau** – daw elfen bwysig o'n gwaith o'r perthnasau a gychwynnwn ac a feithrinwn â sefydliadau eraill. Diffinnir y berthynas hon fel arfer mewn cytundeb partneriaeth neu femorandwm cyd-

ddealltwriaeth penodol. E.e. y partneriaethau a ddatblygwn â sefydliadau amrywiol megis y British Council, Cadw a'r BBC. Adroddwn ddiwedd y flwyddyn ar gryfder ein partneriaethau a'u llwyddiannau

- **Llywodraethu** – penna ein Cyngor safonau perfformiad manwl iddo ei hun, ei bwyllgorau, ei staff gweithredol a'i ymgynghorwyr. E.e. cofnodion mynychu aelodau'r Cyngor, neu i ba raddau y defnyddiwn ein hymgyngorwyr cenedlaethol. Penna'r Cyngor safonau blynyddol ac edrydd yn eu herbyn
- **Cydymffurfio** – ymwna rhai agweddau ar ein perfformiad â'n llwyddiant i gyrraedd gofynion cyfreithiol gorfodol neu safonau amodol o ran ymarfer da. E.e. yn erbyn yr ymrwymadau yn ein cynllun cydraddoldeb strategol, nifer y cwynion neu'r ceisiadau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a ddaw i law, neu ein cynnydd o ran ein gwneud yn fusnes mwy cynaliadwy o ran yr amgylchedd. Cyhoeddwn ddatganiad perfformiad blynyddol sy'n manylu ar ein cynnydd o ran bodloni ein hymrwymadau.

Mae ein blaenoriaethu ar gyfer 2013/14 yn y tabl canlynol:

Cefnogi'r gorau o ran creu celfyddyd wych

Sut olwg a fydd ar lwyddiant?

Rydym yn llawn angerdd dros y celfyddydau ac yn uchelgeisiol dros eu lwyddiant. Ar ei orau – a'r gorau sy'n mynd â'n bryd - mae gan y celfyddydau'r grym i gyffroi, ysbrydoli, cyffwrdd a herio. Rydym am lunio amgylchedd i'n hartistiaid a'n sefydliadau i greu eu gwaith gorau. Rydym am i bobl Cymru fwynhau a chymryd rhan yn y gorau sydd gennym. Daw'r gorau pan drewir y tant cywir a chysyllta'r celfyddydau â phobl. Dyna'n diffiniad o gelfyddyd wych. Gwneud a rhannu celfyddyd a bod yn rhan ohoni wrth berfformio, ar y tudalen, mewn ystafell, yn ein bywyd yw'r adeg pan lwydda'r celfyddydau i'n hysbrydoli'n unigol ac yn dorfol.

Wrth gwrs, ni allwn warantu y cynhyrcha pob artist a sefydliad a ariannwn gelfyddyd wych bob tro. Ond gallwn greu amgylchedd lle mae gwaith uchelgeisiol, cyffrous ac ysbrydoledig yn debycach o godi.

Gwyddom y gwnawn gynnydd os:

- cynyddu mynychu ac ymgyfranogi flwyddyn ar flwyddyn oherwydd ansawdd y gwaith a gynhyrchir gan y sefydliadau a ariannwn
- tyf y galw am eu gwaith yn genedlaethol a rhyngwladol
- gwthia'r gwaith ein sefydliadau refeniw ffiniau'n gyson o ran arloesedd wedi'i feincnodi yn erbyn y safonau uchaf ym marn ein swyddogion a'n hymgynghorwyr proffesiynol
- yw cynigion Cymru Greadigol o safon a bod y gystadleuaeth yn heriol
- ceir sylw cyfryngol rheolaidd a chadarnhaol i gelfyddydau Cymru a rhagor o drafodaeth feirniadol am eu safon
- gorfoda'r gystadleuaeth am grantiau Loteri benderfyniadau ariannu i ganolbwyntio ar y ceisiadau cryfaf a mwyaf darbwyllo
- cynnig ein partneriaeth â chyrrff eraill gyfleoedd newydd am weithgareddau diddorol a ddatblyga gyfleoedd a chyd-destunau newydd i'r celfyddydau

Blaenoriaethau ar gyfer 2013/14

1. Cynhyrchu strategaeth gorfforaethol newydd i ddatblygu'r celfyddydau (Creadigrwydd a'r Celfyddydau) a gydnebydd ein blaenoriaethau i hybu:
 - a. ymgyfranogi, ymgysylltu a chynhwysiant
 - b. addysg y celfyddydau, plant a phobl ifainc
 - c. y diwydiannau creadigol ac adfywio diwylliannol
 - d. cefnogaeth i'r artist unigol

- e. gwaith a chyfleoedd rhyngwladol
- f. lles a chynaliadwyedd

2. Cyflawni prosiect Cymru yn Fenis gyda'r artist Bedwyr Williams

3. Cyfrannu at gynllunio, datblygu a darparu'n llwyddiannus Wyl Dylan Thomas 100 yn 2014

4. Cefnogi datblygu ein Hymgynghorwyr Cenedlaethol a'u hymgysylltiad â'n gwaith

5. Sicrhau monitro'n genedlaethol ansawdd ein sefydliadau refeniw

6. Cyflawni blwyddyn lawn o raglen grantiau i unigolion a sefydliadau

7. Darparu rhaglen o brosiectau a gwasanaethau sy'n helpu artistiaid a sefydliadau i fanteisio ar bosibiliadau rhyngwladol eu gwaith

8. Defnyddio ein cysylltiadau yn y cyfryngau i hyrwyddo celfyddydau Cymru

9. Cynnal presenoldeb effeithiol mewn digwyddiadau allanol gan hyrwyddo a chefnogi celfyddydau Cymru

Annog rhagor o bobl i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt

Sut olwg a fydd ar lwyddiant?

Ar hyn o bryd mae lefelau uchel o fynychu celfyddydau Cymru ac ymgyfranogi ohonynt. Ond wrth i incwm pobl leihau, daw ffigurau mynychu ac ymgyfranogi dan fwy o bwysau. Ond nid yw'n fater yn unig o amddiffyn a chadw'r hyn sy'n bodoli eisoes. Hoffem i'r celfyddydau a ariannwn gyrraedd croestoriad ehangach o bobl Cymru – pobl a gafodd anhawster i fynychu'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Gwyddom y gwnawn gynnydd os:

- dengys tystiolaeth y daw cynulleidfaoedd ac ymgyfranogwyr o groestoriad mwy amrywiol o'r boblogaeth a'i bod yn haws ymwneud â'r celfyddydau gan y rhai a wynebasai rwystrau yn y gorffennol
- gwelwn gynnydd yn nifer y prosiectau ymgyfranogol a ddarperir mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf a chynnydd yn nifer y bobl ifainc o'r fath ardaloedd sy'n mynychu'r celfyddydau
- profa ein cynllun Noson Allan a drefna berfformiadau o safon i gymunedau gynnydd yn nifer y cynulleidfa, yn benodol ymhlith pobl o ardaloedd o amddifadedd mawr, yn drefol a gwledig

- gwelwn gynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifainc sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â gweithgarwch creadigol, artistig
- gwelwn gynnydd yn nifer y prosiectau (i gynulleidfaoedd ac ymgyfranogwyr) sy'n:
 - digwydd mewn ardaloedd o amddifadedd mawr a mynd i'r afael â'r materion sy'n cyfrannu at dlodi plant
 - dymchwel rhwystrau ymgyfranogi
 - cynyddu nifer y plant a'r bobl ifainc sy'n weithredol ymwneud â'r celfyddydau o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf
 - arddangos effaith gadarnhaol ar fywyd pobl ifainc
- gwelwn gynnydd yn nifer yr artistiaid o gefndiroedd amrywiol a ariennir i greu, cyflwyno a hybu gwaith

Blaenoriaethau ar gyfer 2013/14

10. Cydweithio â Llywodraeth Cymru i weithredu canfyddiadau adolygiad y celfyddydau ac addysg

11. Mynd i'r afael ag argymhellion ymgyfranogi o'r celfyddydau gan Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldebau a Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol

12. Gweithredu ein strategaethau i Greawdwyr Ifainc a thlodi plant

13. Gweithredu ein cynllun cydraddoldeb strategol

14. Hybu ein cynllun Cymraeg drwy weithredu'r 15 targed allweddol yn ein cynllun gweithredu Cymraeg ar gyfer 2013/14

15. Gweithio gyda'n portffolio o sefydliadau cyflwyno (lleoliadau ac orielau) i gynyddu ac amrywio eu cynulleidfaoedd

16. Cefnogi dulliau o ymgysylltu â phobl ifainc, anodd eu cyrraedd drwy gyflwyno rhaglenni Sblash a Chyrraedd y Nod

17. Ehangu'r rhaglen gweithgarwch, *Datblygu Talent*

18. Hyrwyddo gweithgarwch teithio o safon mewn cymunedau ledled Cymru, yn enwedig drwy Noson Allan

19. Cydweithio ag asiantaethau arbenigol (Celfyddydau Gwirfoddol Cymru, Celfyddydau Anabled Cymru, Diverse Cymru, Stonewall Cymru) i ddarparu cefnogaeth i gyflawni ein hamcanion strategol

Cynyddu economi'r celfyddydau

Sut olwg a fydd ar lwyddiant?

Rydym am weld sector celfyddydol ariannol hyfyw nad yw'n llwyr ddibynol ar gymorthdaliadau cyhoeddus. Gyda lleihau cymhorthdal cyhoeddus, rhwystra dibyniaeth o'r fath arloesedd, datblygu a chynaliadwyedd.

Defnyddiwn ein holl bwerau eiriol i annog yr ystod fwyaf bosibl o asiantaethau sector cyhoeddus a phreifat i fuddsoddi yn y celfyddydau. Ond dibynna llwyddiant ar y ffordd y gall artistiaid a sefydliadau ddatblygu eu cynhwysedd busnes eu hunain a manteisio'n llawn ar eu gwerth artistig.

Rhaid inni hefyd annog cynaliadwyedd yn ogystal â thwf. Rhed ffyrdd o weithio sy'n gwastraffu adnoddau yn lle eu gwella a'u hamddiffyn yn groes i raen ein cyfnod. Rhaid inni fynd i'r afael â galw'r presennol heb niweidio lles economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y dyfodol.

Gwyddom y gwnawn gynnydd os:

- dengys artistiaid a sefydliadau agwedd entrepreneuriaidd at ddatblygu marchnadoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol newydd i'w gwaith
- buddsodda artistiaid a sefydliadau yn eu datblygiad proffesiynol a sefydliadol
- gall ein sefydliadau refeniw leihau lefel y cymhorthdal yn gyfran o'u hincwm cyffredinol
- gwelwn ragor o sefydliadau'n cydweithio i ddatblygu prosiectau creadigol neu rannu costau a gwasanaethau
- deellir a defnyddir y cyfleoedd a gynigir gan dechnolegau digidol newydd yn helaeth ar draws celfyddydau Cymru
- gweithreda celfyddydau Cymru ar sail fwy cynaliadwy gan gynnig atebion ymarferol i broblemau amgylcheddol
- gwerthfawroga llywodraeth leol ledled Cymru werth y celfyddydau a chynnal lefelau ariannu a darparu gwasanaethau
- datblyga prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus Cymru – BBC Cymru, S4C ac ITV Cymru – bartneriaethau newydd â'r celfyddydau
- bydd rhagor o dystiolaeth o'r defnydd o'r celfyddydau mewn partneriaethau cyhoeddus a datblygiadau mawrion, megis ardaloedd adfywio strategol

Blaenoriaethau ar gyfer 2013/14
20. Cytuno ar strategaeth tair blynedd newydd am ein buddsoddi yn y celfyddydau
21. Annog ein sefydliadau refeniw i fod yn fwy gwydn a chynaliadwy (yn ddiwylliannol, sefydliadol ac ariannol) a darparu gwybodaeth ar eu perfformiad
22. Datblygu <i>Syniadau, Pobl a Lleoedd</i> , cronfa her i fuddsoddi mewn prosiectau adfywio a arweinir gan y celfyddydau i'w hybu'n gyhoeddus
23. Cyflawni blaenoriaethau Cyfalaf y Loteri
24. Cychwyn rhaglen o weithgarwch a anoga ddatblygu cynhwysedd digidol yn y celfyddydau
25. Ail-lansio'r Cynllun Casglu
26. Darparu WOMEX 2013 yn ddigwyddiad ar lwyfan y byd i gyflawni ei phosibiliadau yn gatalydd i sector cerddorol Cymru
27. Darparu'n llwyddiannus ein digwyddiadau corfforaethol (y Gynhadledd Flynyddol, y Symposiwm Marchnata a'r Sgyrsiau Celfyddydol)
28. Datblygu'r sgiliau arwain entrepreneuriaid i helpu artistiaid a sefydliadau i ddatblygu ymarfer busnes blaengar, cynaliadwy a gwydn
29. Ymgorffori ein partneriaeth newydd â thri maes (cenedlaethol, rhanbarthol ac unigol) gyda llywodraeth leol ledled Cymru
30. Datblygu partneriaeth gwerth cyhoeddus â BBC Cymru ac S4C
31. Meithrin partneriaethau sy'n cefnogi cyflawni ein blaenoriaethau celfyddydol, datblygu cyfleoedd newydd i artistiaid gomisiynu, datblygu a chyflwyno gwaith
32. Cynyddu buddion i'r celfyddydau o Raglen Ewropeaidd 2014-20 gan gynnwys arian strwythurol
Gwneud y Cyngor yn sefydliad cyhoeddus effeithiol ac effeithlon
<p>Sut olwg a fydd ar lwyddiant?</p> <p>Yn 2012/13 gweithredasom ganlyniadau ein Hadolygiad Sefydliadol. Sefydlwyd strwythur staffio newydd. Ein her yn awr yw creu sefydliad cryf a hyderus i ddarparu gwasanaethau perthnasol a defnyddiol.</p> <p>Darparwn wasanaethau proffesiynol ar draws ystod o ddisgyblaethau. A gwnawn hyn mewn ffyrdd sy'n lleihau cost a chydabod ein cyfrifoldeb i ddod yn sefydliad mwy cynaliadwy o ran yr amgylchedd.</p>

Gwyddom y gwnawn gynnydd os:

- mynega'r unigolion, y sefydliadau a'r rhanddeiliaid y gweithiwn gyda hwy lefel uchel o foddhad ag ansawdd ein gwasanaethau
- manteisiwn i'r eithaf ar bosibiliadau technoleg newydd
- proseswn geisiadau, taliadau grantiau a thrafodion ariannol yn brydlon
- gwelwn welliant i'n cynaliadwyedd amgylcheddol
- cadwn ein hachrediad Buddsoddwyr mewn Pobl
- lleihawn ein costau rhedeg

Blaenoriaethau ar gyfer 2013/14

33. Datblygu gallu a sgiliau proffesiynol ein staff a'u lles

34. Gweithredu ein strategaeth TGCh

35. Datblygu cyfres o gyhoeddiadau corfforaethol a fideos sy'n hyrwyddo ein brand a'n gwaith

36. Rheoli ystâd ein swyddfa'n effeithlon, diogel ac am y gwerth gorau

37. Datblygu ein gwasanaeth gwybodaeth

38. Gweithredu mesurau lleihau costau i gyflawni targedau ariannol ein Hadolygiad Sefydliadol

39. Cadw achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl

40. Asesu'n annibynnol effeithiolrwydd ein sefydliad

41. Cyflawni targedau cyhoeddedig i brosesu:

- a. ceisiadau grant
- b. taliadau ariannol

42. Adolygu a symlhau ein prosesau rhoi grantiau.

43. Rheoli ein hadnoddau ariannol i'r uchaf safonau o atebolrwydd

44. Datblygu perthynas adeiladol â Llywodraeth Cymru drwy:

- a. Cyflawni gofynion Llythyr Cylch Gwaith 2013/14 ac adrodd arnynt
- b. cyfarfodydd chwemisol gyda'r Gweinidog
- c. Fforwm Diwylliant
- d. Monitro chwarterol Cyfarfodydd gyda swyddogion

45. Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2012/13
46. Cefnogi rheolaeth gorfforaethol ein busnes drwy: <ol style="list-style-type: none"> rheoli a threfnu'r Cyngor a'i bwyllgorau rheoli a threfnu'r Uwch Tîm Rheoli rheoli a threfnu'r Bwrdd Rheoli
47. Sicrhau amrywiaeth aelodau o'r Cyngor a'r staff
48. Ymdrin yn effeithiol ag ymholiadau gan Lywodraeth Cymru, cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth
49. Cyflawni ein cyfrifoldebau amgylcheddol yn unol â dyletswydd gynaliadwyedd Llywodraeth Cymru.
50. Gweithredu systemau talu cyflogau newydd

Adnoddau dynol

Cyfle cyfartal

Rydym yn ymroddedig i bolisi cyfle cyfartal o ran ein harferion cyflogi. Yn benodol, anela'r Cyngor at sicrhau na thrinnir yr un gweithiwr na'r darpar weithiwr yn fwy neu'n llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws o ran priodas neu fod yn rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Rydym ar y Gofrestr Genedlaethol o Ddefnyddwyr Symbolau Anabledd a adlewyrcha ein hymroddiad i sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael i weithwyr anabl.

Absenoldeb salwch

Yn 2012/13 cyfanswm salwch y staff oedd 364 dydd (2011/12: 963 dydd). Cynrychiolai hyn 1.97% (2011/12: 4.3%) o'r dyddiau gwaith, gan gynnwys 0.16% (2011/12: 1.77%) o ganlyniad i absenoldeb salwch hir dymor (dros 28 dydd).

Cyfathrebu â'r gweithwyr

Cydnebydd y Cyngor yr undeb llafur, Unite, Uno'r Undeb, ac mae wedi dod i gytundeb gweithdrefnol ag ef; mae rheolwyr a'r undeb yn ymgysylltu yn rheolaidd i drafod materion cyfredol. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd adrannol rheolaidd ac mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr roi adroddiad i'w staff ar faterion a drafodwyd yn y Cyngor ac yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli.

Cynllun pensiwn

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr yn aelodau o'n Cynllun Ymddeol 1994. Mae'r gronfa yn gynllun buddiant diffiniedig. Mae hefyd yn gynllun cyflogwyr lluosog felly ni allwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r ymrwymedigaethau sylfaenol. Yn unol â pholisïau cyfrifyddu'r Cyngor, rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig, yn unol ag IAS19.

Talu taladwyon masnach ac eraill

Dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr

(Llog) 1998, a Chod Arfer Talu Gwell Llywodraeth Prydain, mae'n ofynnol i'r Cyngor dalu anfonebau cyflenwyr lle na cheir anghydfod mewn 30 diwrnod oddi ar gael nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Nod y Cyngor yw talu'r 100% o anfonebau gan gynnwys anfonebau y cafwyd anghydfod yn eu cylch pan ddatrysir yr anghydfod, yn unol â'r telerau hyn. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 talodd y Cyngor 94% (2011/12: 96%) o'r holl anfonebau yn nhelerau ei bolisi talu. Ers Tachwedd 2008 bwriadwn dalu pob anfoneb mewn 10 diwrnod yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Ar gyfer 2012/13 talwyd 72% o anfonebau mewn 10 diwrnod (2011/12: 86%). Ni ragwelir y bydd ein polisi'n newid yn y blynyddoedd i ddod.

Rheoli perygl ariannol a chyfalaf

Deil y Cyngor offerynnau ariannol yn bennaf i ariannu ei weithrediadau, er enghraifft, derbyniadwyon masnach ac eraill a thaladwyon masnach ac eraill ac arian a phethau cyfwerth ag arian a gyfyd yn uniongyrchol o'i weithrediadau. Gwneir y gwaith o reoli peryglon ariannol sy'n deillio o fasnachu offerynnau ariannol, yn bennaf derbyniadwyon masnach ac eraill a thaladwyon masnach ac eraill, drwy gyfres o bolisiau a gweithdrefnau. Rheolir y peryglon hyn fel a ganlyn:

Perygl hylifedd - nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei swyddogaeth o ddsbarthu arian y Loteri Genedlaethol yn agored i unrhyw berygl hylifedd sylweddol, ac mae'n fodlon bod y balans yng nghronfa ddsbarthu'r Loteri Genedlaethol ac elw'r Loteri yn y dyfodol yn ddigonol i fodloni ei ymrwymadau pendant.

Peryglon cyfraddau llog - cedwir balansau a gawn gan Lywodraeth Cymru i dalu ymrwymadau grant a chostau gweithredu,

mewn cyfrifon banc cyfradd amrywiol dim rhybudd a oedd â chyfradd llog ar gyfartaledd o 0.50% (2011/12: 0.50%) yn y flwyddyn. Balans arian anghyfyngedig y Cyngor yn y banc ar ddiwedd y flwyddyn oedd £1,739,000 (2012: £28,000). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei swyddogaeth o ddsbarthu arian y Loteri yn agored i beryglon cyfradd llog sylweddol.

Perygl arian tramor - nid ydym yn agored i unrhyw berygl sylweddol.

Perygl llif arian a phethau cyfwerth ag arian - nid ydym yn agored i unrhyw berygl sylweddol.

Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â data personol

Mae gan y Cyngor reolaethau a pholisïau ar waith i sicrhau cywirdeb data. Sicrha systemau TG fod rheolaeth lem ar ddiogelwch y data. Hyd y gwyddom, ni chollwyd unrhyw ddata yn y cyfnod dan sylw.

Materion cymdeithasol a chymunedol

Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod arian y Cyngor yn hygyrch ac o fudd i holl ddinasyddion Cymru. A ninnau'n gorff a ariennir gan y cyhoedd, mae sicrhau rhagor o hygyrchedd i'r celfyddydau yn flaenoriaeth naturiol. Rydym yn llwyr ymroddedig i ddymchwel y rhwystrau sy'n atal a llesteirio pobl rhag mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Mae gennym o hyd strategaethau sy'n targedu pobl ifainc, y celfyddydau cymunedol ac ehangu ymgysylltiad y cyhoedd â'r celfyddydau. Cefnogasom ŵyl hynod lwyddiannus – Gwanwyn – sy'n dathlu pobl hŷn ac rydym yn ymhel â phrosiect mawr â'r nod o weithio gyda phobl ifainc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

Mae gan ein cynlluniau grant flaenoriaethau

troswaol wedi'u hanelu at brosiectau sy'n hybu gwaith artistiaid o grwpiau a dangynrychiolir megis pobl anabl, dduon ac ethnig. Cydnabyddwn ddiwylliant dwyieithog Cymru a rhoddwn flaenoriaeth i geisiadau am brosiectau a ddarperir drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Darparwn hyfforddiant addas i'n staff i newid y ffordd yr ymdriniwn â materion cydraddoldeb hil, amrywiaeth ac anabledd. Ymgymernwn hefyd â rhaglen o asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ar bob polisi mewnol i sicrhau yr adlewyrchant y blaenoriaethau hyn.

Cynaliadwyedd

Ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru "Cymru Gynaliadwy – Dewis Gwell ar gyfer Dyfodol Gwell" mae gweledigaeth a chynigion i ymgorffori cynaliadwyedd yn brif egwyddor drefniadol gwasanaethau cyhoeddus ehangach yng Nghymru pan â *Mesur Datblygiad Cynaliadwy* yn ddeddf gwlad. Rydym ymhlith y sefydliadau cyntaf darostyngedig i'r Ddyletswydd Gynaliadwyedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2015.

Felly adlewyrchwn hyn yn natblygiad ein strategaethau newydd ac yn ein Cynllun Corfforaethol a gyhoeddir yn gynnar yn 2013/14. Yn y flwyddyn a ddaw datblygwn ein cynlluniau i gyflawni ein dyletswyddau dan y Mesur Datblygiad Cynaliadwy i sicrhau y cyflawnwn ein rhan i'r eithaf wrth wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru.

Archwilio

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y Cyngor yn ymwybodol ohoni, ac mae wedi cymryd yr holl gamau posibl yn rhinwedd ei swydd i sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod archwilydd y Cyngor yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Adroddiad Amgylcheddol

Credwn fod gennym gyfrifoldeb i weithredu ein busnes mewn modd cynaliadwy a gweithredu arfer amgylcheddol da. Ymrwymwn i leihau ein heffaith amgylcheddol a gwella'n barhaus ein perfformiad. Mae'r rhain yn rhan hanfodol o'n ffordd o wneud busnes a gweithredu.

Cyflwynodd arweiniad diweddar oddi wrth Lywodraeth Cymru, seiliedig ar ganllawiau Trysorlys ei Mawrhydi, lefel de minimis i sefydliadau sy'n gorfod adrodd ar berfformiad amgylcheddol.

O'n gwirfodd penderfynasom adrodd yn llawnach am ein perfformiad yn 2012/13 er bod y lefel de minimis yn gymwys. Credwn fod hyn yn unol ag ysbryd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru – *Cymru Gynaliadwy: Dewis Gwell ar gyfer Dyfodol Gwell*.

Adolygiad o gynnydd:

Ers inni gyflwyno polisi amgylcheddol gwnaethom gynnydd da wrth wella ein perfformiad amgylcheddol. Cyflawnwyd hyn drwy gyfuniad o fuddsoddi ariannol, cyflwyno systemau a dulliau gweithredu gwahanol a thrwy ymrwymiad ein staff.

Gweithiwn ar hyn o bryd o dri lleoliad ledled Cymru a feddai, ar ddechrau'r flwyddyn, ar gyfanswm o 1,464 metr sgwâr o lawr. Adleolodd ein staff yn y Gogledd i swyddfa lai a'n staff yng Nghaerdydd i le llai yn y swyddfa bresennol a oedd yn rhan o'n strategaeth lety. Ar hyn o bryd adolygwn ein gofynion swyddfa yn y Gorllewin. Ein targed yw lleihau ein hystâd gan o leiaf 25% erbyn diwedd Mawrth 2014.

Cyn symud yno bum mlynedd yn ôl, gosodasom ystod o declynnau ac offer arbed ynni yn ein swyddfa yng Nghaerdydd. Ymysg y rhain oedd rhannu ein system awyru'n barthau, goleuo isel ei ynni a synwryddion symudoledd i arbed goleuo. Cawsom declynnau amlswyddogaeth sy'n arbed ynni yn lle hen beiriannau argraffu,

ffotocopiö a ffacsio; cyflwynwyd argraffu ar ddwy ochr pob dalen yn ddiöfyn; a chyflawnasom raglen i rithio ein gweinyddion TG i leihau'r ynni i'w hoeri a'u rhedeg. Mae hefyd lawer o nodweddion tebyg yn ein swyddfa newydd yn y Gogledd.

Mae'r ddwy swyddfa ar rwydweithiau cludiant cyhoeddus. Defnyddia rhagor o ymwelwyr gludiant cyhoeddus wrth ymweld â ni erbyn hyn. Gwelsom hefyd gynnydd yn nifer y staff sy'n defnyddio trenau a bysiau i gyrraedd y gwaith. Ar hyn o bryd ystyriwn fentrau eraill megis benthyciadau ar gyfer tocynnau tymor i annog rhagor o leihad yn ein heffaith amgylcheddol.

Gwnaethom gynnydd hefyd wrth newid ein hymddygiad sefydliadol.

Hybwn ac anogwn ddefnyddio ffyrdd amgylcheddol-gyfeillgar o deithio gan gyfyngu ar deithiau i rai angenrheidiol yn unig a sicrhau y gwneir y rhain yn y ffyrdd mwyaf effeithiol o ran yr amgylchedd ac arian. Anogir rhannu ceir ac erbyn hyn dim ond yn un o'n swyddfeydd mae gennym le i barcio. Darparasom reseli beiciau yn ein swyddfa yng Nghaerdydd ac ystyriwn fentrau pellach hefyd.

Hybwn yn weithredol gynadledda drwy'r fideo yn ddewis amgen yn lle teithio. Mae gan bob un o'n tair swyddfa gyfleusterau fideo. Anogwn ddefnyddio fideo yn lle teithio. Uwchraddiwn ac estynnwn ein cynhwysedd fideo i gynnwys gweithio symudol yn 2013/14.

Mae gan dros 50% o'n staff erbyn hyn yr offer priodol, megis gliniaduron a ffonau clyfar, i'w galluogi i weithio'n symudol a leiha eu dibyniaeth ar orfod gweithio o'n swyddfeydd. Bu hyn yn fodd i leihau eu teithiau i'r gwaith a'u hallyriadau carbon deuocsid. Nid ydym mewn sefyllfa i adrodd yn gywir ar hyn ond archwiliwn a fydd modd inni ei wneud mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Ond golygai cyflwyno strwythur staffio newydd a threfniadau gweithio mwy symudol a hyblyg fod rhai o'r staff yn gorfod teithio'n fwy rhwng ein swyddfeydd neu wrth ymweld â'r sefydliadau a ariannwn. Disgwyliwn i effaith gyntaf y tuedd hwn leihau fel yr ymsefydla ein strwythur newydd.

Mae ymwybyddiaeth amgylcheddol yn ein rhaglen sefydlu a darperir hyfforddiant a diweddariadau achlysurol i'r staff fel sy'n briodol.

Hybwn gwtogi gwastraff ymhlith ein staff drwy annog lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu. Hybir hefyd yn weithredol ailgylchu a didoli gwastraff yn fewnol sy'n lleihau'r hyn a anfonir at y safle tirlenwi a defnyddiwn sefydliadau trwyddedig a phriodol i waredu ein gwastraff. Ailgylchwn ein hoffer TG diangen.

Mae gan bob un o'n prif gyflenwyr offer a chyflenwadau swyddfa bolisi amgylcheddol a mecanwaith adrodd ar waith ac wrth ddewis contractwyr a chyflenwyr, ystyriwn berfformiad ac ymwybyddiaeth amgylcheddol yn rhan o'n meini prawf dethol. Defnyddiwn declynnau ac offer arbed ynni i leihau ar y trydan a ddefnyddiwn ac anogir y staff i leihau defnydd lle bynnag bo hynny'n bosibl.

Mae gan ein contractwyr bolisiâu amgylcheddol ar waith i sicrhau y defnyddiant gynhyrchion ac offer ecogyfeillgar; rhaid cytuno â ni unrhyw newid yn y cynhyrchion glanhau.

Prif ganolbwynt ein strategaeth TGCh fu estyn defnydd ein seilwaith technoleg gwybodaeth i ddarparu buddion busnes ac amgylcheddol. Cyflwynasom dechnoleg i sganio gohebiaeth ac anfonebau a ddeuai atom sy'n lleihau ein gofynion storio a galluogi ein staff i gael hygyrchedd atynt o bell. E.e., mae ein systemau cyllid erbyn hyn yn llwyr drydanol o dderbyn yr archeb hyd at dalu a sganir dogfennau ategol

fel eu bod yn drydanol hygyrch. Aeth ein system ymgeisio ar-lein yn fyw y llynedd; leiha hyn hefyd faint y papur a dderbyniwn, a drafodwn, a storiwn ac a ailgylchwn.

Yn y blynyddoedd diweddar lleihasom yn sylweddol nifer y copïau o'n cyhoeddiadau corfforaethol a chyhoeddwn gopïau trydanol lle bynnag bo hynny'n bosibl. Bu hyn yn fodd i leihau ein defnydd o bapur, y nifer o gopïau papur a gawn a gorfod ei storio.

Hefyd buddsoddasom mewn gwefan well i godi lefel ein gwasanaeth a darparwn ystod eang o wybodaeth i ymgeiswyr, artistiaid, sefydliadau celfyddydol a'r cyhoedd heb yr angen i argraffu ac anfon copïau caled.

Safonasom ein papur gohebu a defnyddiwn papur wedi'i ailgylchu ar gyfer o leiaf 90% o'n hanghenion copïo a mewnlol. Caiff rheolwyr adroddiadau misol sy'n dadansoddi gweithgarwch argraffu a chopïo i annog defnydd is yn gyffredinol.

Awn ar ôl achrediad y Ddraig Werdd a gosodasom darged o gael achrediad lefel 3 erbyn diwedd Mawrth 2015.

Ein perfformiad:

Gwellasom ein systemau adrodd mewnlol i allu dal a mesur manylion ein defnydd o ddefnyddiau traul, gwastraff, ynni, dŵr a theithio'r staff sef ein hallyriadau carbon deuocsid. Ond mae nifer o ddangosyddion na allwn eu hadrodd yn gywir.

Rhannwn lety ein dwy swyddfa fwyaf a chynhwysir rhai costau yn y tâl gwasanaeth yn arbennig costau gwastraff a defnydd dŵr. Archwiliwn gyda'n landlordiaid ffordd ymarferol o sefydlu system i wahanu costau dŵr ar gyfer 2013/14. Ar hyn o bryd ni allwn nodi'n gywir gost ein gwastraff. Felly cynwysasom bwysau ein gwastraff yn y tabl isod:

	2012/13	2011/12
Gwastraff:		
Anariannol (tunelli metrig)		
Safle tirlenwi - <i>amcangyfrif</i>	2.2	2.5
Ailddefnyddio/ailgylchu - <i>amcangyfrif</i>	7.45	9.8
Allyriadau nwy tŷ gwydr (carbon deuocsid)		
Allyriadau yn eu crynswth, cwmpas 1 (anuniongyrchol)	8,800	9,271
Defnyddio ynni (cilowat-awr)		
Trydan (anadnewyddadwy)	126,708	133,496
Trydan (adnewyddadwy)		
Nwy	Amherthnasol	Amherthnasol
Dangosyddion ariannol (£)		
Gwariant - ynni	18,900	20,800
Costau cyflenwi dŵr (ystâd swyddfa) – ar hyn o bryd ni ellir eu hasesu, maent yn gynwysedig yn y tâl gwasanaeth	Amherthnasol	Amherthnasol
Allyriadau teithio (carbon deuocsid)		
Trên	2,202	1,463
Awyren	6,927	5,496
Ceir/faniau	6,370	6,555
Cost teithio (£)		
Trên	33,194	32,993
Awyren	19,981	18,266
Ceir/faniau	39,440	40,760
Teithio (milltiroedd)		
Trên	154,806	104,977
Awyren	540,671	391,525
Ceir/faniau	86,789	90,757

Ein targed yw lleihau ein hallyriadau carbon deuocsid yn gyffredinol gan o leiaf 5% yn 2013/14.

Ein gallu i ddylanwadu:

Ni yw'r dosbarthwr mwyaf o grantiau yn sector celfyddydol Cymru, rydym mewn lle ardderchog i ddylanwadu ar ymddygiad a pherfformiad

ymlith yr unigolion a'r sefydliadau a ariannwn. Y llynedd arianasom y rhaglen, Eginiaid, a ganolbwyntiai ar ddatblygu seilwaith celfyddydol isel ei garbon; a datblygu swyddogaeth y celfyddydau yn bair i syniadau a gweledigaethau ar gyfer Cenedl Un Blaned isel ei charbon yng Nghymru. Buom yn gymorth wrth ariannu a datblygu uwchgynhadledd

Eginiad, digwyddiad mawr am y celfyddydau a chynaliadwyedd a gyflwynwyd gan Volcano a Chanolfan y Dechnoleg Amgen ym Machynlleth ym Medi 2012. Cefnogasom eto gomisiynau a gwaith ffilm artistiaid yn rhan o'r digwyddiad a ddangoswyd wedyn ar fenter y BBC/Cyngor Celfyddydau Lloegr, **The Space**. Wedyn dechreuasom brosiect artist preswyl yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen a chynnig cefnogaeth bellach i Eginiad i gwmpasu prosiect dogfennu ar y we.

Hefyd anogwn safonau amgylcheddol uchel yn y prosiectau Cyfalaf a ariannwn. Adeiledir o'r newydd y prosiect mawr, Pontio, ym Mangor i safon ardderchog Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil i Adeiladau Ardderchog a chyrraedd prosiect Glynn Vivian, Abertawe safon dda iawn yn ôl yr un fesur (oherwydd ei fod yn adeilad hanesyddol).

At y dyfodol:

Rydym hefyd yn awyddus i gefnogi'r sefydliadau a ariannwn i leihau'n fwy eu heffaith ar yr amgylchedd. Bwriadwn weithredu nifer o fesurau yn y flwyddyn a ddaw i leihau'n bellach allyriadau carbon deuocsid.

Gweithiwn mewn partneriaeth â'n portffolio o sefydliadau refeniw i ddatblygu mesurau gan gynnwys rhannu'r ymarfer gorau, ariannu gwelliannau technegol a chyflwyno canllawiau ar faterion datblygu cynaliadwy. Cawn gymorth yn y broses hon gan y gwaith cyfredol a wna Creu Cymru.

Ailagorasom ein rhaglen Cyfalaf Loteri a bwysleisia o hyd yr angen i'r adeiladau a ariannwn gyrraedd safonau amgylcheddol uchel.

Mae perfformiad amgylcheddol dim ond yn rhan o'r agenda cynaliadwy er ei fod yn rhan bwysig. Felly archwiliwn nifer o fentrau eraill a'n caniatâ i wneud ein siâr o ran lleihau effaith y Cyngor a'r sefydliadau a arianna ar yr amgylchedd gan ein galluogi i helpu cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru gynaliadwy.



Nicholas Capaldi
Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2013



Yr Athro Dai Smith
Cadeirydd
5 Gorffennaf 2013

Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol

Tâl y Cyngor bob aelod o'i staff, ac eithrio'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, yn unol â system gyflog a graddio y cytunwyd arni ac a gynhelir gan yr Adran Adnoddau Dynol. Mae polisi gwerthuso swyddi ar waith a gall y staff apelio graddio eu swyddi yn unol â hwnnw. Cytunir â Llywodraeth Cymru ar delerau penodi'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Mewn ymgynghoriad â'r undeb llafur cydnabyddedig llunnir cylch gwaith cyflog a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Mae'r pecyn cyflog ac amodau canlynol yn gyfrwymol ar y Cyngor cyfan tan y cylch negodi nesaf. Dibynna cynnydd dan y cylch gwaith cyflog ar berfformiad a sefydlwyd gan system y Cyngor o adolygiadau datblygiad personol.

Gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau caiff y Cadeirydd gydnabyddiaeth ariannol ar gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru sy'n adlewyrchu ymroddiad amser lleiafysymiol i fusnes y Cyngor. Rhydd Llywodraeth Cymru hefyd gyngor ar y cynnydd blynyddol yng nghyflog y Cadeirydd ond ni chaiff daliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn.

Yng nghydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr mae cyflog sylfaenol a bonws blynyddol. Argymhella'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol fonysau blynyddol i'r Cyngor ar ôl ystyried perfformiad y Prif Weithredwr yn erbyn nifer o amcanion a bennwyd ymlaen llaw. Cyfunir canran o'r bonws, yn ôl cyngor Llywodraeth Cymru, â chyflog y Prif Weithredwr a thelir y gweddill yn swm heb ei gyfuno. Golygai canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru na ellid talu codiadau sylfaenol cyfunol ac anogid yn gryf beidio â gwneud taliadau anghyfunol. Canlyniad hyn oedd i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol gytuno â thristwch na ellid cynyddu tâl i'r Prif Weithredwr y llynedd ac ildiodd y Prif Weithredwr ei hawl i ddyfarniad anghyfunol ar gyfer 2011/12.

Penodir aelodau'r Cyngor gan Weinidogion Cymru am gyfnod o dair blynedd a gellir eu hailbenodi am gyfnod pellach o dair blynedd. Penodwyd y Cadeirydd presennol, yr Athro Dai Smith, yn aelod o'r Cyngor ar 1 Ebrill 2004, ond daeth yn Gadeirydd ar 1 Ebrill 2006. Wedyn penododd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yr Athro Dai Smith am dymor o dair blynedd (1 Ebrill 2007-31 Mawrth 2010), adnewyddodd y Gweinidog dros Dreftadaeth ei benodiad am dair blynedd arall (hyd at 31 Mawrth 2013) a chyhoeddodd y Gweinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth y pery'r Athro yn ei swydd tan 31 Mawrth 2016. Cyflogir y Prif Weithredwr ac uwch cyfarwyddwyr ar gontractau parhaol yn unol â thelerau ac amodau safonol y Cyngor.

Ar ôl cwblhau cyfnod prawf o chwe mis yn llwyddiannus, mae hawl gan y Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr gael rhybudd o 13 wythnos i derfynu eu cyflogaeth.

Dyddiadau dechrau cyflogaeth yw: Yr Athro Dai Smith (Cadeirydd) 1 Ebrill 2006; Nicholas Capaldi (Prif Weithredwr) 15 Medi 2008; David Alston (Cyfarwyddwr y Celfyddydau) 1 Gorffennaf 2005; Katherine Davies (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu o 1 Chwefror 2012 ymlaen) 24 Awst 1998; Diane Hebb (Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgyfranogi o 1 Chwefror 2012 ymlaen) 13 Ionawr 1992; Siân Tomos (Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio o 1 Chwefror 2012 ymlaen) 3 Mai 1994; a Hywel Tudor (Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau) 21 Ionawr 2002.

Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gyfarwyddo gweithgareddau'r Cyngor. Dyma eu gwir daliadau.

Archwiliwyd y ffigurau yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol hwn.

Enw a swydd	2013		2012		2013		2013		2013	
	Band taliadau ¹		Cynnyddl gwirioneddol mewn pensiwn a chyfundaliad oed 65		Cynnyddl gwirioneddol mewn pensiwn a chyfundaliad oed 65		Cyfanswm a gronnyd pensiwn yn oed 65 ar 31 Mawrth 2013 a chyfundaliad cysylltiedig	Arian ² Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian ar 31 Mawrth 2013	Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian ar 31 Mawrth 2013	Gwirioneddol ³ Cynnydd mewn gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb ag arian
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Nick Capaldi <i>Prif Weithredwr</i>	90-95	90-95	Pensiwn Cyfundaliad	0-2.5 2.5-5	Pensiwn Cyfundaliad	5-10 5-20	55	77	20	
David Alston <i>Cyfarwyddwr y Celfyddydau</i>	65-70	65-70	Pensiwn Cyfundaliad	0-2.5 0-2.5	Pensiwn Cyfundaliad	5-10 15-20	83	104	19	
Katherine Davies <i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu (o 1 Chwefror 2012 ymlaen)</i>	50-55	5-10	Pensiwn Cyfundaliad	0-2.5 5-7.5	Pensiwn Cyfundaliad	15-20 50-55	189	243	49	
Diane Hebb <i>Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymglyfranogi (o 1 Chwefror 2012 ymlaen)</i>	50-55	5-10	Pensiwn Cyfundaliad	0-2.5 2.5-5	Pensiwn Cyfundaliad	5-10 25-30	97	129	29	
Sian Tomos <i>Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio (o 1 Chwefror 2012 ymlaen)</i>	50-55	5-10	Pensiwn Cyfundaliad	0-2.5 2.5-5	Pensiwn Cyfundaliad	10-15 35-40	158	190	27	
Hywel Tudor <i>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau</i>	65-70	65-70	Pensiwn Cyfundaliad	0-2.5 0.2-5	Pensiwn Cyfundaliad	10-15 30-35	143	168	21	

* Cyfwerth ag amser llawn

¹ **Taliadau** – ildiodd y Prif Weithredwr ei hawl i gael dyfarniad anghyfunol cysylltiedig â pherfformiad ar gyfer 2011/12. Nid oes gan y Cyfarwyddwyr eraill hawl i gael dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad.

² **Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb ag arian** - ystyr hwn yw gwerth Cyfalafol buddiannau'r cynllun pensiwn a gronnyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd gan actiwari. Y buddiannau a brisir yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol a ddelir i'w priod sy'n daladwy o'r cynllun. Dyma daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan ymedy'r aelod â'r cynllun a dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Noda'r ffigurau pensiwn a ddangosir y buddiannau a gronnyd gan yr unigolyn ar ôl dod yn aelod llawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Cynnwys y ffigurau werth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu

drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr unigolyn i Gynllun Ymdeol Cyngor Celfyddydau Cymru 1994. Cynhwysant unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol a gronnodd aelod drwy brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei draul ei hun. Cyfrifir hwn yn y canllawiau a'r fframwaith a bennir gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwariaid ac nid ystyria unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

³ **Gwir gynnydd yng ngwerth trosglwyddo sy'n cyfateb ag arian** - adlewyrcha hwn y cynnydd a ariennir, i bob pwrpas, gan y cyflogwr. Ni chynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig sy'n seiliedig ar chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) a defnyddia ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau a diwedd y cyfnod ariannol.

Ar ôl diwygio Siarter Frenhinol y Cyngor, a chyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau, ers 1 Ebrill 2004 talwyd y Cadeirydd am ei wasanaethau. Ni thelir Aelodau eraill o'r Cyngor a Phwyllgorau am eu gwasanaeth. Ad-dalwyd swm cyfunol o £9,801 (2011/12: £13,251) i 12 (2011/12: 13) aelod o'r Cyngor am gostau teithio a chynhaliaeth ar fusnes y Cyngor. Dyma'r swm cyfunol a ddyrannwyd i weithgareddau dosbarthu'r Loteri: £4,066 (2011/12: £3,012).

Cynhwysai cyfanswm y gwir daliadau i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr:

	2013	2012
	£	£
Cadeirydd		
Cyflog	<u>43,810</u>	<u>43,810</u>
Prif Weithredwr		
Cyflog	93,380	93,380
Cyfraniad pensiwn	<u>16,155</u>	<u>16,155</u>
	<u>109,535</u>	<u>109,535</u>

Treuliau teithio a chynhaliaeth yr aed iddynt ar fusnes y Cyngor a ad-dalwyd:

Cadeirydd	2,882	3,823
Prif Weithredwr	8,283	6,148

33.96% (2011/12: 37.5%) o daliadau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi'u codi yn y datganiadau ariannol hyn a chodir y gweddill ar weithgareddau cyffredinol.

Ar 31 Mawrth y gydnabyddiaeth flynyddol ganolrifol (gyfwerth ag amser llawn am yr holl Gyngor) oedd:

30,000	30,000
--------	--------

Y gymhareb rhwng y gydnabyddiaeth flynyddol ganolrifol a chydabyddiaeth yr aelod o'r staff â'r cyflog uchaf (yn yr holl Gyngor) oedd:

1:3.12	1:3.12
--------	--------

Cynlluniau iawndal - pecynnau ymadael (yr holl Gyngor):

Band cost y pecyn ymadael	Nifer y diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt		Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost	
	2012/13	2011/12	2012/13	2011/12	2012/13	2011/12
<£9,999	-	2	-	4	-	6
£10,000 to £24,999	1	2	-	3	1	5
£25,000 to £49,999	-	3	-	1	-	4
£50,000 to £99,999	-	1	-	2	-	3
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael	1	8	-	10	1	18
Cyfanswm y gost (£'000)	16	236	-	230	16	466

Talwyd costau diswyddo'n unol â darpariaethau ein polisi diswyddo. Fel arfer talwn gostau ymadael pan ddaw'r gyflogaeth i ben ond darparwn amdanynt yn llawn ar yr adeg pan fo gwybodaeth ddigon manwl i'w wneud:

Sonia 'pob ymadawiad arall y cytunwyd yn ei gylch' am geisiadau am ddiswyddo lle, yn unol â pholisi diswyddo'r Cyngor, diflannodd swyddi'r gweithwyr yn y strwythur newydd neu fe'u llenwyd gan weithwyr eraill a ddiswyddid yn orfodol fel arall. Nid oes gwahaniaeth yn yr hawliadau talu rhwng gwirfoddolwyr a'r rhai a ddiswyddir yn orfodol.

Aelodau o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a wasanaethodd er 1 Ebrill 2012 oedd:

Yr Athro Dai Smith (aelod o'r Cyngor);
Margaret Jervis MBE DL (aelod o'r Cyngor);
Dr John Geraint (aelod o'r Cyngor) a
Bethan Guilfoyle CBE (aelod annibynnol).

Nicholas Capaldi

Nicholas Capaldi
Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2013

Dai Smith

Yr Athro Dai Smith
Cadeirydd
5 Gorffennaf 2013

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiad cyfrifon ar gyfer ei weithgareddau dosbarthu'r Loteri ar ffurf ac ar sail a bennir gan Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Paratwir y cyfrifon ar sail cronïadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor ac o'i incwm a'i wariant, newidiadau mewn ecwiti a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol :

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a gweithredu polisiau cyfrifyddu priodol ar sail gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth*, a datgelu ac esbonio unrhyw wriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu dros y Cyngor. Nodir cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, am gadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r Cyngor, ym Memorandwm i Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.



Nicholas Capaldi
Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2013



Yr Athro Dai Smith
Cadeirydd
5 Gorffennaf 2013

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

A finnau'n Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru, mae'r datganiad llywodraethu hwn yn gyfrifoldeb personol imi, Nicholas Capaldi. Disgrifia drefniadau llywodraethu'r Cyngor a sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau i sicrhau y rheola'r Cyngor ei fusnes, o ran gweithgareddau'r trysorlys a'r Loteri, yn unol â'r gyfraith, ac y glyna at safonau cywir ac y sefydla'r amddiffynfeydd angenrheidiol i warchod y defnydd o arian cyhoeddus. Esboniaf hefyd sut y cyfrifyddir yn iawn am yr arian hwn a'i ddefnyddio'n gynnil, effeithlon ac effeithiol i ddarparu cynlluniau a blaenoriaethau'r Cyngor.

Atebolrwydd:

Amcan y Cyngor yw cefnogi a datblygu celfyddydau Cymru er budd holl boblogaeth Cymru a chefnogi'n celfyddydau'n rhyngwladol. Sefydlwyd y Cyngor gan Siarter Frenhinol ar 30 Mawrth 1994 ac mae'n elusen gofrestredig (nifer 1034245), corff a noddir gan Lywodraeth Cymru a dosbarthwr y Loteri Genedlaethol.

Noda'n siarter ein hamcanion: datblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer y celfyddydau; gwneud y celfyddydau'n fwy hygyrch i'r cyhoedd; gweithio drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Cydweithiwn â chyrrff cyhoeddus eraill Cymru a Chynghorau Celfyddydau eraill Prydain, i gyflawni'r amcanion hyn. Mae copi o'n siarter ar ein gwefan.

Am y rhan fwyaf o 2012/13 roedd y Cyngor yn atebol i Weinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth Llywodraeth Cymru. Gweithredwn mewn fframwaith eang a noda'r telerau a'r amodau y glyna Gweinidogion Cymru atynt wrth roi inni ein harian grant mewn cymorth ac sy'n nodi sut y gallwn ei ddefnyddio. A ninnau'n gorff cyhoeddus, rhaid inni hefyd weithredu yn ôl y canllawiau yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

A ninnau'n ddsbarthwr arian y Loteri, dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993(fel y'i diwygiwyd), rydym yn atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cawn ein cyfarwyddiadau ariannol gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'n cyfarwyddiadau polisi gan Weinidogion Cymru. Noda'r rhain sut y bydd yn rhaid inni weithredu. Mae gennym drefniadau ar waith i sicrhau y cyfrifyddwn ar wahân ar gyfer ein gweithgareddau cyffredinol a rhai dosbarthu'r Loteri. Archwilir y ddwy set yn allanol ac ar wahân.

A ninnau'n elusen, gweithredwn dan Ddeddfau'r Elusennau 1960, 2006 a 2011 a chanllawiau a gyflwynir gan y Comisiwn Elusennau. Rydym hefyd yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Credyd Defnyddwyr a chanllawiau a gyflwynir gan y Swyddfa Masnachu Teg; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Ddeddf Diogelu Data 1998.

Mae systemau a phrosesau rheoli ein sefydliad a'n gweithgareddau yn ymateb i'r gwahanol fathau o atebolrwydd. Yn y fframweithiau hyn gwna'r Cyngor benderfyniadau annibynnol o ran cyfeiriad strategol y sefydliad, ariannu grant a phenderfyniadau ariannol eraill.

Gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd Gweinyddol y Senedd archwilio materion y Cyngor.

Llywodraethu:

Llywodraethir y Cyngor gan fwrdd o ymddiriedolwyr – y Cyngor – sy'n cynnwys Cadeirydd a 14 aelod a phenodir un ohonynt yn Is-gadeirydd. Dônt ag arbenigedd a gwybodaeth i'r broses o arolygu a datblygu ein gweithgareddau.

Yn y gorffennol penodwyd y Cadeirydd a'r aelodau gan Weinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth Llywodraeth Cymru, a hynny fel


arfer am dair blynedd y gellid ei adnewyddu unwaith. Yn y dyfodol, penodir y rhain gan y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon.

Telir Cadeirydd y Cyngor. Rhydd pob aelod arall eu hamser a'u harbenigedd yn wirfoddol ond cânt eu talu am dreuliau parod a geir ar fusnes y Cyngor. Mae crynodeb yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol.

Ac yntau'n brif gorff penderfynu'r sefydliad, mae'r Cyngor yn gyfrifol am gyfeiriad strategol a rheolaeth y sefydliad a sicrhau y gweithreda'r sefydliad, drwy'r Prif Weithredwr, yn y fframwaith polisi a sefydla Llywodraeth Cymru.

Penderfyna aelodau o'r Cyngor ar bolisi corfforaethol a llunio ein cynlluniau corfforaethol a gweithredol. Pennant y gyllideb flynyddol, dyrannu grantiau blynyddol i sefydliadau refeniw a chymeradwyo grantiau dros £50,000, neu dros £250,000 yn achos prosiectau Cyfalaf gydag arian y Loteri. Mae aelodau'n gyfrifol am unrhyw newidiadau sylweddol i delerau ac amodau gwasanaeth y staff.

I gefnogi ei waith, penododd y Cyngor dri phwyllgor i ddarparu cyngor arbenigol, sef y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Cyfalaf a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Hefyd sefydlodd bwyllgorau ymgynghorol ad hoc a grwpiau monitro mewnol i'w gynorthwyo yn ei waith.



Prif reolwr gweithredol y sefydliad yw'r Prif Weithredwr a gefnogir gan yr Uwch Tîm Rheoli o bum cyfarwyddwr y mae gan bob un gyfrifoldeb am agwedd benodol ar y gwaith.

Sefydlwyd rhestr o ymgynghorwyr cenedlaethol a benodwyd gan staff gweithredol y Cyngor i ddarparu cyngor arbenigol.

Gweithreda pob pwyllgor dan gylch gorchwyl penodol. Darperir cofnodion o bob cyfarfod pwyllgor i gyfarfod y Cyngor a ddaw wedyn.

Ymhob pwyllgor mae aelodau o'r Cyngor, gydag un yn gadeirydd arno, ac unigolion a gyfetholwyd. Penodir aelodau annibynnol oherwydd eu sgiliau a'u profiad arbenigol, drwy broses ddethol agored. Â pob aelod newydd o'r Cyngor neu'r pwyllgorau drwy broses ymsefydlu sy'n briodol i'w swyddogaeth.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n gyfrifol am ddarparu sicrwydd i'r Cyngor ar effeithiolrwydd ein llywodraethu, ein rheoli perygl a'n trefniadau rheoli mewnol. Llunia Adroddiad Blynnyddol i'r Cyngor sy'n crynhoi ei waith a thynnu sylw at faterion pwysig yn ôl y galw.

Roedd tair thema allweddol i waith y pwyllgor yn y flwyddyn. Yn gyntaf, monitro cynnydd yn rheolaidd o ran gweithredu holl argymhellion yr archwilwyr; yn gyffredinol roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y cynnydd a wnaed. Yn ail, o gofio lefel ein buddsoddiad ynddynt, monitro sefydliadau refeniw gyda ffocws ar y rhai uwch eu perygl. Yn drydydd, archwiliodd y Pwyllgor drefniadau'r ymarfer gorau o ran llywodraethu drwy broses barhaus o adolygu systemau a gweithdrefnau. Ni chodwyd unrhyw faterion pwysig yn 2012/13.

Mae'r Pwyllgor Cyfalaf yn gyfrifol am gynghori'r Cyngor ar ddatblygu polisi am bob agwedd ar ddatblygu Cyfalaf, gan gynnwys blaenoriaethau ariannu a chynlluniau. Mae ganddo awdurdod

dirprwyedig i benderfynu'n ariannol ar grantiau Cyfalaf y Loteri o £50,001 hyd at £250,000. Gyda grantiau Cyfalaf mwy, rhydd argymhellion i'r Cyngor.

Adolyga'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol berfformiad y Prif Weithredwr yn ôl amcanion a gytunwyd a gosod targedau i'r flwyddyn a ddaw. Cytuna hefyd ar lefel dâl y Cadeirydd yn y terfynau a osododd Gweinidogion Cymru.

Ceir manylion aelodaeth y Cyngor a'r tri phwyllgor hyn a manylion am fynychu'r aelodau yn adran manylion cyfeiriol a gweinyddol ar ddechrau Adroddiad Blynnyddol yr ymddiriedolwyr. Y llynedd roedd gennym hefyd Bwyllgor Ymgynghorol Fenis i borthi ac arolygu trefnu ein presenoldeb ym Miennale Fenis 2013. Hefyd roedd gennym ddau grŵp monitro mewnol sef Grŵp Monitro Cydraddoldebau a Grŵp Monitro'r Gymraeg.

Mae'r Uwch Tîm Rheoli dan arweiniad y Prif Weithredwr a chefnogir ef gan dimau datblygu'r celfyddydau a gwasanaethau corfforaethol. Seilir Tîm Datblygu'r Celfyddydau o amgylch tair cyfarwyddiaeth – y Celfyddydau; Ymgysylltu ac Ymgyfranogi; a Menter ac Adfywio; a Thîm Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cynnwys dwy gyfarwyddiaeth – Cyllid ac Adnoddau; a Buddsoddi ac Ariannu. Mae gan bob cyfarwyddwr gyfrifoldeb am agwedd benodol ar y sefydliad. Mae rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol.

Dirprwyodd y Cyngor rym i'r staff benderfynu am roi grantiau hyd at £50,000.

Hyrwyddo gwerthoedd llywodraethu da:

Cefnoga'r Cyngor saith egwyddor yr Arglwydd Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus ac ymdrecha i sicrhau bod pob gweithiwr, ymddiriedolwr, aelod o'r pwyllgorau ac ymgynghorydd cenedlaethol yn cymhwyso'r egwyddorion a glynu wrthynt.

Mae gennym god yr ymarfer gorau ac mae copi ar ein gwefan. Diffinia'n glir swyddogaethau a chyfrifoldebau'r aelodau a'r swyddogion gan gynnwys y safonau priodoldeb disgwylidig y dylent lynu wrthynt.

Rhaid i bob aelod o'r Cyngor a'r pwyllgorau lenwi'n flynyddol ddatganiad o fudd a chadarnhau'r rhain ymhob cyfarfod a sicrhau y rhoddant wybod am newidiadau'n brydlon.

Mae cofrestr fudd aelodau o'r Cyngor a'i bwyllgorau a'i ymgynghorwyr cenedlaethol ar gael i'r cyhoedd ei gweld, o wneud apwyntiad, ymhob un o'n swyddfeydd yn ystod ein horiau gwaith arferol.

Mae gan bob un o gyfarfodydd ein Cyngor ei agenda a chylchredir adroddiadau ysgrifenedig ymlaen llaw i aelodau. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y derbynnir eitemau a gyflwynir ac adroddiadau ar lafar. Cyhoeddir agenda a chofnodion pob cyfarfod o'n Cyngor ar ein gwefan.

Nid yw cod Llywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi yn uniongyrchol gymwys i'r Cyngor. Ond, a finnau'n Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n fodlon yr adlewyrcha'r trefniadau cyfredol ymarfer da ac y cydymffurfiai'r Cyngor â'r egwyddorion o atebolrwydd, effeithiolrwydd ac arweinyddiaeth sydd yng nghod y Trysorlys i'r graddau y maent yn berthnasol i gyrff a noddur gan Lywodraeth Cymru a dosbarthwyr y Loteri. Cymeradwya'r Cyngor y farn hon.

Penderfynu'n wybodus:

Porthir penderfyniadau'r Cyngor a'i bwyllgorau gan gyngor a ddarparwyd gan staff y Cyngor. Lle bo'n briodol, ategir hyn gan gyngor arbenigol ein hymgyngorwyr cenedlaethol.

Disgwylir i ddogfennau ac adroddiadau a gyflwynir gan swyddogion i'r pwyllgorau a'r Cyngor ddangos yn glir pob gwybodaeth

berthnasol angenrheidiol er mwyn i'r Cyngor benderfynu'n wybodus. Lle bo'n briodol, eir ar ôl cyngor arbenigol a barn gyfreithiol hefyd a'u hadrodd wrth y Cyngor a'r pwyllgorau.

Ymgynghorir ar gynigion polisi allweddol ymhlith y cyhoedd. Porthir trafodaethau'r Cyngor gan yr ymatebion a'r adborth cyn terfynu'r polisiâu.

Materion a ystyria'r Cyngor:

Ymgylfarfu'r Cyngor chwe gwaith yn 2012/13 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd y 15 aelod gyfanswm o 73 gwaith allan o 90 gwaith bosibl. Ymhob achos cafwyd esboniadau boddhaol am absenoldeb.

Ystyriodd y Cyngor adroddiadau ar ystod o faterion, gan gynnwys: strategaeth; pennu cynlluniau a chyllidebau; a monitro perfformiad yn ôl targedau gweithredol ac ariannol. Cafodd hefyd adroddiadau gan bob cyfarfod o'r is-bwyllgorau.

Adolygodd y Cyngor y trefniadau llywodraethu, gan gynnwys swyddogaeth y pwyllgorau. Penderfynodd estyn cylch gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol i gynnwys ymwneud â phenodiadau uwch. Yn y dyfodol gelwir ef yn Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Phenodiadau.

Yn sgil gwaith paratoi'r llynedd, gweithredwyd strwythur sefydliadol newydd ym Mai 2012. Cafodd y Cyngor ddiweddariadau rheolaidd am weithredu'r strwythur newydd a'r rhaglenni gwaith drwy gydol y prosiect. Gwnaeth ein harchwilwyr mewnol ddau adolygiad annibynnol o'r broses a rhoesant hwy i'r Cyngor.

Yn rhan o'i adolygu o'r strwythur, penderfynodd y Cyngor i beidio â pharhau â'r pwyllgorau rhanbarthol ymgynghorol. Yn lle'r rhain, ymroes i gynnal cyfres barhaus o gyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru. Diben y cyfarfodydd

yw cael gwybod y farn gyhoeddus am faterion perthnasol i'r Cyngor.

Ystyriwyd hefyd nifer o faterion eraill o bwys strategol. Ymhlith y rhai mwyaf arwyddocaol oedd adroddiadau ar WOMEX 2013, ffair gerddorol y byd, a gynhelir gan Gerdd Cymru y mae gan y Cyngor fudd o 50% ynddi. Mae hon yn flaenoriaeth strategol allweddol i'r Cyngor yn 2013/14.

Trafododd aelodau hefyd ddatblygu adolygiad o strategaethau celfyddydol y Cyngor a datblygu Cynllun Corfforaethol 2013-18.

Ymgwymerodd y Cyngor ag adolygiad hunanasesu o'i berfformiad ei hun y llynedd. Ar y cyfan ei gasgliad oedd ei fod yn fodlon y gweithiai'n effeithiol yn ôl y 13 categori yn ei Fframwaith Asesu Bwrdd. Ond, yn rhan o'r broses o wella'n barhaus, cyflwynir gwelliannau pellach hefyd y flwyddyn nesaf, gan gynnwys adolygu effeithiolrwydd ein cylch cynllunio strategol; cryfhau prosesau'r Cyngor o sicrwydd a hunanasesiad; a chreu rhagor o gyfleoedd i aelodau o'r Cyngor gyfarfod â'r staff i sicrhau bod trafodaeth fyw, agored a gwybodus rhwng y Cyngor a'r staff. Pery'r Cyngor i fonitro ei berfformiad yn ôl y Fframwaith Asesu.

Roedd y Cyngor yn fodlon gyda'r data a'r wybodaeth a gaiff a bod y wybodaeth a gaiff am grantiau'n ddibynadwy. Adolygir yn flynyddol y systemau a ddefnyddir i ddarparu'r wybodaeth yn rhan o'r rhaglen archwilio fewnol. Yn yr achosion prin pan na chyferfydd y wybodaeth â'r safonau angenrheidiol, gwrthodir derbyn y ddogfen gan gomisiynu gwybodaeth newydd yn ei lle. Digwyddodd hyn unwaith y llynedd.

Ariannu trydydd parti:

A ninnau'n ddosbarthwr mawr o arian i sector celfyddydau Cymru – oddi wrth Lywodraeth Cymru, y Loteri genedlaethol a ffynonellau eraill, gan gynnwys arian Ewrop – cymerwn ein

cyfrifoldebau o ddifrif a datblygasom systemau a gweithdrefnau i gefnogi'r rhan allweddol hon o'n gweithgarwch.

Cyhoeddir yn flynyddol ganllawiau clir i bob un o'n rhaglenni grant Loteri ac mae manylion ar ein gwefan.

Mae gennym brosesau ymgeisio agored a thryloyw i'n rhaglenni grant a phrosesau asesu cadarn, penderfynu a monitro i bob arian a roddwn i artistiaid a sefydliadau celfyddydol. Adolygir y rhain yn rheolaidd.

Ystyriwn berygl pan aseswn geisiadau a monitro grantiau a roddir. Defnyddir gwybodaeth a gesglir oddi wrth y rhai a gaiff grantiau yn ein gweithdrefnau monitro i sicrhau y cyflawnwyd yn y diwedd ganlyniadau datganedig ein harian.

Penderfyna'r Cyngor a ddylid rhoi statws Sefydliad Refeniw i sefydliad, seiliedig ar gyngor swyddogion ac asesiadau trylwyr.

Mae rhestr lawn o'r grantiau Loteri a gynigiwyd yn y flwyddyn ariannol yn yr atodiadau i'r Adroddiad Blynyddol hwn. Rhestrir grantiau a gynigiwyd o'r trysorlys ac arian arall nad oedd yn arian o'r Loteri yn ein cyfrifon gweithgareddau cyffredinol a gyhoeddir ar wahân.

Caiff y Cyngor adroddiadau rheolaidd ar yr asesiad perygl am bob un o'n sefydliadau refeniw. Ategir hwn gan Adroddiad Blynyddol sy'n crynhoi canfyddiadau ein harolwg blynyddol o fynychu ac ymgyfranogi ymhlith ein sefydliadau refeniw, a lefel yr arian refeniw yn ôl pob mynychwr/ymgyfranogwr.

Pan fo galw, cymerwn agwedd ragweithiol o ran sefydliadau a gaiff anawsterau a buddsoddi amser ac egni i'w cynorthwyo i ddatrys eu problemau. Y llynedd comisiynasom adolygiadau annibynnol o un sefydliad refeniw.

Darparwyd diweddariadau rheolaidd i'r Cyngor am sefydliad arall a gafodd anawsterau ariannol yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ar sail cyngor swyddogion ac arbenigwyr allanol, cymeradwyodd y Cyngor gyfres o argymhellion â'r nod o sefydlogi'r sefydliadau a'u symud tuag at sefyllfa fwy cynaliadwy yn y tymor canolig.

Cymerwn dwyll, llygredd a chamweinyddu o ddifrif ac mae gennym bolisiau i atal y rhain a delio â hwy pe codent, gan gynnwys polisiau chwythu'r chwiban a gwrth-dwyll. Ni ddaeth unrhyw enghreifftiau i'r fei y llynedd.

Adolygir yn flynyddol gan ein harchwilwyr mewnol ein prosesau rhoi grantiau a monitro a chreffir arnynt gan Swyddfa Archwilio Cymru. Gan gymryd i ystyriaeth y materion a ddaeth i law o adolygiad arbennig yn y gorffennol a dymuno cyflwyno mewnwelediad gwahanol, cyflwynasom ymagwedd wahanol i'r adolygiadau archwilio mewnol y llynedd. Golygai hyn ganolbwyntio ar bob swm o arian a gaiff sampl o'n cleientiaid yn hytrach na chraffu ar feysydd ariannu penodol. Adeiladwn ar hyn yn y flwyddyn a ddaw.

Rheoli perygl:

Datblygasom system o reolaeth fewnol â'r amcan o nodi a blaenoriaethu'r peryglon o ran cyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Cyngor. Gwerthuso debygolrwydd gwireddu'r peryglon ac ystyried yr effaith pe digwyddent a cheisio eu rheoli'n effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Cydnabyddwn y rheidrwydd i unrhyw strategaeth ddatblygu uchelgeisiol dderbyn y perygl o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion. Bwriad ein system o reolaeth fewnol yw cyfyngu ar berygl i lefel resymol a phriodol ac felly ni all ddarparu sicrwydd llwyr eithr rhesymol.

Bwriadwn hyrwyddo diwylliant mwy arloesol a

llai ofnus o berygl i gefnogi artistiaid, sefydliadau a phrosiectau i gyflawni ein hamcanion. Golyga'r angen cynyddol i fwyafu manteision ein buddsoddi i'r sector a'r cyhoedd fod yn rhaid inni ar brydiau ymdrin â pheryglon mewn modd priodol a phwylllog a chydabod y gallai methiant ddigwydd o ganlyniad. Ond ni fyddwn yn fyrbwyll na niweidio'n fwiadol ein henw da. A ninnau'n gorff a ariennir yn gyhoeddus, ystyriwn berygl yn ofalus yn unol â'n cyfrifoldebau a'r sector a wasanaethwn.

Mae'r staff wedi'u paratoi i reoli perygl yn briodol o ran eu hawdurdod a'u dyletswyddau drwy gael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o berygl ac arweiniad mewn swydd. Rhaid cynnwys asesiad o berygl ymhob dogfen bwysig a â gerbron y Cyngor.

Cychwynnodd y Pwyllgor Archwilio ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Diben y fframwaith yw cryfhau'r broses rheolaeth a sicrwydd a ddefnyddir i nodi a rheoli peryglon strategol allweddol. Rhydd hyn ragor o hyder i'r Cyngor bod eu penderfyniadau wedi'u seilio ar wybodaeth. Cyflwynwn hyn yn 2013/14.

Cefnogir rheoli perygl gan waith ein harchwilwyr mewnol. Mae rhagor o fanylion isod.

Peryglon allweddol a wyneba'r Cyngor:

Nodwyd, aseswyd ac ystyriwyd peryglon i'n gweithgareddau strategol a gweithredol gan Uwch Tîm Rheoli a gweithredwyd i'w lleihau. Adolygir yn gyson y peryglon a'r camau gweithredu a gymerir i'w rheoli. . Cefnogir hyn gan ein rhaglen archwilio fewnol sy'n adolygu meysydd allweddol o berygl a lle bo'n briodol gynnig argymhellion i'r rheolwyr i fynd i'r afael â hwy a'u lleihau. Rhoddir diweddariadau gerbron y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio.

Un o'r peryglon allweddol a nodwyd y llynedd oedd gweithredu a chynnal ein hAdolygiad Sefydliadol. Cynhaliwyd ef yn llwyddiannus ac

adolygwyd ef gan ein harchwilwyr mewnol. Nid ystyriwn ef bellach yn berygl allweddol.

Ond yn y dyfodol mae nifer o beryglon allweddol sy'n ein hwynebu yn y flwyddyn a ddaw neu wedyn:

Y perygl mwyaf arwyddocaol yn y dyfodol agos yw effaith y toriadau yn y gwariant cyhoeddus a'r effaith bosibl a gâi ar y sector ehangach. Gwyddom am yr angen i fynd i'r afael yn barhaus â materion a'u monitro lle rydym yn brif ariannwr a lle mae gennym ddylanwad uniongyrchol. Ond y gallai perygl ac effaith y toriadau gan arianwyr sector cyhoeddus eraill greu goblygiadau i seilwaith y celfyddydau ledled Cymru.

Ailagorasom ein rhaglen Cyfalaf y Loteri y llynedd. Mae pob prosiect ar raddfa fawr, boed yn adeiladau newydd neu adnewyddu hen rai, yn beryglus yn eu hanfod. Adlewyrchir hyn gan ein gweithdrefnau a'n rheolaeth. Ar hyn o bryd mae gennym ddau brosiect mawr a adeiladir; monitrir y ddau'n ofalus gyda chymorth arbenigwyr annibynnol sy'n defnyddio ein gweithdrefnau monitro trylwyr.

O ganlyniad i ragor o werthiant tocynnau, cynnydd yn ein cyfran o'r arian achosion da a diwedd ein cyfraniadau at Gemau Olympaidd Llundain 2012, cynyddodd ein hincwm Loteri. Yn y tymor byr mae peryglon o gael balansau mwy yng nghronfa dosbarthu'r Loteri genedlaethol ac anallu i ymrwymo'r lefelau newydd o incwm. Monitrir y sefyllfa'n ofalus.

Cynhelir WOMEX 2013, digwyddiad mawr gydag artistiaid a hyrwyddwyr o bedwar ban byd, yng Nghaerdydd yn Hydref 2013. Mae sawl perygl ynghlwm wrth ddigwyddiad mor gymhleth ac mor fawr. Cerdd Cymru:Music Wales sy'n ei chynnal ond mae'n bwysig yn strategol i'r Cyngor a buddsoddw'n adnoddau i sicrhau ei llwyddiant.

Diogelwch data:

Cymerwn ein rhwymedigaethau dan Ddeddf Diogelu Data o ddifrif. Sicrha ein systemau a rheolaethau TGCh fod rheolaeth lem ar y data. Aseswn y trefniadau hyn yn rheolaidd gan gymryd camau i'w gwneud yn fwy cadarn. Parhawn i'w monitro'n ofalus.

Ni chodwyd unrhyw bryderon o'r adolygiad o'r archwiliadau allanol neu fewnol y llynedd. Nid amlygwyd unrhyw faterion gan yr adolygiad lefel uchel a gynhaliodd ein harchwilwyr allanol o'r rheolaethau TG. Y llynedd cynhwysai'r rhaglen archwilio fewnol adolygiadau diogelu data a seilwaith a threfniadau diogelwch ein TGCh. Canlyniad y ddau oedd graddfeydd o sicrwydd sylweddol.

Hyd y gwn ac y credaf, ni chollwyd unrhyw ddata y llynedd.

Cyfarwyddiadau'r Gweinidogion:

A ninnau'n gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn ddarostyngedig i offerynnau anstatudol sy'n cynnwys cyfarwyddiadau priodol. Ni chyflwynwyd unrhyw gyfarwyddiadau inni y llynedd ac ni chawsom unrhyw Gyfarwyddiadau gan y Gweinidogion o ran ein gweithgareddau Loteri.

Materion rheolaeth a nodwyd y llynedd:

Cawn wasanaeth archwilio mewnol gan Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig Deloitte dan arweiniad Pennaeth Archwilio Mewnol a enwebir sy'n gweithio'n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth hyd at Fawrth 2013 a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus o Ebrill 2013 ymlaen.

Cytuna'r Pwyllgor Archwilio ar raglen o adolygiadau yr ymgymer ein harchwilwyr mewnol â hi yn ystod tymor eu penodiad. Cynnwys pob cynllun blynyddol adolygiadau o weithgareddau busnes allweddol ac archwilio meysydd o berygl posibl inni. Eu nod yw

cynorthwyo rheolwyr wrth adnabod gwelliannau lle bo eu hangen.

Cynhaliwyd deg adolygiad y llynedd. Gydag un eithriad, canlyniad pob adolygiad oedd o leiaf lefel sylweddol o sicrwydd. Yr eithriad oedd am agwedd o'n prosesau recriwtio a esgorodd ar lefel gyfyngedig o sicrwydd. Aed i'r afael (neu eir i'r afael) â phob argymhelliad a gododd yr archwilwyr mewnol.

Dyma farn yr archwilwyr mewnol ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor yn eu Hadroddiad Blynyddol:

“Ar sail ein gwaith dros y flwyddyn, gallwn gasglu bod system reoli fewnol y Cyngor yn gadarn yn y bôn a dylai hyn fod yn sicrwydd sylweddol o ran cyflawni ei amcanion. Nodasom un mater o flaenoriaeth uchel a gafodd gennym raddfa o sicrwydd cyfyngedig ond datryswyd hwn erbyn hyn gan y rheolwyr.”

Mae canfyddiadau blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru mewn Adroddiad am Sicrwydd Ychwanegol a Llythyr Rheoli at y Cyngor. Ystyrir hwn hefyd gan y Pwyllgor Archwilio a rhoddir copi ohono i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Aed i'r afael (neu eir i'r afael) â phob argymhelliad a gododd yr archwilwyr allanol.

Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheolaeth fewnol:

Yn fy marn, mae systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol Cyngor Celfyddydau Cymru yn ddigonol i'm galluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau yn Swyddog Cyfrifyddu.



Nicholas Capaldi
Swyddog Cyfrifyddur
5 Gorffennaf 2013

Cefnogwyd ar ran y Cyngor:



Yr Athro Dai Smith
Cadeirydd
5 Gorffennaf 2013

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd ac Aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol am gyfrif dosbarthu Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Yn y datganiadau ariannol mae: datganiadau o incwm cynhwysfawr net, y sefyllfa ariannol, llifau arian, newidiadau ecwiti; a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Archwiliais hefyd y wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw yn archwiliedig.

Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu, maent yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon y darparant olwg wir a theg. Fy nghyfrifoldeb yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol ac adrodd arnynt yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Gofyn y safonau hyn i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Cyfrifyddu.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Cynhelir archwiliad i gael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau cyfrif dosbarthu Loteri'r Cyngor ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynnyddol i nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os dof i wybod am unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Mae gofyn imi gael tystiolaeth ddigonol o sicrwydd rhesymol y defnyddiwyd y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac y cydymffurfia'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn, mae'r incwm a'r gwariant wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn:

- darpara'r datganiadau ariannol olwg wir a theg o sefyllfa cyfrif dosbarthu Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru ar 31 Mawrth 2013 ac o'r incwm net am y flwyddyn a ddaeth i ben y pryd hwnnw;
- y paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd â chymeradwyaeth Trysorlys ei Mawrhydi.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn:

- paratowyd y rhan i'w harchwilio o'r

Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol yn iawn ac yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed â chymeradwyaeth Trysorlys ei Mawrhydi dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993; ac

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol yr ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar eu cyfer, ac eithrio'r cynlluniau at y dyfodol a'r adroddiad amgylcheddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu na chafwyd ffurflenni digonol am fy archwiliad o ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
- na chytuna'r datganiadau ariannol a rhan yr Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol i'w harchwilio â'r cofnodion a ffurflenni cyfrifyddu; neu
- ni chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad adlewyrcha'r datganiad llywodraethu gydymffurfiaid â chanllawiau Trysorlys ei Mawrhydi.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Amyas C E Morse
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
10 Gorffennaf 2013

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

Cyfrifoldeb Cyngor Celfyddydau Cymru yw cynnal gwefan Cyngor Celfyddydau Cymru a sicrhau cywirdeb; nid yw'r gwaith a gyflawnwyd gan yr ymchwilyr yn cynnwys ystyriaeth ar y materion yma ac o ganlyniad nid yw'r archwilyr yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newidiadau a ddigwydd i'r datganiadau ariannol unwaith y cyflwynwyd hwy'n y lle cyntaf ar y wefan.

Datganiad o incwm net cynhwysfawr
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

	Nodiadau	2013		2012	
		£'000	£'000	£'000	£'000
Gwariant					
Rheoli a gweinyddu:					
Costau staff	2	952		1,194	
Costau gweithredu eraill	4a	607		613	
			<u>1,559</u>	<u>1,807</u>	
Grantiau nad oes modd eu hadennill:					
Grantiau nad oes modd eu hadennill a ddilewyd		-		615	
Cynnydd/(lleihad) yn narpariaeth y dyledion amheus			2	(665)	
			<u>2</u>	<u>(50)</u>	
Gwariant ar y celfyddydau:					
Ymrwymiadau grant a wnaed (pendant) ¹		12,480		8,716	
Llai: Ymrwymiadau a ostyngwyd ac a ddiddymwyd (pendant) ¹		(379)		(129)	
Ymrwymiadau grant a wnaed (pendant) ¹	9b		12,101		8,587
Dosbarthwr dirprwyedig: Asiantaeth Ffilm Cymru	11		1,200		1,200
Grantiau celfyddydol eraill	5		208		177
Costau uniongyrchol rhoi grantiau	4b		11		17
			<u>13,520</u>	<u>9,981</u>	
Trosglwyddiad statudol i gronfa dosbarthu					
Loteri'r gemau Olympaidd	6		1,010		2,169
			<u>16,091</u>	<u>13,907</u>	
Cyfanswm y gwariant					
Incwm					
Cyfran yr enillion o'r Loteri Genedlaethol	6		19,355		15,083
Incwm buddsoddi ar falansau					
Cronfa dosbarthu'r Loteri	6		103		109
Llog derbyniadwy			6		5
Grantiau adenilladwy			21		35
			<u>19,485</u>	<u>15,232</u>	
Cyfanswm incwm					
Incwm net			3,394		1,325
Incwm cynhwysfawr arall					
Enillion net heb eu gwireddu ar ailwerthuso buddsoddiad yng nghronfa dosbarthu'r Loteri	6		2		169
			<u>3,396</u>	<u>1,494</u>	

¹ Enillion net heb eu gwireddu ar ailwerthuso buddsoddiad yng nghronfa dosbarthu'r Loteri

Nid oes unrhyw weithgareddau sydd wedi peidio ac ni chafwyd unrhyw gaffaeliadau yn ystod y flwyddyn. Nid oes unrhyw enillion na cholledion ac eithrio'r rhai a ddangosir uchod. Mae'r nodiadau ar dudalennau 135 to 145 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Datganiad Sefyllfa Ariannol

ar 31 Mawrth 2013

		31 Mawrth 2013		31 Mawrth 2012	
	Nodiadau	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau anghyfredol:					
Derbyniadwyon masnach ac eraill	7a		150		150
Asedau cyfredol:					
Asedau ariannol:					
Buddsoddiadau - balans a ddaliwyd yng nghronfa dosbarthu'r Loteri	6	20,601		15,566	
Derbyniadwyon masnach ac eraill	7b	71		3	
Arian a phethau cyfwerth ag arian	10c	1,739		28	
Cyfanswm asedau cyfredol			<u>22,411</u>		<u>15,597</u>
Cyfanswm asedau			<u>22,561</u>		<u>15,747</u>
Taladwyon masnach ac ymrwymedigaethau cyfredol eraill – symiau sy'n ddyledus mewn blwyddyn:					
Taladwyon masnach ac eraill	8	(79)		(431)	
Ymrwymedigaethau eraill:					
Dosbarthwr dirprwyedig:					
Asiantaeth Ffilm Cymru	8	(416)		(441)	
Darpariaeth am ymrwymadau grant (pendant) ¹ 8, 9b		(8,361)		(6,560)	
Cyfanswm y taladwyon ac ymrwymedigaethau cyfredol eraill			<u>(8,856)</u>		<u>(7,432)</u>
Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net			<u>13,705</u>		<u>8,315</u>
Taladwyon masnachol ac ymrwymedigaethau eraill – symiau dyledus ar ôl hwy na blwyddyn:					
Darpariaeth ar gyfer ymrwymadau grant sy'n ddyledus ar ôl hwy na blwyddyn (pendant) ¹ 9b			(3,510)		(1,516)
Asedau llai ymrwymedigaethau			<u>10,195</u>		<u>6,799</u>
Ecwiti/arian wrth gefn:					
Cyfrif gwariant net			<u>10,195</u>		<u>6,799</u>

¹Gweler nodyn 1d am fanylion y gwahanol gategoriâu o ymrwymadau grant

Mae'r nodiadau ar dudalennau 135 to 145 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'u llofnodi ar ei ran gan



Nicholas Capaldi, Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2013



Yr Athro Dai Smith, Cadeirydd
5 Gorffennaf 2013

Datganiad o lif arian

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

	Nodiadau	2013 £'000	2012 £'000
Llifau arian oddi wrth weithrediadau			
Arian a gafwyd gan gronfa dosbarthu'r			
Loteri Genedlaethol	6	13,415	11,746
Derbynebaw arian eraill		9	91
Grantiau a dalwyd	9b	(8,306)	(9,674)
Arian a dalwyd i gyflogeion ac ar ran cyflogeion		(958)	(1,026)
Taliadau arian eraill		(1,230)	(818)
Taliadau Asiantaeth Ffilm	8a	(1,225)	(1,055)
Mewnlif/(all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu	10a	1,705	(736)
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd			
		6	5
Mewnlif arian net o weithgareddau buddsoddi		6	5
Cynnydd/(lleihad) net mewn arian a phethau cyfwerth ag arian yn y cyfnod			
	10b	1,711	(731)

Datganiad o newidiadau mewn ecwiti

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

	2013 £'000	2012 £'000
Balans ar ddechrau'r flwyddyn	6,799	5,305
Incwm net am y flwyddyn	3,396	1,494
Balans ar ddiwedd y flwyddyn	10,195	6,799

Mae'r nodiadau ar dudalennau 135 to 145 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Nodiadau sy'n rhan o'r datganiadau ariannol

a Sail y paratoi

Paratoir y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol. Fe'u paratowyd yn unol ag adran 35 o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998) ar ffurf ac ar sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn mewn cydymffurfiad â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Dan Gyfarwyddiadau Cyfrifon ar wahân mae'r driniaeth gyfrifyddu a gaiff grantiau cyffredinol a grantiau'r Loteri yn wahanol iawn. Felly, gan ystyried Paragraff 359 o Ddatganiad Arfer a Argymhellir y Comisiwn Elusennau (a ddiwygiwyd yn 2005), ym marn yr ymddiriedolwyr mae'n amhriodol paratoi cyfrif cyfunol gan na roddai ddarlun gwir a theg o'r ffordd y defnyddia'r Cyngor ei adnoddau.

b Cydnabod incwm a gwariant

Rhoddir cyfrif am bob incwm ar sail groniadau. Rhoddir cyfrif am bob gwariant ar sail groniadau ac mae wedi'i ddsbarthu dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n ymwneud â'r categori. Lle na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol maent wedi'u dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

c Gweithgareddau cyffredinol

Nid yw'r datganiadau ariannol hyn yn cwmpasu gweithgareddau cyffredinol y Cyngor, a ariennir drwy gymorth grant yn bennaf, ac y paratoir datganiadau ariannol ar wahân ar eu cyfer.

d Ymrwymadau grant

Mewn perthynas â grantiau a wneir gan ddsbarthwyr y Loteri gwahaniaethir rhwng 'ymrwymadau pendant' ac 'ymrwymadau amhendant'. Mae ymrwymadau pendant, a godir fel gwariant yn y datganiadau ariannol, yn codi pan fydd y Cyngor wedi cynnig grant

yn ffurfiol (ynghyd â'r amodau priodol) sydd wedi cael ei dderbyn gan y sawl a fydd yn ei gael. Mae ymrwymadau amhendant, a gofnodir mewn nodyn i'r datganiadau ariannol, yn codi pan fydd y Cyngor wedi cytuno mewn egwyddor i ariannu prosiect a gwnaeth gynnig ond, ar ddiwedd y flwyddyn, nad yw'r cynnig wedi cael ei dderbyn yn ffurfiol gan y sawl a fydd yn ei gael.

Cydnabyddir ymrwymadau pendant sy'n daladwy o fewn blwyddyn i ddiwedd y flwyddyn yn y fantolen fel ymrwymedigaethau cyffredol. Dangosir fel y maent yr ymrwymadau pendant sy'n daladwy'n hwy na blwyddyn ar ôl y datganiad am y sefyllfa ariannol.

e Cronfa Dosbarthu'r Loteri

Erys balansau a ddelir yng nghronfa dosbarthu'r Loteri Genedlaethol dan ofal yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ond dangosir y gyfran o'r balansau o'r fath y gellir ei phriodoli i'r Cyngor yn y cyfrifon ar werth y farchnad ac, ar ddyddiad y datganiad am y sefyllfa ariannol, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi hysbysu ei bod ar gael i'w dosbarthu gan y Cyngor mewn perthynas ag ymrwymadau cyffredol ac yn y dyfodol.

Priodol yw dosbarthu buddsoddiadau cronfa dosbarthu'r Loteri yn eitemau sydd ar gael i'w gwerthu sy'n unol â pholisi cyfrifyddu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac mae'r driniaeth gyfrifyddol hon yn briodol i'r Cyngor. Dywed y polisi y delir buddsoddiadau ar werth teg gydag unrhyw elw neu golled heb ei wireddu drwy'r arian wrth gefn.

f Pensiynau

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol 1994 Cyngor y Celfyddydau. Mae'r cynllun pensiwn yn darparu buddiannau diffiniedig i gyflogeion y Cyngor. Codir am gostau cyfraniadau'r Cyngor ar y datganiad incwm cynhwysfawr net fel y

gellir rhannu cost pensiynau dros fywydau gwaith y gweithwyr.

Mae hefyd yn gynllun budd diffiniedig, cyflogwyr lluosog felly ni allwn nodi ein cyfran o'r asedau a'r ymrwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig, yn unol ag IAS19.

g Trethiant

Codir Treth ar Werth anadenilladwy sy'n deillio o Wariant ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr Net neu caiff ei chyfalafu fel ased sefydlog lle y bo'n gymwys.

h Dosrannu costau rheoli a gweinyddu o'r Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol

Mae'r Cyngor yn mynd i gostau sy'n cefnogi ei weithgareddau cyffredinol a'i swyddogaethau o ran dosbarthu'r Loteri. Yn unol â'i Gyfarwyddyd

